


# O Dan yr Hen Gyfaredd: Amseroedd Stori yn Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru



**Adroddiad gan Ganolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans ar ran CyMAL**


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

UNIVERSITY OF • PRIFYSGOL
Glamorgan Morgannwg
CARDIFF • PONTYPRIDD • CAERDYDD

George Ewart Evans Centre for Storytelling
Canolfan Adrodd Storïau

**STILL SPELL-BOUND: STORY TIMES IN WELSH MUSEUMS, ARCHIVES AND LIBRARIES**

**O DAN YR HEN GYFAREDD: AMSEROEDD STORI YN AMGUEDDFEYDD, ARCHIFAU A LLYFRGELLOEDD CYMRU**

*Adroddiad ar ran CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) gan Patrick Ryan, PhD, FEA, Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans yn yr Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol, Prifysgol Morgannwg*

> *'Dywedwyd mai adrodd straeon yw'r hynaf a'r mwyaf newydd o'r celfyddydau. Er bod ei ddiben a'i amgylchiadau yn newid o ganrif i ganrif, ac o ddiwylliant i ddiwylliant, mae adrodd straeon yn parhau i ddiwallu'r un anghenion cymdeithasol ac unigol sylfaenol. Mae'n ymddangos bod gan bobl gymhelliad cynhenid i gyfathrebu eu teimladau a'u profiadau trwy adrodd straeon. Rydym yn adrodd straeon er mwyn gwneud synnwyr o'n byd. Rydym yn mynegi ein credoau, ein dyheadau a'n gobeithion mewn straeon, mewn ymdrech i'n hesbonio ein hunain ac i ddeall eraill.'*
>
> **Ellin Greene a Janice M. Del Negro, Storytelling: Art and Technique**

**CYNNWYS**

0.1. Crynodeb gweithredol ....................................................4

0.2. Cydnabyddiaethau a diolch....................................................6

**ADRAN 1**

1.0. Cyflwyniad....................................................8

1.1. Diffiniadau....................................................10

1.2. Sut y Casglwyd Gwybodaeth....................................................12

**ADRAN 2**

2.0. Gwybodaeth a Ganfuwyd ....................................................14

2.1. Dosbarthiad Ymatebion ....................................................14

2.2 Cynnwys Nodweddiadol Amseroedd Stori mewn Sefydliadau yng Nghymru ....16

2.3. Adrodd Straeon o Lyfrau Lluniau ....................................................16

2.4 Mathau Eraill o Weithgareddau Amser Stori ....................................................17

2.5 Ieithoedd a Ddefnyddir mewn Amseroedd Stori ....................................................21

2.6 Defnyddwyr a Chynulleidfaoedd ....................................................21

2.7 Pwy sy'n Cyflwyno Gwasanaethau Amser Stori ....................................................24

2.8 Rhesymeg dros Weithgareddau Amser Stori ....................................................25

**ADRAN 3**

3.0 Argymhellion ar gyfer mwy o Gefnogaeth ac ar gyfer Ehangu ....................................................26

3.1 Tystiolaeth o Blaid Ehangu Arferion Amser Stori..........................................27

3.2 Potensial i Ehangu a Datblygu: Awgrymiadau Penodol....................................32

3.3 Agweddau Ymarferol: Ei Roi ar Waith........................................................36

4.0 Sylwadau i Gloi..........................................................................................44

**ATODIADAU**

ATODIAD I. Rhan (A) Cwestiynau'r arolwg a dewis o ymatebion........................46
Rhan (B) Dadansoddiad o'r Ymatebion ..........................................50

ATODIAD II. Rhan (A) Sylwadau, Awgrymiadau a Modelau o Arfer Da ...............54
Rhan (B) Ffynonellau, Adnoddau a Darpar Bartneriaid....................65

**LLYFRYDDIAETH**..........................................................................................68

## 0.1. Crynodeb Gweithredol

> *'Ni fyddwn yn cael gwared â'r straeon anhygoel rwyf wedi eu cofio ers fy mhlentyndod am holl aur y byd.'*
>
> **Martin Luther**

**Diben yr Astudiaeth:**

Wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus staff rheng flaen yn Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, sylweddolodd CyMAL nad oedd unrhyw adroddiad cynhwysfawr diweddar ar arferion amser stori mewn sefydliadau llyfryddiaethol a rhai sy'n cael eu curadu yng Nghymru. O ganlyniad, gofynnwyd i Ganolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans (y Ganolfan) gynnal astudiaeth o'r fath a chyflwyno adroddiad erbyn yr hydref, 2012. Mae CyMAL yn bwriadu defnyddio'r adroddiad hwn fel canllaw i uwch reolwyr pan fyddant yn cynllunio sut i ehangu a gwella gwasanaethau ym mhob sector. Bydd hyn yn helpu wedyn i flaenoriaethu a datblygu polisïau'r dyfodol ar gyfer y gwaith y mae CyMAL ei hun yn ei wneud i gefnogi'r tri sector, yn enwedig o ran darparu datblygiad proffesiynol parhaus i aelodau'r staff.

**Dull Gweithio:**

Mewn ymgynghoriad â chydweithwyr yn y Ganolfan, a chyda help aelodau staff CyMAL, datblygodd Patrick Ryan holiadur, gan ddefnyddio Survey Monkey, i gasglu barn ymarferwyr. Aeth CyMAL ati i ddosbarthu llythyr cyflwyno a dolen i'r arolwg yn electronig i fwy na 200 o aelodau staff llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd mewn swyddi allweddol ym mhob cwr o Gymru. Yn y llythyr cyflwyno, roedd y rhai a wahoddwyd i lenwi'r arolwg yn cael eu hannog i'w anfon ymlaen at unrhyw aelodau o'u staff sy'n uniongyrchol gyfrifol am arferion amser stori yn eu hawdurdodau, neu'n eu harwain. Cynigodd yr arolwg a'r llythyr ddiffiniad eang o arferion amser stori, gan roi enghreifftiau, er mwyn cael darlun mor gynhwysfawr â phosibl o'r arferion hynny, o ystyried y cyfyngiadau ar amser, cyllidebau a phersonél.

Dychwelwyd 118 o arolygon. Hefyd, cyfwelwyd ymarferwyr dethol (aelodau staff llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd, yn ogystal â storïwyr ac awduron proffesiynol sy'n darparu gweithgareddau amser stori yn rheolaidd) mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ledled Cymru yn bersonol neu dros y ffôn. Diben hyn oedd darparu sylwadau, awgrymiadau a beirniadaethau ychwanegol, i roi canlyniadau'r arolwg yn eu cyd-destun a llywio unrhyw argymhellion.

**Canfyddiadau**:

- Aelodau staff llyfrgelloedd oedd mwyafrif yr ymatebwyr; o'r tri sector, llyfrgelloedd yw'r lleoliad ar gyfer y mwyafrif o weithgareddau amser stori
- Fodd bynnag, mae rhai amgueddfeydd yn nodi datblygiadau ac arferion sylweddol mewn gweithgareddau amser stori
- Prin iawn oedd yr archifau a ymatebodd, a dynododd y rhai a wnaeth ymateb na chynhelir fawr ddim gwaith amser stori, os o gwbl
- Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch amser stori mewn llyfrgelloedd wedi'i gynllunio ar gyfer plant pump oed ac iau, ac yn cynnwys amser rhigwm ac adrodd straeon o lyfrau lluniau yn bennaf

- Er eu bod yn lleiafrif, mae nifer arwyddocaol o aelodau staff yn adrodd straeon o'r cof (traddodiadol a llenyddol, yn ogystal â rhai darnau gwreiddiol)
- Nid oes gymaint o weithgarwch amser stori ar gyfer plant ysgol gynradd (CA1 a CA2) ag yr oeddem yn ei ragweld, er y dangoswyd bod ymweliadau â llyfrgelloedd ac amser stori yn gwella sgiliau darllen plant o'r oedrannau hyn; rhan o'r broblem yw bod amserlenni, cwricwla a chyllidebau ysgolion yn rhy gyfyngol i annog neu ganiatáu amser ar gyfer ymweliadau â llyfrgelloedd
- Ceir amrywiaeth eang o weithgareddau amser stori mewn amgueddfeydd, yn debyg i'r rhai a welir mewn llyfrgelloedd
- Mae gweithgareddau amser stori amgueddfeydd yn tueddu i apelio at amrywiaeth ehangach o oedrannau (hynny yw, yn hytrach nag amser stori ar gyfer plant pump oed ac iau yn bennaf, mae amgueddfeydd yn trefnu sesiynau yn bennaf ar gyfer teuluoedd a grwpiau ysgol â phlant hŷn)
- Er na chynhelir fawr ddim gweithgarwch amser stori mewn archifau, os o gwbl, mae cyfleoedd i wasanaethu'r sector hwn trwy adrodd straeon a straeon digidol, yn enwedig o ystyried diddordeb y cyhoedd mewn hanes lleol a llafar ac mewn hel achau
- Prin yw'r gweithgarwch amser stori a ddarperir ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion yn y grŵp oedran 20-50
- Darperir rhywfaint o weithgarwch amser stori i bobl hŷn, ond mae arferion o'r fath yn achlysurol ac wedi'u dosbarthu'n anghyson.
- Mae unrhyw weithgareddau amser stori i'r rhai dros bump oed yn dueddol o ddigwydd mewn sefyllfaoedd fel: grwpiau llyfrau, wythnosau llyfrau, a/neu heriau darllen yn ystod yr haf ac ar achlysuron arbennig fel Diwrnod y Llyfr, Dydd Gŵyl Dewi, Calan Gaeaf neu ddigwyddiad lleol
- Ychydig iawn o ymarfer adrodd straeon digidol a fu a phrin oedd y prosiectau o'r fath mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau; fodd bynnag, ceir diddordeb mewn datblygu gwaith o'r fath mewn cymunedau, yn enwedig o ran cylchoedd gwaith amgueddfeydd ac archifau ar gyfer hanes llafar a phrosiectau hel achau
- Mae'n ymddangos bod yr arferion amser stori mwyaf cyffredin (gweithgareddau ar gyfer y rhai dan bump oed ac ysgolion cynradd) wedi'u gwasgaru'n gyfartal ac yn gyson o safbwynt daearyddol ac ieithyddol.

**Argymhellion:**

- Ceir potensial i ehangu ar arferion presennol a chyflwyno rhai newydd
- Byddai'r datblygiad hwn yn ychwanegu at wasanaethau pob un o'r tri sector (amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd), ac yn cynnig gwell gwasanaethau i'r cyhoedd
- Dyma'r meysydd i'w hehangu:
    - Mwy o weithgareddau amser stori ar gyfer plant ysgol gynradd (6 i 11 oed)
    - Mwy o adrodd straeon digidol, yn enwedig ar gyfer archifau ac amgueddfeydd, ac ar gyfer grwpiau lleol sy'n defnyddio cyfleusterau a chefnogaeth llyfrgelloedd

    - Mwy o weithgareddau amser stori ar gyfer a chan fyfyrwyr ysgol uwchradd (11-18), yn enwedig fel gwirfoddolwyr mewn cynllun cymunedol neu raglen profiad gwaith
    - Galluogi llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau i gefnogi ysgolion lleol i godi safonau, trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i aelodau staff yn y sefydliadau hyn ond yn enwedig trwy annog ysgolion i ymweld a chydgysylltu arferion gyda gweithwyr proffesiynol y tu allan i'r ystafell ddosbarth
    - Dylid ystyried mwy o berfformiadau llafar o straeon (adrodd straeon, darlleniadau gan awduron, a/neu farddoniaeth perfformiad) ac adrodd straeon digidol ar gyfer oedolion a phobl hŷn; gall sefydliadau drefnu digwyddiadau o'r fath eu hunain, neu eu cynnal gan ddarparu lleoliad a chyhoeddusrwydd gydag unigolion a sefydliadau lleol yn gweinyddu'r digwyddiadau
- Dylid datblygu a darparu cyrsiau achrededig ychwanegol i holl aelodau staff rheng flaen amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau ar adrodd straeon i blant pump oed ac iau, ond hefyd ar adrodd straeon i blant oedran ysgol gynradd
- Dylid annog partneriaethau rhwng y sectorau (amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd) ond hefyd rhwng cyrff cyhoeddus a phreifat â buddiannau, athroniaethau a chynulleidfaoedd tebyg, er mwyn i unrhyw gynlluniau i ehangu amser stori fod yn ymarferol ac i gynorthwyo gyda chyllid

**0.2. Cydnabyddiaethau a Diolch**

Cafwyd help gan lawer i baratoi'r adroddiad hwn, yn enwedig cydweithwyr y Ganolfan, Hamish Fyfe, Karen Lewis a Dawn Matthews, ac aelodau staff CyMAL Lesley-Anne Kerr, Velma Hather, a Denise Lavis. Rhaid diolch hefyd i aelodau staff cymorth yn CyMAL ac yn Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Prifysgol Morgannwg am eu gwasanaethau proffesiynol, dibynadwy a chyfeillgar.

Rhoddodd nifer o bobl lawer o'u hamser i gwblhau adroddiadau ac arolygon ychwanegol ac, yn enwedig, i gael eu cyfweld. Hoffwn ddiolch i'r canlynol yn arbennig:

Ceri Black, Amgueddfa Cymru - National Museum Wales
Guto Davis, Storïwr a Cherddor
Paul Doyle, Swyddog Datblygu Darllen, Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot
Michael Harvey, Storïwr
Cath Little, Storïwr a Chantores
Mary Medlicott, Storïwr ac Awdur
Daniel Morden, Storïwr ac Awdur
Liz Weir, Storïwr, Awdur a Llyfrgellydd

Mae pob un o'r rhain wedi bod yn hael iawn â'u hamser ac yn enwedig â'u profiad, eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u doethineb. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

Cyfieithiad o'r gwreiddiol yw pob dyfyniad, oni nodir yn wahanol.

Awdur yr adroddiad hwn sydd ar fai am unrhyw gamgymeriad neu gamddehongliad. Fodd bynnag, rwyf wedi gwneud fy ngorau i gyflwyno'r canfyddiadau mor eglur a chywir â phosibl. Hoffwn ddiolch i'r rhai a ofynnodd i mi gynnal yr astudiaeth hon, ac mae wedi bod yn brosiect hynod ddiddorol ac wedi bod yn haf o waith llawn mwynhad.

Patrick Ryan, PhD FEA, mis Medi 2012

**1.0. Cyflwyniad**

Yn y Gyngres Llyfrgelloedd Genedlaethol ym Mrwsel ym mis Awst 1910, rhoddodd Harry Farr, llyfrgellydd Llyfrgelloedd Cyhoeddus Caerdydd adroddiad ar y gwasanaethau llyfrgelloedd i blant yng Nghaerdydd a Chymru yn benodol, ac yn y DU yn gyffredinol. Dywedodd nad oedd agwedd oddefol gan lyfrgellwyr ac awdurdodau llyfrgelloedd yn bosibl bellach os yw llyfrgelloedd am fod yn ffactor yn natblygiad y wlad. Gan ddadlau o blaid proffesiwn arolygydd ystafell y plant, neu lyfrgellydd plant, a oedd newydd ei greu, dywedodd nad oedd 'modd gorbwysleisio dylanwad llesol arolygydd brwdfrydig, ac mae ei waith yn un o'r mathau pwysicaf o wasanaeth cymdeithasol.'

Disgrifiodd Farr y gwaith adrodd straeon yr oedd ei lyfrgellwyr plant yn ei gyflawni yng Nghaerdydd. Sioeau llusern hud oedd amser stori plant yn ystod y cyfnod hwn, yn archwilio pynciau fel adar, gloynod byw, seryddiaeth a theithio, ac yn esbonio'r straeon a adroddwyd: *Alice in Wonderland, Peter Pan, A Christmas Carol* a straeon tylwyth teg clasurol. Roedd gan Farr barch mawr tuag at effaith yr amseroedd stori llusern hud hyn:

> *Cyflwynir llyfrau i blant na fyddent fyth yn ystyried eu darllen fel arall. Er enghraifft, roedd un o'n hamseroedd stori y gaeaf diwethaf yn ymdrin â "King of the Golden River" gan Ruskin. Roedd cannoedd o blant wedi eu swyno wrth wrando ar y chwedl hyfryd hon…a adroddwyd iddynt gan storïwr dawnus, wedi ei hategu â lluniau ar y sgrin lusern. Mae'n debyg na fyddai fawr o'r plant, os o gwbl, fyth wedi clywed y stori hon pe na byddent wedi'i darganfod fel hyn.*
>
> **Harry Farr, *Library Work with Children***

Mae gan Gymru draddodiad maith o adrodd straeon. Pa un a ydym yn cofio'r llyfrgellydd hwn yn pledio achos amser stori mewn llyfrgelloedd gan mlynedd yn ôl; neu'n ystyried rhethreg gyfoethog gweinidogion capel, trefnwyr undebau a gwleidyddion blaenllaw o'r gorffennol a'r presennol; neu'n cydnabod storïwyr, beirdd perfformio a chantorion pop modern Cymru a welir yn perfformio'n fyw mewn lleoliadau ym mhedwar ban byd ac ar y we; neu'n ystyried y camau breision diweddar ym myd ffilm, teledu a chyfryngau digidol; neu wrth ddychmygu

traddodiadau rhamantaidd hŷn y beirdd yn y neuadd ganoloesol hyd yn oed, mae delweddau o'r fath yn dangos Cymru fel cenedl o straeon a storïwyr.

Gofynnodd CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) i Ganolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans gynnal astudiaeth ar adrodd straeon er mwyn cynnig darlun cyffredinol o weithgareddau amser stori ar hyn o bryd mewn llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd ledled Cymru. Diben astudiaeth o'r fath yw

- Datblygu darlun mor gywir â phosibl o arferion presennol yn y sefydliadau dan sylw
- Dangos sut y mae arferion o'r fath mewn llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yn cyflawni swyddogaeth bwysig ym myd addysg a bywyd cymunedol yng Nghymru
- Cynnig awgrymiadau ar gyfer gwaith, prosiectau a digwyddiadau adrodd straeon yn y dyfodol sy'n adeiladu ar arferion o'r fath
- Manteisio ar yr amrywiaeth eang o ddoniau a dyfnder y profiad ym maes gweithgareddau amser stori sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.
- Penderfynu ar unrhyw ddatblygiad proffesiynol megis hyfforddiant, cyrsiau achrededig neu breswylfeydd a fyddai'n gwella arferion adrodd straeon yn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru
- Dod o hyd i bartneriaethau neu rwydweithiau posibl a fyddai'n cryfhau ac yn ehangu arferion amser stori ledled Cymru, ac yn cynnig cefnogaeth well i ymarferwyr (aelodau staff amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn ogystal â storïwyr, awduron a beirdd perfformio proffesiynol).

Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor i CyMAL yn ei gynlluniau ar gyfer datblygiad, y gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn hefyd o ddefnydd i dimau rheoli llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau, i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ac i unrhyw sefydliadau neu fudiadau eraill, er enghraifft:

- Llenyddiaeth Cymru
- National Theatre Wales a Theatr Genedlaethol Cymru
- Fforwm Adrodd Straeon Cymru
- Gŵyl Straeon Beyond the Border
- StoryWorks
- BBC Wales
- Sefydliadau, cwmnïau, busnesau ac unigolion eraill yng Nghymru sydd â diddordeb yn y celfyddydau llafar trwy unrhyw gyfrwng, neu sy'n eu cefnogi neu'n ymwneud â nhw

Bydd yn addysgiadol hefyd i'r unigolion dawnus a phrofiadol hynny sydd eisoes yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amser stori, sef aelodau staff llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yn ogystal â storïwyr, beirdd, awduron, ymarferwyr

drama, artistiaid digidol, artistiaid gweledol, crefftwyr, cerddorion a phypedwyr proffesiynol.

Rydym hefyd yn credu y bydd o ddiddordeb i awdurdodau a sefydliadau eraill, yn y Deyrnas Unedig ac yn yr Undeb Ewropeaidd ehangach, fel

- CILIP (Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgelloedd a Gwybodaeth),
- YLG (Y Grŵp Llyfrgelloedd Ieuenctid),
- SLA (Y Gymdeithas Llyfrgelloedd Ysgolion),
- NLT (Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol)
- Yr Asiantaeth Ddarllen
- IBBY UK (Bwrdd Rhyngwladol Llyfrau ar gyfer Pobl Ifanc, y DU)
- NAWE (Cymdeithas Genedlaethol Awduron mewn Addysg)
- SfS (Y Gymdeithas Adrodd Straeon)
- Scottish Storytelling Centre
- Storytellers of Ireland
- ACE (Cyngor Celfyddydau Lloegr),
- FEST (Ffederasiwn Adroddwyr Straeon Ewropeaidd)
- a llyfrgelloedd ac amgueddfeydd awdurdodau lleol ledled y DU ac Iwerddon

Mae'n bosibl hefyd y bydd yr astudiaeth hon o ddiddordeb i academyddion sy'n trafod agweddau amrywiol ar adrodd straeon mewn cyfnodolion proffesiynol a rhai a adolygir gan gymheiriaid; byddai'n ddefnyddiol felly sicrhau bod yr adroddiad ar gael iddynt. Byddai'r Ganolfan yn hapus i helpu CyMAL i ddosbarthu'r adroddiad mewn unrhyw ffordd.

**1.1. Diffiniadau:**

Mae pawb yn deall termau fel 'adrodd straeon', 'storïwr', 'amser stori' ac 'adrodd stori'. Er hynny, mae profiad yn dangos bod cynifer o wahanol ystyron i ymadroddion o'r fath ag o unigolion sy'n defnyddio neu'n ymateb i'r termau hyn. Mae storïwyr proffesiynol yn awyddus i fynegi bod adrodd straeon yn ffurf ar gelfyddyd i oedolion, ac nid yn adloniant i blant yn unig. Maent hefyd yn hybu delwedd o berfformiadau naratif sy'n cynnwys straeon a adroddir o'r cof neu yn fyrfyfyr yn bennaf, a rhywbeth sy'n wahanol, o ran ansawdd, i'r weithred o ddarllen ar lafar. Rhoddir pwyslais ar berfformiadau hynod fedrus mewn lleoliadau lled-theatraidd.

*Mae ein pwyslais drwyddi draw ar adrodd straeon fel celfyddyd lafar. Rydym o'r farn na ddylid colli'r gweithgaredd adrodd straeon fel profiad gwrando/iaith. Mae ein cymdeithas yn canolbwyntio ar y llygaid ac wedi anghofio pŵer y gair llafar. Rhoddir y pwyslais ar y gweledol, gan gyfyngu iaith ysgrifenedig i iaith feunyddiol, ond mae pob math o iaith yn bosibl wrth adrodd straeon.*

**Ellin Greene, Storytelling: Art & Technique**

Fodd bynnag, ceir arfer sylweddol a'r un mor ddilys lle mae awduron, beirdd a digrifwyr yn perfformio ar lafar, weithiau'n fyrfyfyr ond yn fwy aml yn darllen ar lafar. Mae arferion o'r fath yn boblogaidd a gallant fod yn eithaf emosiynol. Ac mae'r cyhoedd, yn ogystal â llawer o aelodau staff amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, yn parhau i ystyried adrodd straeon yn weithgaredd pwysig i blant, ac mae'n debyg y bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Maent hefyd o'r farn ei bod yn amherthnasol a yw hanesion a rhigymau'n cael eu darllen ar lafar neu'n cael eu cyfleu o'r cof, cyn belled ag y bo'r mynegiad yn llafar, yn rhyngweithiol ac, yn bwysicaf oll, yn cael ei fwynhau.

*Mae darllen ar lafar yn gelfyddyd, ac fel adrodd straeon, mae'n gofyn am ddethol a pharatoi gofalus.*
**Ellin Greene, Storytelling: Art & Technique**

Mae pobl sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yn sicr yn cydnabod ac yn parchu'r holl wahanol arferion hyn. Pan fyddant yn hyderus ac yn gallu gwneud hynny, maent yn darparu pob un o'r mathau hyn o weithgareddau adrodd straeon, a, phan yn bosibl, maent yn trefnu i storïwyr proffesiynol ac artistiaid llafar eraill gyflwyno perfformiadau llafar. Mae rhai llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau hefyd yn darparu lleoliad i grwpiau diddordeb arbennig, gan adael i'r sefydliadau neu artistiaid annibynnol hynny ddarparu amrywiaeth o arferion adrodd straeon.

*…mae iaith yn fath o wybyddiaeth; caiff ei becynnu at ddiben cyfathrebu rhyngbersonol. Mae pobl eisiau rhannu profiad gyda'i gilydd ac felly, dros amser, maent wedi creu confensiynau symbolaidd ar gyfer gwneud hynny ….*
**Michael Tomasello, *The Cultural Origins of Human Cognition***

Gan y gellir dod o hyd i'r holl arferion a nodir yma yng Nghymru, a chan fod CyMAL wedi comisiynu'r adroddiad hwn i ddarganfod yr amrywiaeth o arferion amser stori mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ledled Cymru gyfan, bydd yr adroddiad yn ystyried adrodd straeon fel term cyffredinol, sy'n cwmpasu'r holl weithgareddau a ddefnyddir yn ystod amser stori mewn sefydliadau o'r fath. Er mwyn bod yn eglur, dibynnir ar y term 'gweithgareddau amser stori' a bydd yr adroddiad yn gwahaniaethu rhwng adrodd straeon ar lafar, darllen ar lafar ac amrywiadau eraill yn ôl yr angen.

Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod mai'r hyn yr oedd yr ymatebwyr yn ei olygu'n aml, wrth drafod gweithgareddau adrodd straeon i blant, a rhai digwyddiadau i oedolion mewn llyfrgelloedd

*Pan fydd storïwr a phlentyn yn cyfarfod, cyfoethogir bywydau'r ddau trwy rannu stori. Trwy chwerthin gyda'i gilydd, rhannu cyffro neu dristwch, cael profiad o ryfeddod ac emosiwn, datblygir cyd-deimlad o gynhesrwydd a brawdoliaeth, profiad sydd werth yr holl amser ac egni y gallai ei gostio.*
**Eileen Colwell, *Storytelling***

ac amgueddfeydd hyd yn oed, yw adrodd heb nodiadau, a darllen ar lafar. Mae adrodd straeon ar lafar a darllen hanesion a barddoniaeth ar lafar yn sgiliau yr un mor bwysig â'i gilydd, ac yn brofiadau hanfodol i blant ddatblygu llythrennedd, cariad at lenyddiaeth ac arferion darllen da. Mae cynulleidfaoedd o oedolion yn cael cymaint o bleser o wrando ar awduron a beirdd yn darllen ar lafar ag y maent o wrando ar storïwyr, artistiaid rap, beirdd perfformio a digrifwyr yn perfformio'n fyrfyfyr neu o'r cof.

Mae'r gweithgareddau eraill a ystyrir yma, ac y gellir dod o hyd iddynt yn gyffredin mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau ledled y byd yn cynnwys grwpiau darllen, sgyrsiau am lyfrau a heriau darllen yn ystod yr haf; ystyrir gwaith celf a chrefft hefyd, yn ogystal â gemau a chwisiau bwrdd. Mae pob un ohonynt yn cael eu hysbrydoli gan destunau llafar neu wedi'u hargraffu, neu'n berthnasol i'r rhain, pan gânt eu harfer mewn llyfrgelloedd. Ceir gwersi ysgrifennu creadigol, cynlluniau hanes llafar a phrosiectau digidol ac electronig mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau hefyd, ac mae pob un fel arfer yn cynnwys ffurfiau ar adrodd straeon ar lafar neu ddarllen ar lafar.

Mae amrywiaeth o weithgareddau o'r fath yn ategu pob ffurf, ac mae amrywiaeth o arferion a ddarperir yn rheolaidd yn cryfhau'r gwasanaethau y mae unrhyw lyfrgell, amgueddfa neu archif yn eu cynnig i'r cyhoedd. Trwy ystyried amrywiaeth eang o brofiadau iaith lafar fedrus a chyfoethog, bydd unrhyw sefydliad sy'n cael ei guradu neu sefydliad llyfryddiaethol yn cael ei rymuso i gynllunio a datblygu gwasanaethau effeithiol a phoblogaidd. Ein gobaith yw y bydd y wybodaeth a gesglir yma yn cyfoethogi rhaglenni amser stori ar gyfer unrhyw oedran dan reolaeth sefydliadau o'r fath.

**1.2. Sut y Casglwyd Gwybodaeth**

Gan ddefnyddio'r gwasanaeth meddalwedd 'Survey Monkey', datblygodd y Ganolfan holiadur â'r nod o ddarganfod yr amrywiaeth o weithgareddau amser stori sy'n digwydd ledled Cymru mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, yn ogystal â mesur y gweithgareddau hynny mewn modd ystyrlon. Dosbarthodd CyMAL yr holiadur yn electronig, gan anfon e-bost

*O safbwynt esblygiad, rydym yn siarad gan mai ni oedd yr unig brimatiaid a enillodd statws cymdeithasol ac, o ganlyniad, ffitrwydd trwy siarad.... O safbwynt seicolegol, rydym yn siarad gan fod rhaid i ni gael ein clywed.*

**Marshall Poe *A History of Communications***

at dros 200 o randdeiliaid mewn sefydliadau ledled y wlad. Roedd y llythyr cyflwyno yn yr e-bost hwn (a anfonwyd at uwch reolwyr, prif guraduron, llyfrgellwyr plant a swyddogion addysg yn bennaf) yn annog y rhai a dderbyniodd yr e-bost cychwynnol â'r ddolen i'r arolwg, i'w anfon ymlaen at unrhyw aelodau staff eraill sy'n gyfrifol am weithgareddau amser stori neu'n gwybod mwy amdanynt.

Nod yr holiadur oedd casglu'r wybodaeth ganlynol:

- Y math o sefydliad yr oedd yr unigolyn yn gweithio iddo yn ogystal â natur y gymuned yng Nghymru y mae'r sefydliad hwnnw'n ei wasanaethu.
- Pa mor aml y cynhelir gweithgareddau amser stori yn sefydliad yr unigolyn hwnnw.
- Yr amrywiaeth o weithgareddau a gynhelir yn yr amseroedd stori hynny.
- Yr iaith a ddefnyddir fel cyfrwng ar gyfer eu gweithgareddau amser stori.
- Pwy oedd yn darparu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau amser stori.
- Y mathau o gynulleidfaoedd y mae'r amseroedd stori yn eu gwasanaethu, a syniad o faint sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath.
- Rhesymau dros gynnal amseroedd stori.

Roedd yr ymateb i'r holiadur yn ardderchog, a dychwelwyd 118 o arolygon. Gellir gweld rhestr y cwestiynau a'r ymatebion yn yr atodiad, ynghyd â sylwadau a restrir yno ac fel ymylnodau.

Hefyd, cynhaliwyd cyfweliadau wedi eu targedu gydag unigolion allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys sampl o storïwyr proffesiynol – rhai yn byw yng Nghymru ac eraill o'r tu allan i'r wlad sy'n gweithio yno'n rheolaidd – a gweithwyr llyfrgell, amgueddfa ac archif proffesiynol a argymhellwyd i ni oherwydd eu profiad a'u gwaith yn y gorffennol o reoli prosiectau a oedd yn fodelau o arfer da. Roedd eu sylwadau o gymorth mawr wrth ddatblygu'r adroddiad hwn.

## 2.0. Gwybodaeth a Ganfuwyd o Arolygon a Chyfweliadau

Cynigodd yr ymatebion bortread da o'r hyn sy'n digwydd yn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau Cymru, a pha sylwadau sydd gan aelodau staff ynglŷn â darparu amseroedd stori. Trafodir y canlyniadau hyn yn Adran 2. Daeth rhai o'r ymatebion o'r adran lle y gofynnwyd i bobl ychwanegu eu sylwadau eu hunain. Darparodd rhai wybodaeth fanwl iawn yn awgrymu lle y gallai'r tri sector hwn wella neu ehangu gwasanaethau amser stori. Defnyddiwyd yr ymatebion hyn, ynghyd â chyfweliadau wedi eu targedu gyda storïwyr ac awduron proffesiynol, a rhai aelodau o staff llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, er mwyn paratoi'r argymhellion ar gyfer y dyfodol a amlinellir yn Adran 3.

### 2.1. Dosbarthiad Ymatebion

Fe'n sicrhawyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu Cymru gyfan, yn sgil yr ymatebion yn dynodi'r mathau o sefydliadau y mae'r ymatebwyr yn gweithio ynddynt, yn ogystal â'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. (*Cyfeiriwch at Atodiad I am sampl o'r holiadur a dadansoddiad o'r ymatebion hyn*). Llyfrgellwyr oedd nifer fwyaf y rhai a atebodd yr holiadur o bell ffordd (75.4%). Fodd bynnag, ymatebodd nifer sylweddol o weithwyr amgueddfa (17.8%) ac archifwyr (6.8%) i'r arolwg. Cyflwynwyd disgrifiadau manwl o weithgareddau amser stori gan ychydig o'r rhai a ymatebodd o'r ddau sector olaf. Mae hyn yn dynodi bod rhai amgueddfeydd mewn ardaloedd penodol yn cynnig gweithgareddau adrodd straeon i raddau helaeth iawn ym mhob un o'i ffurfiau. O'r tri sector, ceir mwy o adroddiadau am arferion mewn llyfrgelloedd a chan nifer fwy o aelodau staff llyfrgelloedd. Mae hyn i'w ddisgwyl yn rhesymegol, gan fod mwy o lyfrgelloedd ac aelodau staff llyfrgelloedd yn gweithio yng Nghymru nag o amgueddfeydd ac archifau a'u haelodau staff nhw. Disgwylir gweld y rhan fwyaf o ddigwyddiadau amser stori mewn llyfrgelloedd. Nid yw'n syndod bod y rhifau'n cadarnhau hyn, ond maent hefyd yn awgrymu ein bod wedi cyrraedd y rhai a allai ein helpu fwyaf i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen am weithgareddau amser stori. Mae ymatebion gan aelodau staff allweddol yn y ddau sector arall, a chyfweliadau a

> *Mae amser stori yn boblogaidd iawn yma gyda phlant ac oedolion, a byddem wrth ein boddau'n eu cynnal yn fwy rheolaidd pe bai'r gyllideb yn caniatáu hynny.*
> **Staff Llyfrgell**

> *Ystyrir bod amser stori yn achlysur cymdeithasol gwerthfawr i rieni a phlant bach yn yr ardal. Mae mamau o gymunedau ethnig yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a chynorthwyo eu plant i ddysgu.*
> **Staff Llyfrgell**

gynhaliwyd wedyn, yn cynnig gwybodaeth sylweddol ar gyfer y mathau eraill o sefydliadau.

Mae'r dadansoddiad o'r ardaloedd y mae sefydliadau'r ymatebwyr yn eu gwasanaethu yn cefnogi ein dymuniad i adlewyrchu arferion ledled Cymru hefyd. Mae dros ddau o bob tri o'r rhai a atebodd yn dweud bod eu sefydliadau yn gwasanaethu ardaloedd trefol, ac mae 55.6% wedi eu lleoli mewn maestrefi neu drefi marchnad tra bod 12.8% yn gwasanaethu ardaloedd metropolitan mawr. Mae ychydig dros un o bob tri (34.2%) mewn lleoliadau gwledig. Fodd bynnag, er bod y mwyafrif (65.8%) yn gwasanaethu ardaloedd lle y siaradir Saesneg yn bennaf, dim ond 5% sy'n gwasanaethu ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn bennaf. O ystyried y ffaith bod y canlyniadau yn yr adroddiad yn dynodi bod 17.9% o'r ymatebwyr yn gwasanaethu ardal â chymysgedd gyfartal o siaradwyr Cymraeg a Saesneg, a chymharu hyn â chanlyniadau cyfrifiad 2001 sy'n dynodi bod 20.8% o'r boblogaeth yn honni eu bod yn siarad Cymraeg, yna rydym yn teimlo'n weddol sicr bod ein hymatebwyr yn cynrychioli'r rhan fwyaf o sefydliadau sy'n cael eu curadu a sefydliadau llyfryddiaethol sy'n gwasanaethu'r rhan fwyaf o ranbarthau Cymru.

*Er y cynhelir ein hamseroedd stori trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, defnyddir rhigymau a chaneuon Cymraeg traddodiadol yn ystod amser rhigwm.*

**Staff Llyfrgell**

*Mae problem hyfforddi ar y gorwel. Prin yw'r storïwyr ac awduron Cymraeg eu hiaith iau sydd â'r gallu a'r profiad i hyfforddi eraill i adrodd straeon trwy gyfrwng y Gymraeg, o ffynonellau Cymraeg. Mae'r genhedlaeth o storïwyr sy'n gwneud hynny nawr yn heneiddio. Mae angen i CyMAL neu rywun feddwl am sut i ddatblygu arweinwyr gweithdai neu arweinwyr cyrsiau'r dyfodol fel y darperir hyfforddiant o ansawdd da ym maes adrodd straeon trwy gyfrwng y Gymraeg i'w haelodau staff.*

**Michael Harvey, Storïwr**

Yr hyn a oedd yn galonogol oedd darganfod faint o weithgareddau amser stori sy'n cael eu cynnal. Dywedodd tri chwarter yr ymatebwyr y cynhelir gweithgareddau amser stori yn aml neu'n rheolaidd. Dywedodd 51.3% bod gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal bob wythnos o leiaf os nad bob dydd yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn, a dywedodd bron i 24% y ceir amseroedd stori rheolaidd ar adegau penodol o'r flwyddyn, megis hanner tymor a gwyliau'r haf. Dywedodd tua 15% mai yn anaml y cynhelir amser stori, er enghraifft ar achlysuron arbennig ar y calendr fel Dydd Gŵyl

*Mae amseroedd stori yn cynnig cyfle i gynyddu cariad plant at lyfrau a darllen ac i wneud llyfrgell yn lle sy'n gyfeillgar a chroesawgar. Mae'n helpu rhieni a gofalwyr i ffurfio cysylltiadau cefnogol ac yn cyflwyno llyfrgellwyr a chynorthwywyr fel oedolion y gellir ymddiried ynddynt.*

**Staff Llyfrgell**

Dewi, Calan Gaeaf a Diwrnod y Llyfr. Dywedodd llai na 10% nad oeddent erioed wedi cael amser stori.

**2.2. Cynnwys Nodweddiadol Amseroedd Stori mewn Sefydliadau yng Nghymru**

Y cwestiwn yw beth sy’n digwydd yn ystod yr amseroedd stori hynny, a phwy y mae’r gweithgareddau hyn yn ei wasanaethu’n bennaf. Byddai data o’r fath yn ein galluogi i argymell agweddau ar amseroedd stori y gellir eu hehangu neu eu haddasu er mwyn targedu grwpiau penodol a’u gwasanaethu’n well. Byddai hyn yn cynnig gwybodaeth i CyMAL ac uwch reolwyr mewn amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ar gyfer gwella neu ehangu gwasanaethau i’r cyhoedd, a syniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol aelodau staff. Byddai’r wybodaeth honno’n cael ei hategu gan gyngor ymarferol a awgrymir gyda’r adroddiad hwn yn Adran 3 a’r Atodiad.

Roedd cwestiwn yr arolwg yn cynnig deg categori o weithgareddau amser stori, gan ofyn i ymatebwyr ddynodi pa rai maent yn eu cynnal, a pha mor aml. Dyma’r gweithgareddau a ddisgrifiwyd:

- Straeon llafar a adroddir o’r cof
- Hwiangerddi, gemau bysedd a gemau canu / symud
- Clybiau llyfrau neu grwpiau darllen
- Gemau neu heriau darllen yn ystod yr haf
- Adrodd straeon llenyddol o’r cof neu eu darllen ar lafar
- Adrodd hanesion, chwedlau, hanes llafar, cofiant o’r cof neu eu darllen ar lafar
- Cwisiau bwrdd a chwisiau gwybodaeth gyffredinol
- Darllen llyfrau lluniau ar lafar gan rannu’r darluniau
- Straeon digidol, fideos/ffilmiau a gemau cyfrifiadur â naratifau (y mae’r rhai sy’n cymryd rhan yn eu mwynhau neu’n eu creu)
- Gweithgareddau celf a chrefft sy’n ymwneud â llyfr neu naratif llafar

**2.3. Adrodd Straeon o Lyfrau Lluniau**

Y gweithgaredd sy’n cael ei gynnal amlaf o bell ffordd, ac sydd â’r nifer fwyaf o ymarferwyr o bell ffordd, yw rhannu a darllen llyfrau lluniau ar lafar. Ymatebodd bron i 80% eu bod yn gwneud hynny gan fwyaf neu’n rheolaidd. Hwiangerddi a gemau canu a symud oedd yr ail

*Fel rhiant, rwy’n hiraethu am sesiynau adrodd straeon da ar gyfer blant dan bump oed. Mae’r rhain yn druenus yn fy ardal i bellach. Nid oes llyfrgellwyr cymwysedig ar gael bellach oherwydd toriadau. Mae’n amlwg nad oes gan aelodau staff ddim hyfforddiant, dim brwdfrydedd at waith amser stori, amser rhigwm, beth bynnag y maen nhw i fod i’w wneud. Mae angen i lyfrgelloedd recriwtio aelodau staff sydd wir yn mwynhau gweithio gyda phlant, er mwyn rhoi’r profiad hwn i blant, beth bynnag yw e. Mae’r ddarpariaeth yn anghyson—mae rhai ardaloedd yn dda, rhai yn wael.*

***Rhiant***

weithgaredd mwyaf cyffredin, ac roedd bron i 75% o'r rhai a gyfrannodd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd hwn yn rheolaidd neu gan fwyaf. Ni ddylai hyn fod yn syndod o gwbl, gan fod darlleniadau o lyfrau lluniau, ynghyd â rhigymau a chaneuon actol wedi bod yn un o brif nodweddion amseroedd stori mewn llyfrgelloedd ers pedwar degawd o leiaf, gan wasanaethu plant cyn ysgol a phlant ysgol babanod.

Yr hyn sy'n gadarnhaol am y ffigurau hyn yw bod y gweithgareddau penodol hyn yn dal i fod yn gyffredin yng Nghymru. Mae arferion adrodd straeon megis darllen llyfrau lluniau ar lafar ac amseroedd rhigwm yn bwysig i blant ifanc. Mae profiadau o'r fath yn arbennig o bwysig ar gyfer datblygu eu llythrennedd, eu cariad at lenyddiaeth a'u gwybodaeth am straeon a gramadegau storïol, ynghyd â'u gallu i ganolbwyntio ac agweddau eraill ar swyddogaethau gweithredol. Mae gweithgareddau amser stori penodol sy'n cynnwys llyfrau ac iaith lafar wedi ei chyfoethogi yn cyfrannu at y broses o ffurfio sgiliau cymdeithasol plant ifanc ac yn cyfoethogi eu chwarae creadigol a'u bywyd diwylliannol.

Mae'r gweithgareddau amser stori arbenigol sydd wedi eu cynllunio ar gyfer plant ifanc yn gwasanaethu'r llyfrgell hefyd. Trwy fynychu'n rheolaidd mae plant yn datblygu arfer o ymweld â'r lleoliad ac edrych ar lyfrau a'u darllen, a benthyca llyfrau ac eitemau eraill. Caiff rhieni a brodyr a chwiorydd hŷn, ynghyd â'r plant iau, eu hannog i ymuno â'r llyfrgell neu barhau fel aelodau. Felly mae'r gwasanaeth yn gwneud cyfraniad pwysig at helpu llyfrgelloedd i fodloni eu cylch gwaith o ran gwasanaethu'r gymuned. Mae gan amseroedd stori arbenigol rheolaidd mewn sefydliadau eraill botensial tebyg i ddatblygu ymwelwyr, gan annog pobl i ddefnyddio amgueddfeydd neu archifau trwy gydol eu hoes.

**2.4. Mathau Eraill o Weithgareddau Amser Stori**

Nid yw'r ffigurau is ar gyfer y gweithgareddau amser stori eraill yn golygu o anghenraid bod gweithgareddau o'r fath yn gwbl absennol neu'n llai pwysig mewn llyfrgelloedd, archifau neu amgueddfeydd. Mae nifer dda o'r gweithgareddau llai cyffredin hyn yn bresennol i lefel sylweddol mewn llawer o ardaloedd, hyd yn oed os nad ydynt mor gyffredin â digwyddiadau llyfrau lluniau ac

*Rydym yn darparu sesiynau amser rhigwm yn bennaf trwy gydol y flwyddyn, ac mae gennym raglen o weithgareddau sy'n cynnwys crefftau ac amser stori hefyd i gyd-fynd â Her Ddarllen yr Haf yn ystod y gwyliau. Mae rhai canghennau wedi sefydlu grwpiau darllen ar gyfer plant a/neu oedolion. Rydym yn darparu amseroedd stori i asiantaethau allanol fel cylchoedd chwarae, ysgolion ac ati.*

**Staff Llyfrgell**

amser rhigwm. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnig tystiolaeth bod rhai llyfrgelloedd (a sefydliadau eraill) yn cynnal amrywiaeth dda o ddigwyddiadau, a bod posibiliadau ar gyfer ehangu gwasanaethau.

Er enghraifft, dyma weithgareddau cyffredin sydd ar gael yn achlysurol:

- Gemau Darllen yr Haf (mae 61% yn cynnal y rhain yn rheolaidd neu'n eu cynnal fel eu prif weithgaredd amser stori).
- Gweithgareddau celf a chrefft yn seiliedig ar lyfr neu naratif llafar (mae 35% yn darparu profiadau o'r fath weithiau, 55% yn rheolaidd neu gan fwyaf)
- Darllen straeon llenyddol ar lafar neu eu hadrodd o'r cof (mae 45% yn gwneud hyn yn rheolaidd neu'n aml) a Chlybiau Llyfrau a Grwpiau Darllen (y mae 40% yn eu cynnal yn rheolaidd neu'n aml).

Dyma'r arferion tebygol ar gyfer y grŵp oedran ysgol gynradd (plant chwech i un ar ddeg oed). Mae astudiaethau'n dangos bod sgoriau darllen plant yn gostwng, ac nad ydynt yn datblygu'r arfer o ddarllen ar gyfer mwynhad, o tua wyth oed. Dyma pryd y byddwn yn gweld newid, o ddysgu darllen i ddarllen i ddysgu. Mae heriau darllen, clybiau llyfrau a pherfformiadau llafar yn strategaethau cydnabyddedig ar gyfer cefnogi'r grŵp hwn i wneud y newid. Ceir elfen lafar i'r digwyddiadau hyn; efallai nad oes unrhyw adrodd straeon ffurfiol, ond bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn ynganu hanesion trwy grynhoi neu drwy ail-ddychmygu neu gyfeirio at straeon a ddarllenwyd neu a glywyd yn eu trafodaethau.

*Rydym bob amser yn cynnal gweithgaredd crefft yn ystod amser stori sy'n ymwneud â'r stori sy'n cael ei hadrodd. Rydym ni wedi cael llawer o ymateb cadarnhaol gan rieni, ac rydym yn argyhoeddedig bod y sesiynau cyn-ysgol yn rhan hanfodol o'n darpariaeth. Maen nhw'n annog teuluoedd â phlant ifanc i ddod i lyfrgelloedd - pan na fyddai'r rhieni yn ymweld o'u rhan eu hunain.*

**Llyfrgellydd**

Gellir priodoli'r ffaith nad yw arferion amser stori eraill mor gyffredin â'r gweithgareddau llyfrau lluniau ac amser rhigwm i ffactorau amrywiol:

- Diffyg amser oherwydd niferoedd staff neu amserlennu
- Diffyg adnoddau oherwydd cyllideb neu ddull o ddyrannu cyllid
- Diffyg hyder a/neu hyfforddiant ymhlith aelodau staff

Fodd bynnag, codwyd posibilrwydd arall. Roedd rhai aelodau staff, ynghyd â storïwyr ac awduron a gyfwelwyd, o'r farn bod llai o ryngweithio rhwng ysgolion a llyfrgelloedd ac amgueddfeydd nag y bu. Rhoddwyd sawl rheswm pam y mae ysgolion yn ymweld yn llai aml â sefydliadau lleol, e.e. gofynion y cwricwlwm modern, diffyg cyllid ar gyfer ymweliadau, gofynion iechyd a diogelwch yn ymwneud â nifer yr oedolion sydd eu hangen i ddod gyda grŵp o blant ar daith, a'r ffaith mai prin yw'r rhieni sydd ar gael i wirfoddoli ar gyfer hyn. Dywedodd llawer o aelodau staff llyfrgelloedd ei bod yn fwy a mwy anodd iddynt gael i mewn i ysgolion i gynnal sgyrsiau ar lyfrau, i adrodd straeon neu i hyrwyddo gweithgareddau'r llyfrgell megis her ddarllen yr haf; mae gweinyddwyr ysgolion yn eu hysbysu bod yr amserlen yn rhy llawn i gynnig lle iddynt.

*Rwyf wedi gweithio'n agos gyda Llyfrgelloedd Sir Penfro, sy'n cefnogi wythnosau llyfrau mewn ysgolion, ers blynyddoedd lawer. Mae llyfrgellwyr yn ymweld ac yn annog canlyniadau. Mae'n trefnu pobl, yn cefnogi'r holl bethau hynny ac yn creu cysylltiadau rhwng llyfrgelloedd ac ysgolion a'r hyn sy'n digwydd yn ystod yr wythnos lyfrau. Ond mae'r llyfrgelloedd mewn rhai ysgolion wedi eu cau fwy neu lai. Cafodd llyfrgelloedd eu troi'n ystafelloedd cyfrifiadur gan rai ysgolion, ac nid ydynt yn hwyluso darllen neu adrodd straeon. Mae'r cysylltiad â llyfrau wedi diflannu. Mae awyrgylch yr wythnos lyfrau wedi diflannu. Roedd yr wythnos lyfrau yn gysylltiedig â phob math o brosiectau adrodd straeon eraill, gan fod adrodd straeon wedi dod yn arfer. Beth fydd effaith cau llyfrgelloedd a llyfrgelloedd ysgol? Beth fydd yn digwydd i'r arfer o ddarllen ac adrodd o ganlyniad?*

**Mary Medlicott, Storïwr ac Awdur**

*Ceir her fawr yma. Ceir cysylltiad gwan rhwng yr hyn sy'n digwydd rhwng llyfrgelloedd ac athrawon. Os ydych chi eisiau cynyddu effaith addysgol y llyfrgell, mae angen i'r sawl sy'n darparu'r stori a'r sawl sy'n hwyluso'r gweithgareddau a'r ysgrifennu sylfaenol ac ati fod yr un person. Mae plant yn gofyn am stori drosodd a throsodd. Os nad ydych chi'n gyfarwydd â'r stori honno, i'r graddau eich bod yn ei hadrodd, ni allwch wneud y cysylltiad hwnnw a all ddigwydd rhwng adrodd straeon a dysgu.*

**Michael Harvey, Storïwr**

*Mae bechgyn ac athrawon yn dweud eu bod yn mwynhau prosiect 'Twelve Boys Tell', maen nhw'n falch ac yn hapus gyda'u gwaith. Rwy'n ymweld ag ysgolion ac mae'r bechgyn yn ymweld â'r llyfrgell, ac mae'r bechgyn a wnaeth y prosiect yn dod i ddweud helo yn rheolaidd, i siarad â mi, i siarad am y prosiect. Sy'n arwydd da, mae'n dangos perthynas dda rhwng llyfrgellwyr a myfyrwyr.*

**Paul Doyle, Llyfrgellydd a Swyddog Prosiect Datblygu Darllenwyr a Llythrennedd**

Mae hyn yn anffodus, gan fod gwaith ymchwil, a drafodir yn fwy manwl yn Adran 3, yn dynodi y gall gweithgareddau adrodd straeon ac amser stori a gwaith aelodau staff llyfrgell da gynnig cefnogaeth aruthrol i helpu plant i ddod yn llythrennog. Mae hwn yn sicr yn faes y gall CyMAL ac asiantaethau cysylltiedig fynd i'r afael ag ef. Gellid dod o hyd i ffordd o greu partneriaethau cryfach rhwng ysgolion, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Nid ydym yn dweud nad oes partneriaethau o'r fath yn bodoli; maent yn bodoli mewn rhai rhannau o Gymru. Ond nid oes cysondeb ar draws rhanbarthau nac o fewn awdurdodau unigol. Gallai hyfforddiant mewn swydd a chyn iddynt ddechrau ar y swydd, o bosibl, wneud athrawon yn fwy ymwybodol o

botensial gweithwyr proffesiynol eraill ag arbenigedd mewn llenyddiaeth plant ac adrodd straeon i'w helpu i gyflwyno eu cynlluniau llythrennedd a'u hannog mewn partneriaethau o'r fath.

Gallai rhai gael eu digalonni gan y ffaith bod llai nag 8% o'r ymatebwyr yn adrodd straeon traddodiadol o'r cof, neu gallai ymddangos yn brawf mai prin yw'r diddordeb mewn adrodd straeon ar lafar. Ond os ystyriwn fod bron i 54% yn adrodd straeon traddodiadol ar lafar o'r cof *weithiau*, yna mae hyn yn awgrymu bod sail ar gyfer ehangu gwasanaethau a chynyddu gweithgareddau a fydd yn apelio at fwy o bobl ac yn datblygu mwy o ddefnydd o gyfleusterau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau. Gydag ychydig o hyfforddiant a chynllunio creadigol o ran lleoliad ac amserlenni aelodau staff, gallai gweithgareddau sydd wedi'u targedu ar gyfer plant chwech i un ar ddeg oed ar hyn o bryd gynnwys mwy o adrodd straeon ar lafar ymhlith aelodau staff. Rydym yn credu y gellid cyflawni hyn yn ymarferol ag ychydig iawn o gostau, o edrych ar brofiadau cynlluniau mewn gwledydd eraill ac yn y gorffennol.

*Er nad ydym yn cynnig gwasanaeth adrodd straeon yn ymarferol, byddwn wrth fy modd yn gallu sefydlu gweithdy neu wahodd storïwr i'r coleg lleol i ddod â'r pleser i'r dysgwyr yr oeddwn i'n ddigon lwcus i'w dderbyn ar gwrs adrodd straeon CyMAL/CILIP.*
**Staff Llyfrgell**

*Tybed a oes ffordd o wneud rhyw fath o fentora? Rwyf wedi sylwi bod pobl wir yn mynd i'r afael ag adrodd straeon pan fyddant yn gweld rhywun profiadol yn ei fodelu. Mae'n nhw'n deall wedyn ei fod yn ymwneud â rhyngweithio – nid derbyn sgript a dysgu sgript, ond y rhyngweithio.*
**Michael Harvey, Storïwr**

*Rwy'n credu y byddai o fudd i bawb pe bai mwy o gyfleoedd hyfforddi i aelodau staff ar adrodd straeon a mwy o gefnogaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n newydd i waith llyfrgell gyhoeddus.*
**Staff Llyfrgell**

Dywedodd tua 90 i 95% o'r ymatebwyr eu bod yn adrodd hanesion a chwedlau ar lafar, neu'n cynnal cwisiau ac yn adrodd straeon digidol weithiau, neu ddim o gwbl. Mae aelodau staff amgueddfeydd ac archifau yn cynnal digwyddiadau amser stori yn llai aml na llyfrgellwyr. Pan fydd aelodau staff amgueddfeydd ac archifau yn cynnal digwyddiadau o'r fath, maent yn fwy tebygol o adrodd neu ddarllen straeon

*Mae'n sicr bod potensial i hyfforddi aelodau staff amgueddfeydd i adrodd straeon. Gallai diwylliant rhai amgueddfeydd fod yn her. Ond ceir aelodau staff sy'n naturiol ar ei gyfer bob amser. Er enghraifft, flynyddoedd yn ôl pan ddechreuais weithio yn yr amgueddfa ym Mharc Cathays, roedd unigolion a oedd yn fedrus ac yn gwylio pobl am ychydig, gan ddarganfod yr hyn roedd ganddyn nhw ddiddordeb ynddo. Yna, byddent yn mynd atynt ac yn dechrau rhyngweithio, tynnu sylw at ambell i beth, ac yna byddai'r ymwelwyr yn cerdded ymlaen at y peth nesaf ac yn dechrau sgwrsio ag aelodau staff am hwnnw'n naturiol, a byddai hynny'n naturiol storïol. Byddai mân-hanesion yn cael eu rhannu. Ac roedd yn wych. Roedden nhw'n ei wneud am eu bod yn frwd dros eu gwaith ac ati.*
**Michael Harvey, Storïwr**

gwerin neu straeon arswyd ar lafar yn hytrach na chwarae gemau, adrodd hanesion a chwedlau neu greu straeon digidol. Ac eto mae gan gwisiau, straeon digidol, a pherfformiadau o hanesion a chwedlau botensial mawr mewn amgueddfeydd ac archifau. Gallant ddefnyddio'r wybodaeth a arddangosir a chyfeirio sylw ymwelwyr yn ôl fel eu bod yn archwilio'r cynnwys sy'n cael ei arddangos â mwy o ddealltwriaeth.

Mae'r rhain yn weithgareddau a allai amlygu casgliadau, gan alluogi'r rhai sy'n cymryd rhan i gael profiad llawnach o'r gwasanaethau y mae amgueddfeydd ac archifau yn eu cynnig, a gweld sut y maent yn berthnasol i'r ymwelydd. Nid safleoedd hanesyddol yn unig sy'n rhannu cyd-destunau â chwedlau a bywgraffiadau. Gall amgueddfeydd gwyddoniaeth wneud hynny hefyd trwy gymryd straeon *pourquois* (straeon pam neu '*just-so*') a chwedlau'r cread, neu fywydau gwyddonwyr, dyfeiswyr, peirianwyr a mathemategwyr enwog, fel mannau cychwyn ar gyfer ymchwiliadau ac arbrofion. Maent hefyd yn weithgareddau y gallai aelodau staff llyfrgelloedd eu cynnwys yn eu rhaglenni nhw.

**2.5. Ieithoedd a Ddefnyddir mewn Amseroedd Stori**

O ran yr iaith a siaredir mewn gweithgareddau amser stori, roedd 64% yn defnyddio'r Saesneg fel rheol ac roedd tua 35% o'r rhai a oedd yn darparu gweithgareddau amser stori yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Dim ond 1% o'r ymarferwyr amser stori oedd yn siarad Cymraeg yn unig. Byddai'n cadarnhau bod aelodau staff llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd yn cyfathrebu'n rheolaidd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r cyhoedd, a chredwn fod y ffigurau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa iaith bresennol a dosbarthiad siaradwyr Cymraeg a Saesneg yng Nghymru. Ond mae hefyd yn awgrymu ei bod yn werth cefnogi mwy o weithgareddau Cymraeg yn unig a dwyieithog Cymraeg a Saesneg trwy amseroedd stori.

*Mae amseroedd stori yn Saesneg yn bennaf ond rydym ni wedi ymateb i geisiadau i gynnal sesiynau Cymraeg i ysgolion lleol. Rydym yn cyflwyno rhigymau Cymraeg i'n amseroedd stori arferol o ganlyniad i hyfforddiant Twf. Mae amseroedd stori yn ystod y gwyliau ar gyfer pob plentyn oedran ysgol gynradd, ond mae'n anarferol gweld plentyn hŷn nag 8 yn mynychu. Ddeng mlynedd yn ôl, byddem ni'n cael plant 12 mlwydd oed yn gofyn i gael cymryd rhan, ond byddai'n well ganddyn nhw ddefnyddio'r cyfrifiaduron bellach.*

**Staff Llyfrgell**

**2.6. Defnyddwyr a Chynulleidfaoedd**

Ceir rhai ffigurau diddorol wrth edrych ar bwy sy'n cael eu gwasanaethu gan amseroedd stori. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, o gofio'r ffigurau cynharach sy'n dynodi bod y rhan fwyaf o weithgareddau amser stori yn y sefydliadau hyn yn seiliedig ar ddarllen ar lafar a rhannu'r darluniau mewn llyfrau lluniau, plant iau yw'r prif gynulleidfaoedd. Gan fod 84% o'r ymatebwyr yn dweud bod amseroedd stori ar gyfer plant dan bump oed yn rheolaidd neu gan fwyaf, byddai'n ymddangos ei fod yn weithgareddau i'r ieuengaf yn bennaf.

*Yn aml, mae'r plant yn cael dewis pa stori yr hoffent iddi gael ei hadrodd neu ei darllen ar gyfer amseroedd stori yn ein llyfrgell.*

**Staff Llyfrgell**

Fodd bynnag, wrth ystyried faint o amseroedd stori sydd ar gyfer plant pump i saith oed ac wyth i un ar ddeg oed, ar y cyd, mae 62% yn dweud y cynhelir amseroedd stori ar gyfer y grŵp cyfnod allweddol un yn rheolaidd neu gan fwyaf, tra bod bron i 48% yn dweud y cynhelir gweithgareddau adrodd straeon ar gyfer y grŵp cyfnod allweddol dau yn rheolaidd neu gan fwyaf. Os byddwn yn cynnwys y nifer sy'n dweud y cynhelir gweithgareddau amser stori ar gyfer y tri grŵp oedran hwn *weithiau*, yna mae 94% yn dweud y cynhelir gweithgareddau amseroedd stori ar gyfer plant dan bump oed weithiau, yn rheolaidd neu gan fwyaf, 94% ar gyfer plant pump i saith oed, a 92% ar gyfer plant wyth i un ar ddeg oed. Felly ystyrir bod gweithgareddau amser stori yn briodol ac yn rhan bwysig o wasanaethau llyfrgell ar gyfer pob plentyn, o bob oed, er y rhoddir blaenoriaeth i amseroedd stori ar gyfer plant dan bump oed.

Ac ar yr olwg gyntaf, mae'r ffigurau yn dynodi nad yw aelodau staff amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn darparu gweithgareddau amser stori i'r rhai yn eu harddegau nac i oedolion. Er hynny, tra bod 47% yn honni nad ydynt fyth yn cynnig gwasanaeth adrodd straeon ar gyfer y rhai 11 i 15 oed, mae 52% yn gwneud hynny weithiau neu'n rheolaidd. Ac er bod 54% yn dweud nad ydynt fyth yn darparu gweithgareddau amser stori i bobl hŷn, mae 44.7% yn

*Mae ein hamgueddfa yn bwriadu cynyddu ei sesiynau amser stori, yn enwedig fel gwasanaeth y tu allan i dymor yr ysgol. Yr un rhwystr sy'n ein hwynebu yw bod cyfyngiad yn aml o ran nifer y gweithgareddau allanol y gall ysgolion eu trefnu neu eu fforddio.*

**Staff Amgueddfa**

*Cynhaliwyd ein gweithgareddau amser stori gan y sefydliad ambarél yn bennaf - rydym yn gwneud gwaith ymchwil i'r farchnad eleni er mwyn mesur diddordeb y cyhoedd mewn datblygu'r maes gwaith hwn ymhellach. Mae arddangosfeydd parhaol yr amgueddfa yn cynnwys llawer o hanesion llafar a straeon digidol ac rydym yn credu bod cyfleoedd gan nad oes unrhyw ddiffyg syniadau.*

**Staff Amgueddfa**

cynnig rhaglenni o'r fath i'r henoed weithiau neu'n rheolaidd. Gan fod ein diffiniad o weithgareddau amser stori yn cynnwys grwpiau llyfrau, ymweliadau gan awduron a heriau darllen, mae'n debygol mai dyma yw prif gynnwys y rhaglenni ar gyfer y ddau grŵp hwn.

Felly'r grwpiau oedran y cynigir y lleiaf o weithgareddau amser stori iddynt yw'r oedolion ifanc rhwng 16 a 18 oed, ac oedolion 18 oed a hŷn. Fodd bynnag, mae 20% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod weithiau'n darparu gweithgareddau adrodd straeon i oedolion ifanc a thua 30% i oedolion, ar ffurf sgyrsiau gan awduron a grwpiau llyfrau mae'n debyg.

Tybiaeth yw hon ynglŷn â natur y gweithgareddau ar gyfer yr holl grwpiau oedran hyn. O ystyried cyfyngiadau amser ac agweddau ymarferol yr astudiaeth hon, ni allem ddarganfod union amrywiaeth y gweithgareddau a ddarperir ar gyfer pob grŵp oedran. Dylid cofio bod llawer o storïwyr a beirdd perfformio proffesiynol yn perfformio i bobl ifanc yn eu harddegau hŷn ac i oedolion bellach, nid yn unig mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ond hefyd mewn canolfannau celfyddydau, theatrau, tafarndai a lleoliadau tebyg.

Mae'n eglur mai rhwng deg a deg ar hugain yw maint cyfartalog y gynulleidfa ar gyfer gweithgareddau amser stori mewn unrhyw grŵp oedran. Mae tua 48% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg yn dweud bod eu hamseroedd stori yn gwasanaethu tua deg i ugain o wrandawyr, ac mae tua 24% yn dweud bod eu rhaglenni yn gwasanaethu ugain i ddeg ar hugain o gyfranogwyr. Mae tua 24% yn dweud bod ganddynt tua deg neu lai yn mynychu eu hamseroedd stori, ac nid oes gan yr un, bron, grwpiau sy'n fwy na 30 o unigolion. O ystyried y math arferol o leoliad ar gyfer amseroedd stori (cornel ddarllen i blant, neu ystafell gymunedol mewn llyfrgelloedd ac oriel neu ystafell addysg mewn amgueddfeydd neu archifau) tua deg ar hugain fyddai'r uchafswm y gallai unrhyw leoliad ei ddal yn gyfforddus fel rheol.

*Mae gennym sefydliad Monmouthshire Shared Reading sy'n cynnwys aelodau staff llyfrgelloedd a gwirfoddolwyr sy'n mynd i grwpiau mewn llyfrgelloedd ac mewn Cartrefi Henoed ac yn y carchar. Mae gennym Grwpiau Rhyng-genhedlaeth hefyd.*

**Staff Llyfrgell**

*O ran gweithgareddau amser stori ar gyfer oedolion/dinasyddion hŷn, mae grŵp darllen yn cyfarfod unwaith y mis yn y Llyfrgell, yn ystod oriau agor y llyfrgell.*

**Staff Llyfrgell**

Mae'r ffaith bod bron i chwarter y rhaglenni yn gwasanaethu deg neu lai yn peri pryder; efallai fod y rhain mewn llyfrgelloedd gwledig bach iawn na allant ddal mwy na hyn, neu eu bod mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol difrifol â phlant a theuluoedd sy'n anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, efallai fod y ffigur hwn yn dynodi pryderon ynglŷn â hyrwyddo gwasanaethau a/neu'r angen i gynllunio neu ddarparu rhaglenni yn well. Gellid datrys problemau o'r fath trwy hyfforddiant neu drwy fabwysiadu modelau arfer da sefydliadau eraill. Ystyriaeth arall yn ymwneud â'r niferoedd sy'n mynychu rhaglenni amser stori yw'r potensial i wasanaethu mwy o bobl trwy benodi storïwyr, awduron, beirdd perfformio a/neu gwmnïau drama neu bypedau proffesiynol yn achlysurol. Mae llawer o'r rhain yn meddu ar y sgiliau i berfformio i rhwng chwe deg a chant o wrandawyr. Os yw'r cyfleusterau ar gael yn yr adeilad ar gyfer niferoedd o'r fath, gellid defnyddio'r perfformwyr proffesiynol hyn er mwyn ehangu gweithgareddau amser stori i wasanaethu digwyddiadau arbennig neu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau neu i annog pobl i ymaelodi.

*Mae'r rhan fwyaf o lyfrgellwyr da yn gwneud hyn; maen nhw'n mynd i siarad mewn grwpiau rhieni mewn ysgolion, yn enwedig pan fo plant yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf. Gwahodd y disgyblion newydd i'r llyfrgell; adrodd straeon iddyn nhw a'u rhieni.*

*O ran addysgu a gwaith maes ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd a defnyddwyr, y peth mawr i mi yw cyfleusterau crèche a chanolfannau dydd, yn enwedig mewn ardaloedd dosbarth gweithiol. Llawer o bobl yn gadael eu plant yno o fore tan nos. Mae'n ffordd dda o estyn allan i'r plant hynny, ac mae ei angen arnynt, aelodau staff llyfrgelloedd yn estyn allan iddynt trwy adrodd straeon.*

*Y peth am Dechrau Da a Cychwyn Cadarn yw eu bod wedi defnyddio Canolfannau Iechyd ac Ymwelwyr Iechyd y mae'n rhaid i'r bobl anodd eu cyrraedd hyn eu gweld. Gallai'r llyfrgelloedd gyrraedd y rhain drwyddyn nhw. Canolfannau Iechyd, lle mae pobl yn mynd â phlant am archwiliadau, cael y wybodaeth yno.*

*O ran cynulleidfaoedd ar gyfer digwyddiadau i oedolion, unwaith eto, mae angen i chi edrych lle mae pobl yn mynd yn y gymuned. Rhoi taflenni mewn siopau coffi, mynd allan at bobl a dweud y gallwn ni wneud hyn, gallwn ni gynnig rhywbeth <u>allan o'r llyfrgell</u> a gwahodd pobl yn ôl i mewn wedyn. Cymdeithasau hanes lleol, grwpiau hel achau, maen nhw'n awyddus iawn nawr i wybod am hanes a straeon gyda rhaglenni teledu fel "Who Do You Think You Are?" ac yn y blaen. Mae honno'n ffordd dda o gael pobl i edrych ar straeon teuluol. Cysylltu adrodd straeon ac achau a hanes teuluol, dyna ffordd wych o ennyn diddordeb mewn straeon.*

**Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

## 2.7. Pwy sy'n Cyflwyno Gweithgareddau Amser Stori

Mae'r ymatebion yn dynodi'n eglur mai cynorthwywyr llyfrgell a llyfrgellwyr sy'n

*Rydych chi'n hyfforddi'r unigolyn, yna rydym ni'n symud i gynaliadwyedd. Gofalwch y gall y sawl sydd wedi'i hyfforddi fynd allan fel gwestai i gangen llyfrgell arall. Dewch chi i Gangen A, af i i Gangen B. Trefnwch i aelodau staff fynd allan 3 gwaith, i fagu profiad, mewn cylchoedd chwarae lleol, sesiynau cyn ysgol, pa bynnag gynulleidfa y gallwch ddod o hyd iddi.*

*Ond mae'n rhaid i chi ofalu bod pobl yn gwybod sut i ymddwyn pan fydd storïwr gwadd yn dod. Sut mae'r staff yn trefnu'r plant? Mae angen cynnwys oedolion yn y gangen. Mae llawer o hyfforddiant arall i'w ddarparu - nid dysgu'r stori yn unig ond sut y mae aelodau staff eraill yn helpu i reoli a chefnogi'r amser stori. Dyna beth sy'n atal pobl rhag ei wneud neu nid ydynt yn gwneud y gwaith rheoli ac yn synnu nad yw adrodd straeon yn llwyddo.*

**Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

cyflwyno'r gweithgareddau amser stori yn bennaf mewn llyfrgelloedd. Mae'r canfyddiadau'n dynodi y cyflwynir amseroedd stori yn rheolaidd neu gan fwyaf gan gynorthwywyr llyfrgell (74% o'r amser) neu lyfrgellwyr (45% o'r amser). Mae tua 41% o'r llyfrgellwyr yn cyflwyno amseroedd stori weithiau, sy'n golygu bod nifer sylweddol yn gallu neu wedi eu hyfforddi i wneud hynny ac mae'n debyg mai swyddogaeth newidiol llyfrgellwyr sy'n gyfrifol am y ffaith bod amseroedd stori yn cael eu gadael i gynorthwywyr llyfrgell yn amlach. Mae aelodau staff amgueddfeydd ac archifau yn dynodi nad yw'r mwyafrif yn cynnig bron i ddim rhaglenni amser stori. Gadewir y gwaith i ychydig o bobl ym mhob sefydliad. Gallai'r ffaith y defnyddir storïwyr, beirdd ac awduron proffesiynol rhyddgyfrannol weithiau, yn ôl dros 70% o'r ymatebwyr, olygu bod unrhyw weithgareddau amser stori sy'n digwydd mewn amgueddfeydd ac archifau yn cael eu cynnal gan y gweithwyr proffesiynol hyn yn bennaf. Fodd bynnag, gan nad oedd yn ymarferol llunio holiadur i gael dadansoddiad manwl o sut y defnyddir gweithwyr proffesiynol rhyddgyfrannol ledled Cymru, mae'n bosibl bod storïwyr ac awduron yn ategu rhaglenni i raddau tebyg ym mhob un o'r tri sector.

> *Ceir cymaint o botensial nad yw wedi ei gydnabod ar hyd a lled y wlad. Nid ydych chi eisiau nac angen storïwyr enwog. Rydych chi eisiau mam sydd â 3 awr dros ben yr wythnos, gŵr ifanc sydd â diddordeb mewn actio efallai, ac sydd eisiau dysgu sut i weithio mewn ffordd gymunedol leol, rydych chi eisiau rhywun hŷn sydd wedi ymddeol ond sydd â chariad at adrodd straeon neu straeon i blant. Ni fydd diffyg staff ar gyfer cynllun o'r fath. Yr hyn sydd ei angen arnoch yw storïwyr i hyfforddi pobl rhyw fymryn, ac rydych chi eisiau system lyfrgelloedd â rhywfaint o gyllid.*
>
> *Roedd Cynllun Adrodd Straeon Lambeth yn y 1970au yn fodel gwych. Mae rhai yn ei israddio gan ei fod yn cynnwys llyfrau lluniau fel rhan annatod hefyd. Ond sylweddolodd y rhai ohonom ni a gymerodd ran, yn gyflym iawn, eich bod yn cyflwyno llyfrau ond bod yn rhaid i chi fod yn storïwr i wneud iddo weithio.*
>
> **Mary Medlicott, Storïwr ac Awdur**

Un sylw olaf ar bwy sy'n cyflwyno amseroedd stori. Dywedodd tua chwarter yr ymatebwyr eu bod weithiau'n defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer y digwyddiadau hyn. Er y defnyddir y gwirfoddolwyr hyn mewn amgueddfeydd yn bennaf, ac mewn llyfrgelloedd i raddau llai, mae'n grŵp i'w ystyried ar gyfer cynllunio a hyfforddi yn y dyfodol pe bai CyMAL neu amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau unigol Cymru yn dymuno ehangu rhaglenni amser stori.

**2.8. Rhesymeg dros Weithgareddau Amser Stori**

Y rheswm pwysicaf o bell ffordd dros ddarparu gweithgareddau amser stori oedd hybu darllen ar gyfer mwynhad, a dywedodd bron i 88% fod hyn yn bwysig iawn neu'n hanfodol. Dywedodd dros 83% ei fod yn bwysig iawn neu'n hanfodol cael

rhaglenni amser stori i ddatblygu a chefnogi llythrennedd. Mae bron i 80% hefyd o'r farn bod amseroedd stori yn bwysig neu'n hanfodol ar gyfer dysgu iaith. Fodd bynnag, mae'r rhesymau dros ddarparu unrhyw wasanaeth yn gymhleth. Dywedodd y rhai a atebodd ein holiadur hefyd fod 84% yn ystyried bod amseroedd stori yn bwysig iawn neu'n hanfodol ar gyfer hyrwyddo eu gwasanaethau, ac mae ychydig dros 85% yn credu bod amseroedd stori yn bwysig neu'n hanfodol ar gyfer cynyddu niferoedd ymwelwyr a/neu ddefnyddwyr. Nid oedd cylch gwaith yr astudiaeth hon yn cynnwys ffordd o ddarganfod a yw safbwyntiau o'r fath yn ymwneud ag effaith amseroedd stori ar niferoedd ymwelwyr/defnyddwyr yn gywir. Ond gan fod ein hymatebwyr yn weithwyr proffesiynol â blynyddoedd lawer o arfer, gyda'i gilydd, mewn meysydd sy'n monitro effaith eu gwasanaethu'n rheolaidd, gan gynnwys cadw cofnod o nifer yr ymwelwyr a'r defnyddwyr, yna rydym yn credu bod eu profiadau'n ddigon o dystiolaeth. Mae amseroedd stori yn cael effaith ar lythrennedd ac arferion darllen ac maent yn hyrwyddo gwasanaethau sefydliadau er mwyn cynyddu niferoedd.

Roedd tua 40% yn credu bod amseroedd stori yn bwysig iawn i hyrwyddo casgliadau ac arddangosfeydd, a 43% o'r farn bod gweithgareddau o'r fath yn lled bwysig er mwyn cynorthwyo pobl i werthfawrogi arddangosfeydd a chasgliadau neu ddod i'w deall yn well. Mae hwn yn lleiafrif gweddol fawr ac yn awgrymu bod posibiliadau o ran datblygu yn y dyfodol, un ai trwy hyfforddiant neu wrth arbrofi gyda gweithgareddau amser stori i wneud y pethau hyn.

Un o'r elfennau mwyaf calonogol yn yr ymatebion i'r adran hon oedd bod 67% o'r rhai a atebodd ein harolwg yn credu ei bod yn hanfodol neu'n bwysig iawn eu bod yn cynnal gweithgareddau amser stori oherwydd eu bod yn eu mwynhau. Mae'n hollbwysig i lwyddiant unrhyw weithgaredd amser stori bod pawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys y sawl sy'n adrodd y stori neu'n arwain gweithgareddau eraill, yn mwynhau eu hunain.

## 3.0. Argymhellion ar gyfer Mwy o Gefnogaeth ac ar gyfer Ehangu

> *Os gwnewch chi amddifadu plentyn o gariad yna bydd yn estyn am anwyldeb neu'n ceisio denu sylw ar draul pob dyhead arall. Os gwnewch chi ei amddifadu o ffantasi yna gallai, ar ei ben ei hun, geisio llenwi'r bwlch hwnnw hyd yn oed. Ond ni fydd plant nad oes*

*oedolion byw ac ymatebol yn siarad â nhw yn dysgu i siarad yn iawn. Bydd plant nad ydynt yn cael eu hateb yn rhoi'r gorau i ofyn cwestiynau. Byddant yn colli eu chwilfrydedd. Ac ni fydd gan blant nas adroddir straeon iddynt neu na ddarllenir iddynt fawr o resymau dros fod eisiau dysgu. Nid yw'r rhai sy'n dadlau dros ffyrdd electronig cyflym o ddysgu llythrennedd yn deall swyddogaeth y storïwr.*

**Gail E. Haley, Araith Gwobr Caldecott 1971**

Mae canfyddiadau'r arolwg a'r cyfweliadau yn dynodi y ceir potensial ym mhob sector i ddatblygu arferion amser stori yng Nghymru, naill ai trwy ddatblygu neu fireinio gweithgareddau cyfredol neu trwy gyflwyno strategaethau a digwyddiadau newydd. Mae hyn yn tybio bod aelodau staff rheng flaen, uwch reolwyr a Llywodraeth Cymru yn cytuno ac yn cefnogi ymdrechion o'r fath. Er y cymeradwyir aelodau staff llyfrgelloedd ac amgueddfeydd ledled Cymru am barhau i gynnal amrywiaeth eang o weithgareddau amser stori ar gyfer sawl sector o'r boblogaeth (yn enwedig ar gyfer plant iau a phlant oedran ysgol gynradd), ceir rhai ardaloedd o hyd sydd heb fawr ddim gweithgareddau amser stori, os o gwbl, a cheir sectorau o'r cyhoedd ym mhob awdurdod a allai fwynhau darpariaeth amser stori ychwanegol. Gall gweithgareddau amser stori hefyd gyfrannu at sicrhau cyrhaeddiad addysgol dymunol a chysylltiadau cymunedol cryfach.

### 3.1 Tystiolaeth o Blaid Ehangu Arferion Amser Stori

Cyn awgrymu amlinelliad cyffredinol o strategaeth ymarferol, fforddiadwy ar gyfer ehangu gweithgareddau amser stori, byddai'n ddefnyddiol adolygu llenyddiaeth sy'n archwilio swyddogaeth a dylanwad gweithgarwch adrodd straeon mewn cymdeithas. Mae pobl yn adrodd straeon wrth reddf. Rydym yn meddwl ac yn cyfathrebu ar ffurf naratif. Mae atgofion yn cymryd ffurf naratif, mae gramadegau naratif yn hysbysu ein gwybodaeth ac yn ein helpu i ddod o hyd i'n ffordd trwy fywyd (Tomasello, 1999; Konner, 2010; Gottschall, 2012).

Datblygwyd archifau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd i nodi a storio'r naratifau hyn fel eu bod yn hygyrch, yn ddefnyddiol ac yn ystyrlon i bawb. Yn ogystal â chasglu, categoreiddio a storio'r naratifau hyn, a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd, gellid dadlau bod gan sefydliadau o'r fath gyfle, a chyfrifoldeb hyd yn oed, i hyrwyddo naratifau, i'w cyflwyno i'r cyhoedd eu dadansoddi ac arbrofi â nhw. Mae hyn yn atgoffa'r cyhoedd o ddiben a photensial sefydliadau o'r fath, gan gynyddu aelodaeth

a defnydd o'u gwasanaethau: a bydd gwaith rhagweithiol gyda phob math o adrodd straeon sydd ar gael i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd hefyd yn cyffroi meddyliau, hen ac ifanc, er lles cymdeithas.

Un enghraifft bendant o hyn yw swyddogaeth y gymuned ehangach o ran sicrhau llythrennedd i bawb. Mae Arolwg PISA (*y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr*) yn asesu gwybodaeth a sgiliau pobl ifanc 15 mlwydd oed mewn mathemateg, darllen a gwyddoniaeth ac fe'i datblygwyd ar y cyd gan aelod-wladwriaethau'r OECD (y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd). Yn y DU, caiff PISA ei redeg gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg. Cafwyd canlyniadau anodd wedi i Gymru gymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn ddiweddar:

> *Mae'r asesiadau PISA o bobl ifanc 15 mlwydd oed yn dangos bod Cymru ymhellach ar ei hôl hi ers profion 2006. Cymru oedd yr isaf o wledydd y DU. O'r 67 o wledydd a gymerodd ran, roedd Cymru yn 38ain ar gyfer darllen, 40fed ar gyfer mathemateg, a 30ain ar gyfer y profion gwyddoniaeth.*
>
> 7 Rhagfyr 2010 BBC News Wales

Yn naturiol, mae llawer yng Nghymru yn poeni am y sgoriau hyn ac, mewn ymateb i'r canfyddiadau, cymerodd Adran Addysg Llywodraeth Cymru gamau amrywiol yn ymwneud â'r cwricwlwm, arholiadau, hyfforddiant athrawon ac arolygiadau ysgol.[1]

Mae gwaith ymchwil a phrofiad hirfaith wedi dangos na all ysgolion sicrhau cyfraddau llythrennedd uchel ar eu pen eu hunain. Fel y mae Jim Sells o'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ac eraill wedi ei ddweud, mae'n cymryd cymuned o ddarllenwyr i greu darllenwyr ifanc. Nid rhywbeth sy'n dechrau yn y dosbarth derbyn gyda gwersi datgodio sylfaenol mo dysgu

> *'Mae dysgu darllen yn dechrau y tro cyntaf y bydd baban yn cael ei ddal ac y darllenir stori iddo. Un o'r ffactorau gorau ar gyfer darogan a fydd plentyn yn darllen yn ddiweddarach yw pa mor aml y mae hyn yn digwydd, neu nad yw'n digwydd, yn ystod pum mlynedd gyntaf ei oes. Mae system anweledig, nad yw'n cael ei thrafod rhyw lawer, yn rhannu ein cymdeithas, wrth i'r teuluoedd hynny sy'n darparu amgylcheddau llawn cyfleoedd iaith lafar ac ysgrifenedig i'w plant wahanu'n raddol oddi wrth y rhai nad ydynt, neu na allant wneud hynny …. Mae ffawd yn erbyn plant nad oes neb byth yn darllen stori iddynt, nad ydynt byth yn clywed geiriau sy'n odli, byth yn dychmygu ymladd gyda dreigiau neu briodi tywysog.'*
>
> **Maryanne Wolf**

[1] Gweler hefyd http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/120629pisabookletcy.pdf a http://www.wlga.gov.uk/gwella-sgiliau-a-chyrhaeddiad-addysgol

darllen, ac nid yw'n dod i ben ar ddechrau Cyfnod Allweddol Dau, pryd y mae addysgwyr yn credu bod plant tua wyth oed yn symud o 'ddysgu darllen' i 'ddarllen i ddysgu'. Mae Maryanne Wolf, yn *Proust and the Squid, a history of the reading mind*, yn nodi 'Ni chawsom ein geni i ddarllen. Dyfeisiwyd darllen dim ond ychydig filoedd o flynyddoedd yn ôl. A chyda'r ddyfais hwn, fe wnaethom ad-drefnu ein hymennydd ein hunain, gan ehangu wedyn y ffyrdd yr oeddem yn gallu meddwl, a newid esblygiad deallusol ein rhywogaeth (2007).'

Rydym wedi ein geni i wrando, siarad, gweld a defnyddio ein dwylo. Ac mae'n ymddangos ein bod wedi ein geni i wrando ar straeon a'u hadrodd. Y galluoedd cynhenid hyn yw'r blociau adeiladu ar gyfer adrodd straeon ac, yn y pen draw, ar gyfer darllen. Mae pobl o unrhyw oedran neu allu darllen sy'n gwrando ar straeon, pan fyddant wedi ymgolli'n llwyr yn y profiad, yn yr un cyflwr meddyliol ag y mae darllenwr rhugl ynddo pan fydd wedi ymgolli mewn llyfr. Mae meddwl a darllen go iawn yr un fath. Hynny yw, pan fyddwch yn ddarllenwr rhugl, byddwch yn llai ymwybodol o'r marciau ar y dudalen a'r ymdrechion corfforol a wneir wrth ddal ac edrych ar lyfr. Mae'r gair ysgrifenedig yn cael ei droi'n gyflym yn ddelweddau, teimladau a seiniau yn y meddwl fel eich bod yn fwy ymwybodol o'r meddyliau hyn, ac yn ymgysylltu â'r stori cymaint â phe bai'n digwydd mewn bywyd go iawn.

Nid yw hyn yn digwydd trwy ddamwain – mae'n cymryd blynyddoedd o ymarfer ac arbrofi, o ddatblygu sgiliau echddygol manwl a bras, cydgysylltiad llaw a llygad, teimlad o gydbwysedd. Mae meithrin y dychymyg yr un mor bwysig, ynghyd â phrofiadau emosiynol cadarnhaol sy'n eich cymell i fod eisiau darllen a darllen mwy. Datblygir y prosesau meddwl hynny trwy wrando ar straeon sy'n cael eu hadrodd neu eu darllen ar lafar yn fedrus, ac mae hynny'n cyfrannu at ddatblygiad synapsau sy'n cysylltu'r biliynau o niwronau, neu gelloedd yr ymennydd.

> 'Mewn ymennydd newydd, mae tri biliwn o synapsau yn ffurfio bob eiliad. …. Mae'r cyfnodau datblygu hyn yn digwydd fesul cam, o enedigaeth hyd at ddeuddeg oed pan fo'r ymennydd yn dysgu'n weithredol iawn o'r amgylchedd. Yn ystod y cyfnod hwn… gosodir y sylfeini ar gyfer meddwl, iaith, golwg, agweddau, doniau, a phriodweddau eraill.
>
> *U.S. Department of Health and Human Services Early Head Start National Resource Centre @Zero to Three*

Mae llawer o astudiaethau, gan gynnwys yr un gan Lauren Brown, yn dynodi bod y datblygiad hwn yn gweithio orau pan fo'n dibynnu ar ryw fath o ryngweithio rhwng pobl, er enghraifft wrth adrodd straeon. Canfu Brown (1989) bod y cyfrwng llafar yn helpu i ddatblygu iaith a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer darllen, ac nad yw llythrennedd gweledol, er ei fod yr un mor bwysig, yn cefnogi darllen yn yr un ffordd ag y mae rhyngweithio llafar creadigol rhwng pobl.

Mae llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau mewn sefyllfa dda i gefnogi llythrennedd plant ac oedolion yng Nghymru ac, yn benodol, i ddarparu'r profiadau emosiynol cadarnhaol i greu cenedl o adroddwyr, gwrandawyr a darllenwyr. Yn ôl y dystiolaeth uchod, mae plant nad ydynt yn cael profiadau fel adrodd straeon, darllen ar lafar, amser rhigwm ac ati (mewn cyd-destunau teuluol ac o ran profiadau cyhoeddus ac yn yr ysgol) ar ei hôl hi o ran datblygu llythrennedd, yn ogystal â datblygu sgiliau gwybyddol a chymdeithasol eraill. Disgrifir hyn fel 'effaith Mathew' (lle mae'r cyfoethog yn mynd yn fwy cyfoethog a'r tlawd yn mynd yn dlotach, yn ôl yr Efengyl honno,) sy'n golygu nad yw'r plant hyn byth yn dal i fyny (Fecica ac O'Neill).

*Rwy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid a theuluoedd lleiafrifoedd ethnig sydd wedi mewnfudo yma. Fel gwaith ysgolion yn bennaf, wedi ei drefnu a'i ariannu gan AALlau. Rwy'n addysgu'r oedolion o leiafrifoedd ethnig i adrodd straeon i'w plant, ar gyfer eu datblygiad eu hunain. Mae gennym glybiau adrodd straeon i deuluoedd o leiafrifoedd ethnig lle mae oedolion a phlant yn dod i'r ysgol ar ôl yr ysgol ac yn rhannu straeon. Rwyf i'n adrodd straeon, maen nhw'n adrodd straeon. Maen nhw'n adrodd yn ddwyieithog yn y clybiau adrodd straeon ar ôl yr ysgol, gallant eu hadrodd yn y Saesneg neu mewn iaith o'u dewis, a cheir cyfieithwyr ar y pryd i gyfieithu i'r lleill. Mae'n hyfryd yr hyn sy'n digwydd mewn clybiau adrodd straeon ar ôl yr ysgol. Yr AALl sy'n trefnu, ond mae'r cwrs rhianta a digwyddiadau eraill yn digwydd mewn llyfrgelloedd weithiau - gellid gwneud llawer mwy o waith fel hyn mewn llyfrgelloedd.*

**Cath Little, Storïwr a Chantores**

Nid yw'r manteision a geir yn sgil profiadau iaith lafar pleserus a chyfoethog yn dod i ben ar ôl i blentyn gael ei ben-blwydd yn bump oed. Mae angen gwneud yr un faint i argyhoeddi plant oed ysgol gynradd ac uwchradd o bleserau naratif, ysgrifenedig neu ar lafar, er mwyn i'r gweithgareddau hyn ddod yn awtomatig. Dim ond o brofiadau ac arferion meddwl sy'n eu diddori'n llawn y daw argyhoeddiadau o'r fath. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod profiadau adrodd straeon yn helpu i ddatblygu gallu'r plentyn hŷn i ddelweddu a dychmygu (i ddatblygu'r hyn a elwir yn efelychiadau meddyliol), a hefyd yn cynorthwyo i ddatblygu empathi, meddwl beirniadol a'r gallu i ganolbwyntio. Mae pob math o weithgaredd amser stori yn gwneud hyn, ac felly mae heriau darllen yn ystod yr haf, grwpiau llyfrau plant a

sesiynau adrodd straeon achlysurol, ymweliadau gan awduron a pherfformiadau barddoniaeth yn dal i fod yn wasanaethau hanfodol.

Mae myfyrwyr yng nghyfnodau allweddol dau a thri sydd wedi dadrithio ac sy'n ddarllenwyr gwael, wedi gwella eu sgiliau darllen trwy gymryd rhan mewn prosiectau adrodd straeon. Roedd y rhain yn hyfforddi myfyrwyr hŷn mewn ysgolion difreintiedig i adrodd straeon. Dro ar ôl tro yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf cynyddodd oedrannau darllen myfyrwyr mewn cynlluniau o'r fath o gymaint â 2.3. i 3.0 blynedd, a/neu cynyddodd aelodaeth a defnydd y myfyrwyr hyn o'r llyfrgell. Mae athrawon yn dweud bod myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn prosiectau adrodd straeon yn gallu canolbwyntio'n llawer gwell, a bod eu sgiliau ysgrifennu'n gwella. Maent yn dweud hefyd bod adrodd straeon yn gyfrifol am lythrennedd critigol a swyddogaeth weithredol well.[2]

Mae sefydliadau llyfryddiaethol a rhai sy'n cael eu curadu hefyd yn cyflawni swyddogaeth allweddol o ran datblygu gwybodaeth a hunaniaeth leol. Mae'r rhain yn fathau o 'lythrennedd' sydd weithiau'n cael eu hesgeuluso mewn byd wedi globaleiddio. Mae llawer o deuluoedd yn cael eu diwreiddio bellach, ac yn byw mewn cymunedau noswylio sy'n gyfleus ar gyfer gwaith ond nid o anghenraid lle mae'r oedolion yn adnabod ei gilydd ers pan oeddynt yn blant. Nid yw plant yn crwydro'n annibynnol cymaint ag yn y gorffennol, gan archwilio ardaloedd lleol a datblygu ymdeimlad o le. Mae llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau yn cynnig mannau i bobl gyfarfod ac i storio'r wybodaeth sy'n cyfleu agweddau ar hanes lleol. Gall gweithgareddau amser stori i bob oedran ddathlu a rhannu'r wybodaeth hon am le, a theimlad o berthyn, ymhlith amrywiaeth o oedrannau. Trwy ddarparu lle a rheswm i gyfarfod, ac annog pobl i ddod ynghyd i glywed a rhannu straeon, sy'n

> *Un o'm pryderon mwyaf fel storïwr Cymraeg yw'r diffyg dealltwriaeth o'r hyn a elwir yn gyffredinol yng Nghymru y* Cwricwlwm Cymreig. *Byddwch yn clywed Mererid Hopwood a John Evans yn dweud hynny hefyd. Mae angen hyn ar unrhyw feddwl artistig yng Nghymru, ond rydym ni'n colli cysylltiad ag ardaloedd lleol yng Nghymru, su'n ofnadwy o bwysig yn niwylliant Cymru. Trwy adrodd straeon, gellir cynnal gwybodaeth am draddodiad, diwylliant, daearyddiaeth, hanes, cymeriadau, pobl ac ati.*
>
> **Mary Medlicott, Storïwr ac Awdur**

---

[2] Cyfeiriwch at: 1. *Listen Up!*, cynllun adrodd straeon y Verbal Arts Centre yng Ngogledd Iwerddon; Adroddiadau ar *Kick into Reading*, *Sports Stories*, *Dads and Lads*, *Reading Champions*, a *Junior Reading Champions,* Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (NLT); *Writing Together* a *Class Writing*, National Association of Writers in Education (NAWE); *Active Learning Project* gan Artforms Leeds, ac erthyglau gan: Fecica ac O'Neill (2010), Ryan (2012), y cyfeirir atynt yn y llyfryddiaeth

weithred gymdeithasol, gall aelodau cymuned helpu ei gilydd i wneud iawn am unrhyw ddieithriad neu deimlad o ddadleoliad.

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus ac amgueddfeydd wedi bod yn hollbwysig er mwyn cynorthwyo'r boblogaeth i ddysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron, trwy roi cyfle i ddefnyddio offer a'r rhyngrwyd, yn ogystal â chael hyfforddiant TGCh, yn rhad neu am ddim. Un pryder ymhlith addysgwyr, prifysgolion a chyflogwyr fu'r ffaith fod deunydd yn cael ei lawrlwytho oddi ar y we yn ddiwahaniaeth heb fawr o ymwybyddiaeth o sut y mae cynnwys ar un wefan yn fwy neu'n llai perthnasol na chynnwys ar wefan arall. Mae arferion adrodd straeon llafar, ysgrifennu creadigol, adrodd straeon digidol a defnydd o lyfrgelloedd ac amgueddfeydd, wedi'u cyfuno neu'n ategu'i gilydd, yn bwysig er mwyn datblygu llythrennedd beirniadol a digidol: hynny yw, y gallu i farnu gwerth a pherthnasedd cynnwys ysgrifenedig, clywedol a gweledol a/neu gynnwys digidol mewn unrhyw gyfrwng. Am y rheswm hwn, mae gweithgareddau amser stori yn parhau i gynnig cyfleoedd i lyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd gefnogi arferion hen a newydd – gwasanaeth cymdeithasol hanfodol fel y'i nodwyd gan Harry Farr ym 1910.

*Mae gan lawer o lyfrgelloedd gronfa o gyfrifiaduron, felly gallwch gael storïwr neu storïwr digidol proffesiynol yn gweithio dros sawl sesiwn un awr gyda'r cyhoedd ac aelodau staff allweddol. Yna gall aelodau staff y llyfrgell gymryd gwaith adrodd straeon digidol drosodd. Ceir aps camera y gall unrhyw blentyn eu defnyddio a'u lawrlwytho ar gyfrifiaduron llyfrgelloedd, gan greu straeon digidol gyda'i gilydd felly. Gall hyd yn oed yr aelodau staff lleiaf technegol wneud hynny. Gallwch greu a chael stori gyflawn gyda lluniau a phopeth, bydd y plant a'r bobl hŷn sy'n defnyddio'r llyfrgell wrth eu boddau gyda hynny.*

**Liz Weir, storïwr a llyfrgellydd**

## 3.2 Potensial i Ehangu a Datblygu: Awgrymiadau Penodol

Mae'r crynodeb canlynol yn awgrymu cynigion penodol ar gyfer pob sector. Bydd y darllenwr yn canfod bod llawer o orgyffwrdd, ac mae'n bwysig cofio hyn yn yr isadran ddilynol sy'n trafod ffyrdd ymarferol o roi unrhyw un o'r gweithgareddau hyn ar waith.

### 3.2 (a) Llyfrgelloedd

- Mwy o weithgareddau amser stori i blant oedran ysgol gynradd (6 i 10 oed) (yn enwedig adrodd straeon ar lafar, ond hefyd grwpiau llyfrau yn cynnwys darlleniadau gan awduron a beirdd perfformio, gweithgareddau adrodd straeon digidol a chwisiau bwrdd a gemau her eraill sy'n ddifyr ac yn datblygu eu dulliau meddwl beirniadol a'u gwybodaeth ar yr un pryd)
- Mwy o weithgareddau amser stori ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd (adroddwyr arbenigol, straeon gan aelodau staff, beirdd perfformio,

darlleniadau gan awduron, cwisiau a heriau cystadleuol difyr ar gyfer y grŵp oedran hwn)

- Prosiectau adrodd straeon ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau (adrodd straeon digidol ac adrodd straeon gwirfoddol i blant iau)
- Prosiectau straeon ar gyfer oedolion a phobl hŷn ar wahanol ffurfiau, fel:
    - Adrodd straeon / eu darllen ar lafar gan gyfranogwyr, aelodau staff neu artistiaid gwadd yn rhan o rai grwpiau llyfrau neu ymweliadau awduron
    - Perfformiadau achlysurol o straeon i oedolion gan storïwyr proffesiynol, beirdd perfformio a darlleniadau gan awduron
    - Prosiectau hanes llafar
    - Adrodd straeon digidol i archwilio hanes lleol neu deuluol
    - Aelodau staff rhan-amser wedi'u recriwtio'n arbennig a/neu amaturiaid/gwirfoddolwyr (pobl hŷn ar eu pen eu hunain a/neu ynghyd â myfyrwyr, NEETs, rhieni ifanc ac ati), yn adrodd straeon

**3.2 (b) Amgueddfeydd**

- Cyflogi storïwyr proffesiynol ar gyfer digwyddiadau ac arddangosfeydd arbennig
- Cyflogi storïwyr proffesiynol i hyfforddi staff/gwirfoddolwyr
- Mwy o adrodd straeon o bob math gan aelodau staff a gwirfoddolwyr
- Arbenigwyr adrodd straeon digidol i weithio gydag aelodau staff a/neu'r cyhoedd
- Darparu mannau i grwpiau adrodd straeon ac unigolion gyflwyno perfformiadau a/neu weithdai y mae'r rhain yn eu datblygu

**3.2 (c) Archifau**

- Preswylfeydd byrdymor i storïwyr proffesiynol i wneud gwaith ymchwil ar ddeunyddiau a'u cyflwyno mewn perfformiadau cyhoeddus, cyhoeddiadau a/neu recordiadau er mwyn hyrwyddo casgliadau a gwasanaethau archifau a chodi ymwybyddiaeth ohonynt
- Trefnu i arbenigwyr ym maes adrodd straeon digidol ddatblygu a hyfforddi aelodau staff a/neu'r cyhoedd yn y ffurf hon ar gelfyddyd er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o ddeunyddiau archifau a galluogi cynnwys archifau i gael eu rhannu'n ehangach

*Sylwer: Gall pob un o'r awgrymiadau hyn ddigwydd trwy gydweithredu rhwng llyfrgelloedd, archifau a/neu amgueddfeydd lleol, a phartneriaethau gydag AALl, grwpiau ieuenctid lleol, grwpiau pobl hŷn, grwpiau rhieni a gofalwyr a sefydliadau ac asiantaethau tebyg.*

Bydd gan mwyafrif y bobl sy'n darllen yr adroddiad hwn syniad eglur o'u profiadau eu hunain o sut y darperir gweithgareddau amser stori mewn llyfrgell gyhoeddus. Bydd y syniadau hyn yn ymwneud yn bennaf ag amseroedd stori ar gyfer plant dan bump oed a rhai arferion sy'n cynnwys ysgolion ysgol gynradd. Os hoffech

fraslun mwy manwl o sut y gallai gweithgareddau amser stori gynnwys myfyrwyr ysgol uwchradd ac oedolion, cyfeiriwch at y modelau a ddisgrifir yn Atodiad II.

Efallai y bydd rhai yn cael mwy o drafferth deall gweithgareddau amser stori wedi eu hehangu neu ychwanegol mewn amgueddfeydd ac archifau. Ceir tri math o adrodd straeon sy'n ymddangos fwyaf priodol ar gyfer amgueddfeydd ac archifau:

- Perfformiadau statig o straeon llafar (yn ymwneud â gwaith traddodiadol neu wreiddiol, neu'r ddau, yn seiliedig ar wrthrychau a arddangosir neu hanes y gwrthrychau hynny, neu wedi ei ysbrydoli ganddynt.) (Sylwer y gall hyn amrywio o berfformiad hynod ffurfiol i stori hynod anffurfiol wedi ei chyfathrebu i ymwelwyr gan aelodau staff trwy sgwrsio)
- Taith straeon neu daith gerdded neu dywys (Adrodd Straeon Promenâd), yn cynnwys straeon sy'n cael eu perfformio'n fyrfyfyr wrth i grwpiau gael eu tywys trwy oriel, safle maes neu adeilad (tebyg i'r teithiau cerdded arswyd yng Nghaerdydd a chanol dinasoedd eraill, neu daith Jack the Ripper yn Llundain)
- Adrodd straeon digidol (gan aelodau staff neu'r cyhoedd) wedi ei ategu a'i hwyluso i ddechrau gan asiantaethau adrodd straeon digidol ac, wrth i'r gweithgareddau esblygu, â phwyslais ar hanes lleol neu hel achau neu straeon teuluol eraill ac ati, wedi eu cynnal gan y cyhoedd gyda chefnogaeth aelodau staff archifau, amgueddfeydd neu lyfrgelloedd

Mae Atodiad II yn crynhoi adroddiad cynhwysfawr swyddogol un amgueddfa ar arferion amser stori mewn amgueddfeydd yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau gan eraill yn ymwneud â gwaith adrodd straeon mewn amgueddfeydd, safleoedd hanesyddol ac archifau yng Nghymru ac mewn mannau eraill.

> *Ceir potensial mawr i ddatblygu ar gyfer y dyfodol mewn amgueddfeydd: hyfforddi aelodau staff, defnyddio storïwyr, eu hyfforddi i gynnal teithiau cerdded mewn amgueddfeydd a safleoedd Cadw. Byddai teithiau tywys hefyd, â straeon sy'n canolbwyntio ar wrthrychau neu nodweddion penodol, neu wedi eu hysbrydoli ganddynt, yn gwella ymweliadau. Byddai angen cyllid i helpu adroddwyr a hyfforddwyr ymchwilio'r deunydd hwnnw ond gallai fod yn dda iawn ar ôl ei gychwyn.*
>
> **Cath Little, Storïwr a Chantores**

Mae llawer o waith celf yn portreadu naratif (chwedlau clasurol Groeg neu Rufain er enghraifft, neu ddigwyddiad hanesyddol neu gyd-destun hanesyddol mewn canrif arall). Bydd stori y tu ôl i wrthrych (pa un a yw'n ddarlun, yn gerflun, yn ddarn o beirianneg neu'n rhan o heneb): sut y cafodd ei wneud, neu rywbeth arwyddocaol am fywyd yr unigolyn neu'r bobl a wnaeth ei greu

> *Mae'r gwaith amgueddfa gorau… wastad wedi bod yn gysylltiedig ag arddangosfa yn benodol. Mae gennych ddeialog hyfryd gyda'r deunydd rydych chi'n gweithio ag ef, a'r digwyddiad pwysig hwn…. Mae amgueddfeydd yn aml yn ceisio esbonio a'r peth gwych am yr arddangosfa Art, Ritual and Death oedd bod llawer iawn o stwff ac nid oedd neb yn gwybod beth oedd ei ddiben. Dyna oedd y peth diddorol—pan nad ydych chi'n brwydro yn erbyn neu'n rhan o esboniad yr amgueddfa. Rydych chi'n rhan o'r 'Waw!'*
>
> **Michael Harvey, Storïwr**

neu ei ddefnyddio. Gall gwrthrychau ysbrydoli naratifau gan arwain at naratifau llafar neu ysgrifenedig sy'n cael eu creu'n un swydd.

Mae gan guraduron amgueddfeydd a swyddogion addysg gyfrifoldeb i bortreadu eu casgliadau mewn ffordd ddilys, gonest a ffeithiol. Er hynny, gellid dadlau ei bod yn iawn caniatáu i ffuglen fframio gwrthrych neu destun mewn amgueddfa. Mae rhai pobl yn ymweld ag amgueddfeydd ar gyfer gwaith ymchwil pur; mae llawer o'r cyhoedd yn defnyddio amgueddfeydd ar gyfer hamdden. Maent eisiau caffael gwybodaeth ond mae rhan o'r profiad yn cynnig ffordd o ymlacio, o adael i'r meddwl grwydro ac i syniadau ac emosiynau cysylltiol gael eu sbarduno wrth iddynt ddod ar draws gwrthrychau, arddangosfeydd, pensaernïaeth ac unigolion, a rhyngweithio â nhw, yn y gofod hwnnw.

*Rwy'n gwneud llawer o adrodd straeon i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Mae llawer ohono yn yr oriel astudiaethau natur gyda'r holl anifeiliaid, felly mae hynny'n wych ar gyfer straeon anifeiliaid. Mae'n gysylltiedig â themâu arddangosfa arbennig yn bennaf. Fe wnes i hyfforddi gwirfoddolwyr i adrodd a darllen straeon yn ymwneud ag arddangosfa Anthony Browne ar lafar. Cynulleidfaoedd teuluol sydd mewn amgueddfeydd ar y cyfan ac felly mae adrodd straeon yn beth gwych i'w wneud yno.*

**Cath Little, Storïwr a Chantores**

Gall straeon a grëwyd gan adroddwr, ac a ysbrydolwyd gan wrthrych penodol (hyd yn oed os nad yw'r stori yn cyfleu unrhyw ffaith benodol) annog y gwrandawyr i edrych yn agosach ar y pwnc, i gwestiynu ac yna dibynnu ar y wybodaeth y mae'r amgueddfa neu'r archif yn ei darparu. Mae gweithgaredd adrodd straeon o'r fath yn cynnig model o feddwl hefyd, gan annog ymwelwyr i ddamcaniaethu ynglŷn â'r hyn maent yn ei weld, ac i gysylltu'r hyn y maent ei weld â straeon maent yn gyfarwydd â nhw eisoes (atgofion o ddigwyddiadau a phrofiadau bywyd arwyddocaol a gwybodaeth a ddysgwyd dros y blynyddoedd). Mae'r profiad hwn o synfyfyrio sy'n deillio o feddyliau cysylltiol yn ganlyniad cyffredin i ymweliadau ag amgueddfeydd, ac yn brofiad pwysig i bob oedran, gan annog prosesau meddyliol amrywiol: ieithyddol, gwyddonol, cyfathrebol, hanesyddol, perthynol. Mae'n arwain at gyflwr y mae gwyddonwyr

*Roedd un o'r wythnosau mwyaf pleserus o adrodd straeon a wnes i'n ddiweddar mewn amgueddfa fach…. Gweithiais yn y gofod a roddwyd ond sylweddolais mai agwedd hollbwysig fyddai'r cysylltiad â'r eitemau yn holl ystafelloedd bach yr amgueddfa. A meddyliais am ffordd y gallwn ysbrydoli'r plant i feddwl am eitemau…i'w sbarduno i edrych. Ar ôl dod â'r eitemau i mewn, gadewais iddyn nhw ddewis a mynd i'r afael â'r eitemau. Ac yna wrth gwrs fe wnes i adrodd straeon am y pethau hynny. Weithiau, byddai'r eitem yn symboleiddio stori werin neu chwedl roeddwn i eisiau ei hadrodd. Weithiau byddai stori am y eitem, am y stori go iawn. Byddwn yn argymell hynny i amgueddfeydd - nad ydynt yn cael storïwr oherwydd bod adrodd straeon yn hwyl. Dylent ddefnyddio'r storïwr i ennyn diddordeb go iawn yn yr hyn sydd o gwmpas.*

**Mary Medlicott, Storïwr ac Awdur**

gwybyddol yn cyfeirio ato fel ‘llif’, ‘cyflwr llesmair hypnogogic’, a/neu ‘gyflyrau meddyliol trothwyol’. Mae cael profiad o gyflyrau o’r fath yn cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â datblygiad deallusol, ac yn cynorthwyo i gaffael gwybodaeth.

**3.3. Agweddau Ymarferol: Ei Roi ar Waith**

Dim ond llwyfan ar gyfer trafodaeth yw’r adroddiad hwn. Ei nod yw cynnig darlun o arferion cyfredol a’u fframio fel bod y posibiliadau ar gyfer cynnal, ehangu neu newid yn eglur. Awgrymiadau yw’r cynigion a restrir yn yr adran flaenorol. Fodd bynnag, byddai’n anghyfrifol gwneud cynigion o’r fath heb gynghori mewn rhyw ffordd sut y gellid eu rhoi ar waith.

Er mwyn gwneud hynny, mae’r adroddiad hwn yn dibynnu ar fodelau arfer da yng Nghymru ac ardaloedd eraill, yn ogystal â phrofiad ac arbenigedd storïwyr, awduron, artistiaid digidol, llyfrgellwyr, archifwyr ac aelodau staff amgueddfa yng Nghymru a’r tu allan. Gellir rhannu’r broses o roi’r cynigion uchod ar waith i’r meysydd canlynol:

- Datblygu’r Hyn Sydd ar Gael Eisoes
- Partneriaethau
- Ffynonellau Allanol

**3.3.(a) Datblygu’r Hyn Sydd ar Gael Eisoes**

Fel y nodwyd, cynhelir llawer o weithgareddau amser stori yng Nghymru eisoes. Mae pob un o’r rhain yn llwyfannau i adeiladu arnynt. Yn gyntaf, mae’n rhaid i uwch reolwyr ymgysylltu ag aelodau staff ac ennyn eu brwdfrydedd fel eu bod eisiau cynnal mwy o weithgareddau amser stori. Lle y ceir diddordeb mewn adrodd straeon eisoes, dylid nodi’r aelodau staff hynny a rhoi cymorth ac anogaeth iddynt. Dylid cynnal hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus i aelodau staff lle’n bosibl.

Gall hyfforddiant ddigwydd mewn tair ffordd:

- Contractio adroddwyr proffesiynol â phrofiad o arwain datblygiad proffesiynol parhaus (ceir llawer o ymarferwyr o’r fath yn byw neu’n gweithio yng Nghymru)
- Adolygu cymheiriaid neu hyfforddiant cydweithredol (hynny yw, aelodau staff profiadol yn cael amser ac adnoddau i gefnogi, addysgu a chynghori cydweithwyr amhrofiadol)

- Defnyddio asiantaethau allanol i hyfforddi a chefnogi aelodau staff, fel cwrs achrededig CyMAL ar adrodd straeon, ac asiantaethau fel CILIP, Beyond the Border, Llenyddiaeth Cymru, Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans, the Reading Agency, yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ac yn y blaen.

Er bod costau'n gysylltiedig â'r holl strategaethau hyn, gellir arbed arian trwy bartneriaethau (t*rafodir hyn yn yr adran ganlynol, 3.3.(b)*).

Gellid tybio y byddai gweithgareddau amser stori ychwanegol, ar gyfer amrywiaeth ehangach o'r cyhoedd, yn arwain at gostau ychwanegol neu fwy o ofynion ar aelodau staff o leiaf. Mae perygl arall sy'n deillio o ehangu gweithgareddau amser stori, yn ymwneud â chynnal ansawdd gwasanaethau. Mae'n arbennig o anodd i aelodau staff, yn enwedig aelodau staff amhrofiadol, ddatblygu'n gyflym gronfa sylweddol ac amrywiol o straeon a deunydd i'w ddarllen ar lafar, a chynllunio gweithgareddau amser stori eraill. Fodd bynnag, gellir goresgyn pob un o'r pryderon hyn.

*Datblygwyd cynllun hyfforddi a chynllunio gennym ym Melffast. Datblygodd pob cangen 5 rhaglen stori. Yna rydych chi'n eu cyfnewid o gwmpas y system. Mae gan y rhan fwyaf o systemau tua 10 o ganghennau, felly pan fydd pob cangen yn datblygu 5 rhaglen, mae gennych chi 50 o raglenni. Mae hynny'n eich cadw i fynd trwy gydol y flwyddyn. Ni fydd pawb yn hoffi'r un straeon, felly anogwch y gwahanol ddiddordebau. Datblygwch raglenni yn seiliedig ar themâu: cŵn, ceffylau, gwyliau, tymhorau, chwaraeon, teganau. Mae cymaint o becynnau yn seiliedig ar themâu y gellir eu paratoi. Gellid gwneud aelodau eraill o'r staff yn ymwybodol o'r rhaglenni hyn, gellir creu citiau sy'n hawdd eu deall fel y gallai rhywun gyflenwi ar y funud olaf. Gellid llunio catalog o adnoddau, ei roi ar-lein, neu gallai pobl gyfarfod a chyfnewid 2 neu 3 gwaith y flwyddyn.*

**Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

Gellir cyflawni llawer mewn cyfnod byr gyda nifer cyfyngedig o staff trwy gynllunio gofalus a hyblyg. Gan ddefnyddio cynlluniau adrodd straeon llwyddiannus y gorffennol, os gall uwch reolwyr nodi aelod brwdfrydig o'r staff ym mhob cangen o lyfrgell neu mewn adran archif neu amgueddfa, gall sawl unigolyn ffurfio grŵp neu dîm. Hyfforddir a chefnogir y 'tîm' hwnnw wedyn (ynghyd â charfanau o awdurdodau eraill, er mwyn creu arbedion maint a chadw'r costau hyfforddi cyn lleied â phosibl). Gallai unigolion ym mhob tîm gydgysylltu pa ddeunydd y mae pob un yn ei ddysgu a'i ddefnyddio.

*Wrth fynd i lyfrgelloedd, mae'r aelodau staff yn glên, yn frwdfrydig ac yn gefnogol bob amser. Maen nhw eisiau i straeon gael eu hadrodd. Maen nhw eisiau ymweliadau gan awduron, ymweliadau gan storïwyr. Maen nhw'n gwneud iddynt weithio ac yn cael effaith fawr. Ond mae wedi dod yn fwy a mwy eglur yn ystod y blynyddoedd diweddar bod prinder adnoddau cynyddol a bod y staff yn cael eu gorweithio mwy.*

**Daniel Morden, Storïwr ac Awdur**

Os bydd deg o aelodau staff yn ffurfio 'tîm amser stori', a bod pob unigolyn yn dysgu pum stori ac yn paratoi pum llyfr lluniau i'w darllen ar lafar (pob unigolyn

yn dewis deg teitl sy'n wahanol i ddewisiadau pobl eraill), byddai gan y 'tîm' 100 o straeon i'w rhannu. Trwy eu hadrodd dro ar ôl tro, byddent yn gallu arbenigo, mireinio eu deunydd a'u sgiliau perfformio. Gellid datblygu sgiliau eraill (er enghraifft, gellid annog y rhai sy'n siarad Cymraeg, Pwyleg, Wrdw neu ieithoedd eraill yn y gymuned i adrodd straeon yn ddwyieithog). Gellid datblygu gweithgareddau atodol (cwisiau, deunyddiau celf a chrefft sy'n gysylltiedig â theitlau penodol).

Trwy symud aelodau timau o gwmpas y deg cangen bob wythnos, byddai gan awdurdod cyfan werth blwyddyn o amseroedd stori caboledig ac amrywiol. O ran amgueddfa neu archif, efallai y byddai'r model hwn yn cynnig tîm o ddim ond 3 neu 4 o adroddwyr, a llai o straeon, ond mae'r un strategaeth yn berthnasol. Y fantais ychwanegol o gydgysylltu cronfeydd straeon a sgiliau yw bod pobl ar gael wrth gefn mewn achosion o salwch a gwyliau.

Nid ei bod yn angenrheidiol cael amser stori wythnosol. Mae llawer o lyfrgelloedd ac amgueddfeydd yn ceisio gwneud hynny, ond mae'r rhain yn anodd eu cynnal o ran ansawdd; mae'n bosibl y gellid ei gorwneud hi. Un ffordd well o'i reoli fyddai targedu tymhorau neu gyfnodau penodol ar gyfer amseroedd stori, a hyrwyddo hyn ymhlith defnyddwyr. O ran amseroedd stori i'r rhai dan bump oed, mae'n rhaid cyfaddef bod llawer o rieni a gofalwyr wedi dod i ddisgwyl, a hyd yn oed mynnu, cyfarfodydd wythnosol, gan eu defnyddio at ddibenion cymdeithasol llawn cymaint ag ar gyfer clywed straeon. I'w cefnogi, gallai sefydliadau bwysleisio'r fantais o gael seibiannau (ond gwneud yn siŵr y defnyddir y seibiannau hynny gan aelodau staff i wella ac ychwanegu deunydd at y gweithgareddau amser stori). Yn ystod y cyfnodau byr rhwng amseroedd stori, gellid

> *A bod yn berffaith onest, mae gan rai llyfrgelloedd sesiynau wythnosol diflas lle gallai fod gennych 5 un wythnos, 20 yr wythnos wedyn, 0 yr wythnos wedyn. Mae'n llawer gwell cymryd cam yn ôl a gofyn "Ai dyma'r ffordd orau? A fyddai'n well i mi gyfeirio fy ymdrechion at, dywedwch, chwe sesiwn adrodd straeon gwirioneddol dda y flwyddyn fel y gallwn hyrwyddo a chael cynulleidfaoedd da?" Gallent fod yn dymhorol ac yn thematig, wedi eu targedu, yn hytrach na chael model ein bod yn cynnal amseroedd stori fel llyfrgell i grŵp oedran penodol bob diwrnod, bob wythnos, nad ydynt o anghenraid yn gweithio.*
>
> *Un o'r problemau yw nad yw cynllunwyr llyfrgelloedd yn cael yr amseriad yn iawn. Fel adroddwyr, rydych chi a minnau wedi cynnal sesiynau wedi'u trefnu fel na fyddai modd i'r rhedwr cyflymaf yn y byd hyd yn oed ollwng y plant yn yr ysgol a chyrraedd y llyfrgell, neu eu casglu o'r ysgol a'u cael nhw yno. Erbyn iddyn nhw fynd adref, cael byrbryd, gwthio ei chwaer yn y goets, mae'n 6 ac yn amser swper. Cynhaliwch sesiwn straeon amser gwely! Rwyf wedi gwneud y rhain, mae pawb yn dod mewn pyjamas, mae'n hyfryd, rhwng 7 ac 8 o'r gloch. Maen nhw'n syrthio i gysgu, bron, ac mae'r oedolion yn eu cario adref. Mae pawb eisiau dod gan ei fod yn wahanol, yn arbennig.*
>
> **Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

annog rhieni a gofalwyr i ddatblygu eu harferion eu hunain; gellid cynnig man iddynt gyfarfod a chymdeithasu, a darparu gweithdai a hyfforddiant iddynt ar gyfer adrodd straeon teuluol. Unwaith eto, ceir cynsail ar gyfer hyn yng Nghymru ac mae llawer o adroddwyr proffesiynol wedi gweithio gydag AALlau, elusennau, llyfrgelloedd a/neu asiantaethau eraill i ddatblygu sgiliau adrodd straeon ymhlith rhieni, teidiau a neiniau a gofalwyr.

Mae angen cefnogaeth holl aelodau'r staff ar gyfer arferion amser stori llwyddiannus. Efallai na fydd nifer o aelodau staff eisiau adrodd straeon neu efallai na fyddant yn ystyried bod ymgysylltu â phlant neu oedolion fel hyn yn un o brif amcanion eu swydd. Ac eto maent i gyd yn cyfrannu. Er nad yw pob un yn arwain amser stori, mae'n rhaid i aelodau staff eraill ddarparu'r gwasanaethau parhaus. Cydnabyddir gwasanaethau lleol am eu hyblygrwydd a'u gwaith tîm da, ac mae'r pethau hyn yn hanfodol ar gyfer datblygu gweithgareddau amser stori yn llwyddiannus. Mae angen annog dealltwriaeth bod hyd yn oed y rhai nad ydynt yn arwain amseroedd stori yn dal i gefnogi digwyddiadau o'r fath. Gyda gwybodaeth am y gwasanaethau hyn, gall pob aelod o staff hyrwyddo digwyddiadau'n frwdfrydig, a datblygu cyfranogiad llawnach gyda'r gymuned. Gobeithir y bydd y dystiolaeth a'r syniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i reolwyr er mwyn iddynt allu ennyn brwdfrydedd timau fel hyn.

Yn yr un modd, efallai y bydd aelodau staff eraill yn well am hyrwyddo a hysbysebu gweithgareddau amser stori, rhywbeth sy'n hanfodol i'w llwyddiant. Mae rhaglenni o'r fath yn arbennig o bwysig i deuluoedd a phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd. Mae llawer o awdurdodau yn defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol newydd a chyfryngau lleol, ac yn dal i gynnal systemau effeithiol o daflenni, hyrwyddo ar dafod leferydd a hysbysiadau yn y siopau lleol. Un o'r ffyrdd mwyaf llwyddiannus o recriwtio cynulleidfaoedd o hyd yw

*Nid oes diben i lyfrgellwyr drefnu digwyddiadau ac yna eistedd yn ôl a dweud 'Nid oes neb byth yn dod!' Mae'n rhaid iddyn nhw fod yn rhagweithiol o ran denu pobl i mewn. Rhwydweithio yw'r peth pwysicaf. Dylai fod gennych ffigurau ar eich holl gylchoedd chwarae, grwpiau rhieni a phlant bach, yr holl grwpiau Cychwyn Cadarn, eich holl ganolfannau plant a chanolfannau teuluol. Dylai fod gennych wybodaeth am grwpiau pensiynwyr ac Age Concern, hefyd, ar gyfer unrhyw adrodd straeon i oedolion yr hoffech ei wneud. Cysylltiadau ar gyfer grwpiau oedolion â diddordeb posibl hefyd - grwpiau llyfrau, nosweithiau barddoniaeth a nosweithiau digrifwyr yn yr ardal. Mae'n rhaid i chi gael y data hwnnw. Yr hyn sy'n atal llawer o bobl yw diffyg cyswllt uniongyrchol. Roedd aelodau staff yn barod i wneud ymweliadau personol ond mae pobl yn cael hynny'n anoddach oherwydd prinder staff. Ond mae'n rhaid i chi fynd allan ar ymweliadau personol, a gwybod pwy i'w hysbysu.*

**Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

ymweliadau gan aelodau staff amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau ag ysgolion lleol, canolfannau plentyndod cynnar, canolfannau galw heibio, canolfannau hamdden / chwaraeon / adloniant a lleoliadau tebyg i siarad â'r cynulleidfaoedd targed a'u hannog i ddod i ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Gellid ailadrodd neu addasu llawer o fodelau llwyddiannus blaenorol mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru. Ceir rhestr o weithgareddau, cynlluniau, prosiectau a rhaglenni â disgrifiadau cryno yn Atodiad II, a sylwadau gan rai o'u hymarferwyr. Efallai yr hoffai CyMAL ac uwch reolwyr mewn sefydliadau a llyfryddiaethol sy'n cael eu curadu fanteisio arnynt.

**3.3.(b) Partneriaethau**

Elfen hanfodol arall ar gyfer ehangu gweithgareddau amser stori yw partneriaethau. Gall y rhain fod yn bartneriaethau o fewn neu rhwng awdurdodau, gyda grwpiau o lyfrgelloedd, amgueddfeydd a/neu archifau yn cydweithio. Gall partneriaethau fod gyda sefydliadau, asiantaethau ac unigolion eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg neu gysylltiedig, neu sy'n rhannu athroniaeth a diddordeb yn nodau ac amcanion y sefydliad. Yn ogystal â chaniatáu ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth, gall partneriaethau helpu gyda chodi arian neu reoli costau hefyd. Er enghraifft, mae amgueddfeydd yng Nghymru yn darparu digwyddiadau a phrosiectau adrodd straeon mewn ffyrdd amrywiol ar hyn o bryd. Mae rhai yn hyfforddi aelodau staff i adrodd y straeon. Mae nifer sylweddol yn cyflogi storïwyr proffesiynol, pan fo modd, i ddarparu perfformiadau neu brosiectau adrodd straeon yn eu hamgueddfeydd, neu i hyfforddi eu haelodau staff i wneud hynny. Ceir potensial i gydgysylltu â llyfrgelloedd lleol wrth drefnu sesiynau gydag adroddwyr proffesiynol neu artistiaid naratif eraill, neu i ddatblygu sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau staff amgueddfeydd a llyfrgelloedd gyda'i gilydd.

*Mae'r Amgueddfa Archaeoleg yn symud i Sain. Ffagan ac mae'r staff yn frwdfrydig iawn—mae'r newid hwn yn rhoi cyfle enfawr. Sut mae arddangos archaeoleg gan wneud mwy na dim ond ei roi mewn blwch? Neu dechnoleg newydd a goleuadau llwyfan, dim ond math arall o flwch ydy hynny. Maen nhw am ddatblygu'r profiad adrodd straeon sydd ganddynt.*

**Michael Harvey, Storïwr**

Mae *Cadw*, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, hefyd yn cyflogi storïwyr i berfformio ar ei safleoedd yn rheolaidd, neu i dreulio cyfnod

*Mae gan aelodau staff Cadw ddiddordeb mewn adrodd straeon hefyd, dylai fod hyfforddiant ar eu cyfer. Rwy'n adrodd straeon ar safle Cadw, pentref glowyr o'r 1920au. Rwy'n adrodd straeon i'r rhai sy'n ymweld â'r amgueddfa, ond rwyf hefyd yn gwrando ar straeon pobl, rwy'n cael y rhai sy'n ymweld i adrodd eu straeon nhw.*

**Cath Little, Storïwr a Chantores**

preswyl ar safle, gan berfformio a hefyd annog ymwelwyr i rannu straeon, ac i gael storïwyr proffesiynol i hyfforddi eu haelodau staff mewn adrodd straeon. Ceir rhywfaint o orgyffwrdd rhwng gweithgareddau a phersonél eisoes (yn enwedig o ran cyflogi storïwyr proffesiynol rhyddgyfrannol sy'n cael eu cyflogi). Byddai'n sicr yn gwneud synnwyr i lyfrgelloedd, amgueddfeydd a *Cadw* gydgysylltu ymdrechion. Gallai sawl amgueddfa ynghyd â *Cadw* ariannu cwrs adrodd straeon i aelodau staff ar y cyd, a gallai unigolion o'r ddau sector gymryd rhan.

Yn yr un modd, mae Llenyddiaeth Cymru yn aml yn bartner gyda llyfrgelloedd ac awdurdodau addysg, gan ddarparu cyllid i leoli storïwr neu awdur mewn llyfrgell y mae plant ysgol yn ymweld â hi. Blaenoriaeth Llenyddiaeth Cymru ar hyn o bryd yw datblygu ysgrifennu creadigol gan blant a phobl ifanc, ac felly mae'n mynnu bod elfen ysgrifenedig i unrhyw ymweliad. Ond byddai o fudd i'r holl bartïon gydweithio'n agos, fel bod storïwyr, awduron, beirdd, artistiaid digidol, dramodwyr, pypedwyr a darlunwyr yn ategu gwaith ei gilydd, mewn modd strategol, yn y sectorau ysgol, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd.

Cyfrifoldeb uwch reolwyr yn y sefydliadau hyn, neu yn eu hawdurdodau lleol, ynghyd ag aelodau staff CyMAL, fyddai dadlau'r achos o blaid pwysigrwydd y prosesau siarad a gwrando sy'n rhan annatod o ddatblygu arferion ysgrifennu a darllen. Os na cheir amrywiaeth iach o brofiadau iaith lafar gyfoethog, a hynny'n gyson, mae tystiolaeth yn awgrymu y gellid arwain at ddiffyg o ran geirfa, strwythurau brawddegau a gramadegau naratif, sy'n gallu cyfyngu ar ysgrifennu creadigol ystyrlon. Waeth beth yw'r cyfrwng – ysgrifennu ffuglen, ffaith neu farddoniaeth, creu drama a ffilm, neu adrodd straeon digidol – mae'n rhaid siarad ar ryw adeg yn ystod yr ymdrechion creadigol hyn: hynny yw rhaid gallu adrodd a chydnabod a thrafod naratifau.

Mae partneriaid defnyddiol eraill yng Nghymru o ran datblygu gweithgareddau amser stori yn cynnwys Beyond the Border, StoryWorks a Chanolfan George Ewart Evans. Mae pob un yn cynnig arbenigedd ac yn aml yn trefnu ymddangosiadau gan artistiaid ac academyddion perthnasol. Maen nhw weithiau mewn sefyllfa i helpu gyda chyllid, neu i fod yn bartneriaid wrth ymgeisio am gyllid na fyddai ar gael i adran unigol mewn llywodraeth leol.

Ceir nifer o asiantaethau eraill y gallai'r sectorau curadu a llyfryddiaethol weithio â nhw. Mae llawer yn gwneud hynny eisoes: mae'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn prynu'r *Summer Reading Challenge* a ddatblygwyd ac a ddosberthir gan yr Asiantaeth Ddarllen. Mae eraill yn defnyddio gwasanaethau CyMAL, CILIP, y Grwpiau Llyfrgelloedd Ieuenctid, Gymdeithas Llyfrgelloedd Ysgolion a'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol ar gyfer hyfforddiant, darparu deunyddiau neu adnoddau, gwerthusiadau ac asesiadau allanol a/neu gyngor cyffredinol a phenodol. Rhestrir y rhain yn Atodiad II.

Yn olaf, ceir dwy ffynhonnell arall o bartneriaethau ffrwythlon a phwysig ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Y gyntaf yw storïwyr, awduron, beirdd a storïwyr digidol rhyddgyfrannol proffesiynol ac artistiaid eraill sy'n arbenigo mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amser stori, fel pypedwaith, drama, ffilm a darlunio. Y sector gwirfoddol yw'r llall. I raddau, fodd bynnag, gall y rhain (a llawer o'r asiantaethau a restrir uchod) arwain at ddefnyddio ffynonellau allanol, neu gellid eu hystyried yn ffynonellau allanol. Dyma'r trydydd llwybr ar gyfer gwneud yr awgrymiadau yn yr adroddiad hwn yn ymarferol.

**3.3.(c) Ffynonellau Allanol**

Mewn llawer o ffyrdd, roedd amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yn dibynnu ar ffynonellau allanol i ddarparu gwasanaethau penodol, ymhell cyn i'r peth gael ei ystyried yn y termau hyny. Ers diwrnodau cynnar llyfrgelloedd cyhoeddus i blant, mae aelodau staff wedi defnyddio gweithwyr proffesiynol sy'n arbenigo mewn adrodd straeon a darllen ar lafar yn fedrus i hyfforddi aelodau staff neu ddarparu gweithgareddau amser stori eu hunain. Mae hyn yn parhau i ddigwydd, yn enwedig yng Nghymru â'i sîn adrodd straeon lewyrchus a gweithredol, sy'n cynnwys nifer o storïwyr proffesiynol, artistiaid digidol, awduron a pherfformwyr.

Mae partneriaethau rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus, neu sicrhau ffynonellau allanol, wedi cynnig ffordd boblogaidd i asiantaethau llywodraeth leol a darparwyr gwasanaeth gydweithio

*Nododd nifer o adroddwyr ac awduron proffesiynol a gyfwelwyd eu bod wedi cael eu contractio fwyfwy yn ddiweddar gan asiantaethau a sefydliadau sy'n tendro i ddarparu gwasanaethau i awdurdodau lleol. Mae'r rhain eisiau cyflogi'r artistiaid i adrodd straeon - neu dim ond i'w holi er mwyn cael eu harbenigedd, neu i ddefnyddio eu henwau oherwydd eu henwau da, yn enwedig os ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Ond mae'n eglur nad yw'r wybodaeth, y sgiliau na'r ddawn gan nifer o'r busnesau hyn sy'n ennill contractau neu'n ceisio amdanynt. Ceir pryder ynglŷn â chymhwysedd; ceir potensial y bydd gormod o bobl yn y canol a fyddai'n cynyddu costau ac yn darparu gwasanaeth gwaeth. Ac eto nid yw'r broses dendro yn gweithio'n dda i artistiaid hunangyflogedig unigol. Gall y defnydd cynyddol o broses dendro, a'r ffordd y'i rhoddir ar waith, fod yn broblem i adroddwyr rhyddgyfrannol mewn llawer o ffyrdd.*

**Sylwadau wedi'u crynhoi, Patrick Ryan**

i ddarparu llawer o agweddau ar fywyd modern. Er bod rhai llunwyr polisi yn dadlau o blaid defnyddio mwy ar y sector preifat, '…mae angen ail-ganolbwyntio arferion ar ddatblygu nodweddion unigryw'r darpariaeth gwasanaethau yn y sector cyhoeddus, yn hytrach nag ehangu'r byd sector preifat o farchnadoedd a chontractau' (Muddiman). O ran gweithgareddau amser stori, mae sefydliadau yng Nghymru dros y blynyddoedd wedi dilyn y safbwynt hwn a argymhellwyd, yn bennaf trwy reoli trefniadau gyda phobl ar wahân i'r gweithwyr cyflogedig trwy ddethol doeth yn seiliedig ar wybodaeth leol ac argymhellion dibynadwy. Mewn geiriau eraill, trwy ddatblygu'r hyn sy'n llwyddiannus ac sy'n digwydd eisoes a thrwy bartneriaethau lleol, fel yr amlinellwyd eisoes yn y ddwy adran flaenorol.

Bu achosion mewn meysydd eraill a gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig lle nad yw ffynonellau allanol wedi cynnig gwerth am arian. Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu mai'r ffordd orau o drefnu llawer o ffynonellau allanol ar gyfer gweithgareddau amser stori yw ar raddfa fach, leol.

Manteision defnyddio storïwyr ac artistiaid naratif eraill lleol, neu asiantaethau lleol fel Beyond the Border, Canolfan George Ewart Evans, Llenyddiaeth Cymru, StoryWorks ac eraill sy'n dod ag adroddwyr ac arbenigwyr tebyg i mewn, yw bod hyn yn golygu dibynnu ar arferion da a phartneriaethau sefydledig sy'n gallu darparu gwybodaeth ddibynadwy, perfformiad cyson a chostau rhesymol. Agwedd arall ar ffynonellau allanol o fewn rhwydweithiau sefydledig yw'r defnydd cynyddol o artistiaid proffesiynol rhyddgyfrannol, a defnydd cynyddol o wirfoddolwyr. Unwaith eto, rhoddir enghreifftiau yn Atodiad II.

*Gwirfoddolwyr? Yn sicr, unrhyw un, mae pobl yn wych. Waeth a ydych chi'n sôn am lyfrgelloedd, archifau, orielau neu amgueddfeydd. Mae rhai'n dweud eich bod yn cymryd arian o boced storïwyr proffesiynol. Ond â'r ewyllys gorau yn y byd, nid ydych chi'n mynd i allu fforddio dod â'r bobl hyn i mewn bob amser. Felly hyfforddwch wirfoddolwyr a'u cael nhw i'w wneud. Yn amlwg, rhaid i chi gael y caniatâd a'r archwiliadau a chynnig cefnogaeth trwy oruchwyliaeth a hyfforddiant. Gall a dylai adroddwyr proffesiynol gymryd rhan yn yr hyfforddiant, mae hynny'n iawn, yn hanfodol hyd yn oed. Ond byddwn yn dewis rhieni, teidiau a neiniau. Mae adrodd straeon trwy gyfrwng eich mamiaith yn bwysig hefyd a dylid ei annog. Mae'n wych cael sefyllfaoedd lle mae gennych chi straeon gan fam o Wlad Pwyl, mam o Loegr, mam o Bacistan, mam o Gymru, a gall ychwanegu cymaint at yr amseroedd stori hyfryd y gallwch eu cynnal y dyddiau yma.*

**Liz Weir, Storïwr a Llyfrgellydd**

Mae storïwyr proffesiynol yn diweddaru ac yn ehangu eu cronfeydd o straeon yn rheolaidd, gan ddibynnu ar gasgliadau llyfrgelloedd, archifau ac amgueddfeydd fel ffynonellau ac

*Defnyddiodd un AALl gynllun o America, 'SPELLBINDERS'. Cefais fy nghyflogi i hyfforddi pobl a oedd wedi ymddeol i adrodd straeon a'u darllen ar lafar i blant. Daeth y cyllid i ben felly nid yw'r hyfforddiant yn digwydd bellach, ond mae gwirfoddolwyr yn parhau i wneud hyn, gan fynd i ysgolion i adrodd a darllen. Gellid dod ag ef yn ôl a'i ehangu.*

**Cath Little, Storïwr a Chantores**

ysbrydoliaeth. Yr artistiaid sy'n talu am waith ymchwil o'r fath gan mai'n anaml y mae ffioedd neu gyllid datblygu ar gael ar gyfer ymchwil, ymarfer a datblygiad. Efallai y bydd amgueddfeydd ac archifau yn cyflogi storïwyr ar gyfer gwaith ymchwil, gan eu talu i hyfforddi aelodau staff amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol i ddefnyddio straeon y maent yn dod o hyd iddynt, gan sicrhau hefyd bod deunydd yn barod gan adroddwyr proffesiynol ar gyfer digwyddiadau arbennig.

Mae StoryWorks, Cipolwg ar Gymru a phrosiectau adrodd straeon digidol eraill wedi datblygu llawer o storïwyr digidol lleol y gallai llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau eu recriwtio os oes ganddynt ddiddordeb mewn cynnwys y cyhoedd mewn mwy o weithgareddau adrodd straeon digidol. Gyda chefnogaeth a hyfforddiant cychwynnol gan asiantaethau adrodd straeon digidol, gallai'r gwirfoddolwyr neu'r gweithwyr cyflogedig rhan-amser hyn ddarparu hyfforddiant personol anffurfiol, yn debyg i'r rhaglenni 'cyfeillion cyfrifiadura' y mae llawer o awdurdodau llyfrgell yn eu cynnal gyda gwirfoddolwyr, i helpu pobl hŷn ac eraill sy'n newydd i wasanaethau cyfrifiadurol.

Mae'r potensial ar gyfer partneriaethau yn ddi-ben-draw, boed rhwng asiantaethau llywodraeth leol eraill, awdurdodau addysg, gwirfoddolwyr unigol a grwpiau gwirfoddolwyr lleol, ac artistiaid ac arbenigwyr rhyddgyfrannol, neu sefydliadau dielw neu fasnachol mawr. Er y bydd costau ynghlwm wrth ddatblygu unrhyw raglenni newydd neu hyfforddiant ychwanegol, nid oes angen i'r rhain fod yn fawr, yn enwedig os bydd cyrff perthnasol yn gweithio'n lleol ac mewn partneriaeth agos, ac yn dechrau trwy ddatblygu'r arferion sydd ar gael eisoes ac sy'n gweithio'n dda.

## 4.0. Sylwadau i Gloi

Dyfynnodd Cofnod y Gymdeithas Llyfrgelloedd ym 1969 y ddihareb: '*Rhaid cropian cyn cerdded*'. Mae'r awgrym hwn, i ddysgu agweddau sylfaenol unrhyw bwnc yn gyntaf, yn synnwyr cyffredin. Mae Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd yng Nghymru ymhell y tu hwnt i'r cam cropian o safbwynt amseroedd stori. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu eu bod yn dilyn eu trwynau'n hamddenol, gyda gweithgareddau amser stori sydd wedi eu hen sefydlu. Efallai mai

dyma'r amser i ychwanegu rhywfaint o egni ac ysbrydoliaeth, a'u hannog i frasgamu'n rymus â mwy o bwrpas, yn seiliedig ar y wybodaeth, y profiad, y doniau a'r adnoddau sydd ar gael ledled Cymru.

**ATODIAD I Rhan (A) Sampl o Gwestiynau'r Arolwg**

**1. Pa fath o sefydliad ydych chi'n gweithio ynddo?**

Amgueddfa

Archif

Llyfrgell

**2. Beth yw'r disgrifiad gorau o'r ardal y mae eich amgueddfa, archif neu lyfrgell yn ei gwasanaethu?**

Trefol (ardal fetropolitan fawr)

Trefol (maestref neu dref marchnad)

Cymysgedd ethnig sylweddol

Siaradwyr Saesneg yn bennaf

Siaradwyr Cymraeg yn bennaf

Cymysgedd gyfartal o siaradwyr Cymraeg a Saesneg

**3. Pa mor aml mae eich sefydliad yn cynnal gweithgareddau amser stori?**

Yn aml (e.e. bob dydd neu unwaith yr wythnos o leiaf, yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn)

Yn rheolaidd (e.e. ar adegau penodol o'r flwyddyn, fel hanner tymor a gwyliau'r haf)

Yn anaml (e.e. dim ond ar achlysuron arbennig, fel Diwrnod y Llyfr neu Ddydd Gŵyl Dewi)

Byth

Mae croeso i chi roi gwybodaeth yn disgrifio'r mathau o weithgareddau yma

**4. Pa fath o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn eich amseroedd stori?**
**(Dewisiadau: Byth, Weithiau, Yn rheolaidd, Gan fwyaf)**

Straeon Llafar (a adroddir o'r cof)

Hwiangerddi, gemau bysedd, gemau canu/symud

Gemau Darllen yr Haf

Straeon Llenyddol (a adroddir neu a ddarllenir ar lafar)

Hanesion, chwedlau, hanes llafar, bywgraffiad (a adroddir neu a ddarllenir ar lafar)

Cwisiau bwrdd, cwisiau gwybodaeth gyffedinol

Llyfrau lluniau (a ddarllenir ar lafar)

Straeon Digidol, Fideos/Ffilmiau, Gemau Cyfrifiadur (â naratifau)

Gweithgareddau Celf a Chrefft (yn ymwneud â llyfr neu naratif llafar)

**5. Pa iaith ydych chi'n ei siarad yn ystod amseroedd stori fel rheol?**

Cymraeg a Saesneg

Saesneg

Arall (nodwch)

**6. Pwy sy'n darparu'r gweithgareddau amser stori?**
**(Dewisiadau: Byth, Weithiau, Yn rheolaidd, Gan fwyaf)**

Llyfrgellydd

Cynorthwy-ydd Llyfrgell

Llyfrgellydd Plant

Llyfrgellydd Ysgolion

Curadur Amgueddfa

Swyddog Addysg Amgueddfa

Swyddog Cymorth Llythrennedd

Tywysydd Amgueddfa

Cynorthwy-ydd Amgueddfa

Archifydd

Swyddog Addysg Archif

Cynorthwy-ydd Archif

Gwirfoddolwr

Storïwr Proffesiynol Rhyddgyfrannol

Awdur/Bardd Proffesiynol Rhyddgyfrannol

Cwmni Pypedau/Drama Proffesiynol Rhyddgyfrannol

Artist Gweledol, Cerddor, Clown neu Swynwr Proffesiynol Rhyddgyfrannol

**7. Pa grwpiau oedran mae eich gweithgareddau amser stori yn eu gwasanaethu? (Dewisiadau: Byth, Weithiau, Yn rheolaidd, Gan fwyaf)**

Dan bump oed

5-7 oed

8-11 oed

11-15 oed

16-18 oed

Oedolion (18+)

Pobl Hŷn (60+)

**8. Ar gyfartaledd, faint sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd amser stori fel rheol?**

Tua deg neu lai

Rhwng deg ac ugain

Tua ugain i ddeg ar hugain

Tua deg ar hugain i hanner cant

Dros hanner cant

**9. Pam rydych chi'n darparu gweithgareddau amser stori?**
**(Dewisiadau i'w ticio: Ddim yn bwysig o gwbl. Gweddol bwysig. Pwysig iawn. Hanfodol.)**

Hyrwyddo ein gwasanaethau.

Hyrwyddo ein casgliadau/arddangosfeydd

Cynyddu nifer ein hymwelwyr/defnyddwyr

Datblygu a/neu gefnogi llythrennedd

Hybu darllen ar gyfer pleser

Cynorthwyo i ddysgu ieithoedd

Fel gwasanaeth cymdeithasol

Cynorthwyo i ddeall a gwerthfawrogi arddangosion/casgliadau

Cefnogi mentrau traws-gymunedol/amlddiwylliannol

Oherwydd ein bod yn mwynhau cynnal gweithgareddau amser stori

**10. Mae croeso i chi ychwanegu yma unrhyw sylwadau ynglŷn ag arferion amser stori nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cwestiynau blaenorol.**

**ATODIAD I Rhan (B) Dadansoddiad o'r Ymatebion**

**1. Pa fath o sefydliad ydych chi'n gweithio ynddo?**

| | |
|---|---|
| Amgueddfa | 17.8% |
| Archif | 6.8% |
| Llyfrgell | 75.4% |

**2. Beth yw'r disgrifiad gorau o'r ardal y mae eich amgueddfa, archif neu lyfrgell yn ei gwasanaethu?**

| | |
|---|---|
| Trefol (ardal fetropolitan fawr) | 34.2% |
| Trefol (maestref neu dref marchnad) | 12.8% |
| Cymysgedd ethnig sylweddol | 55.6% |
| Siaradwyr Saesneg yn bennaf | 66.8% |
| Siaradwyr Cymraeg yn bennaf | 5.1% |
| Cymysgedd gyfartal o siaradwyr Cymraeg a Saesneg | 17.9% |

**3. Pa mor aml mae eich sefydliad yn cynnal gweithgareddau amser stori?**

| | |
|---|---|
| Yn aml (e.e. bob dydd neu unwaith yr wythnos o leiaf, yn ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn) | 51.3% |
| Yn rheolaidd (e.e. ar adegau penodol o'r flwyddyn, fel hanner tymor a gwyliau'r haf) | 23.9% |
| Yn anaml (e.e. dim ond ar achlysuron arbennig, fel Diwrnod y Llyfr neu Ddydd Gŵyl Dewi) | 15.4% |
| Byth | 9.4% |

**4. Pa fath o weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn eich amseroedd stori? (Dewisiadau: Byth, Weithiau, Yn rheolaidd, Gan fwyaf)**

| | Byth | Weithiau | Yn rheolaidd | Gan fwyaf |
|---|---|---|---|---|
| Straeon Llafar | 38.2% | 53.9% | 4.5% | 3.4% |
| Hwiangerddi, gemau bysedd, gemau canu/symud | 8.3% | 16.7% | 50% | 25% |
| Clybiau llyfrau neu grwpiau darllen | 39% | 20.7% | 34.1% | 6.1% |
| Gemau Darllen yr Haf | 19.8% | 18.5% | 53.1% | 8.6% |
| Straeon Llenyddol | 25% | 29.8% | 29.8% | 15.5% |
| Hanesion, chwedlau, hanes llafar, bywgraffiad | 41.2% | 51.8% | 5.9% | 1.2% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwisiau bwrdd, cwisiau gwybodaeth gyffredinol | 44.6% | 47.3% | 6.8% | 1.4% |
| Llyfrau lluniau | 10.8% | 9.7% | 37.6% | 41.9% |
| Straeon Digidol, Fideos/Ffilmiau, Gemau Cyfrifiadur | 76.9% | 14.1% | 6.4% | 2.6% |
| Gweithgareddau Celf a Chrefft | 9.6% | 35.1% | 33% | 22.3% |

## 5. Pa iaith ydych chi'n ei siarad yn ystod amseroedd stori fel rheol?

| | |
|---|---|
| Cymraeg | 0.9% |
| Cymraeg a Saesneg | 34.9% |
| Saesneg | 64.2% |
| Arall | 0 |

## 6. Pwy sy'n darparu'r gweithgareddau amser stori? (Dewisiadau: Byth, Weithiau, Yn rheolaidd, Gan fwyaf)

| | Byth | Weithiau | Yn rheolaidd | Gan fwyaf |
|---|---|---|---|---|
| Llyfrgellydd | 18.8% | 41.3% | 25% | 15% |
| Cynorthwy-ydd Llyfrgell | 15.1% | 10.5% | 36% | 38.4% |
| Llyfrgellydd Plant | 44.1% | 18.6% | 16.9% | 20.3% |
| Llyfrgellydd Ysgolion | 68.8% | 6.3% | 12.5% | 12.5% |
| Curadur Amgueddfa | 82.6% | 17.4% | 0 | 0 |
| Swyddog Addysg Amgueddfa | 72.3% | 19.1% | 8.5% | 0 |
| Swyddog Cymorth Llythrennedd | 82.2% | 13.3% | 4.4% | 0 |
| Tywysydd Amgueddfa | 95.2% | 2.4% | 0 | 0 |
| Cynorthwy-ydd Amgueddfa | 84.8% | 10.9% | 4.3% | 0 |
| Archifydd | 95.1% | 4.9% | 0 | 0 |
| Swyddog Addysg Archif | 100% | 0 | 0 | 0 |
| Cynorthwy-ydd Archif | 92.7% | 7.3% | 0 | 0 |
| Gwirfoddolwr | 58.5% | 24.5% | 11.3% | 5.7% |
| Storïwr Proffesiynol Rhyddgyfrannol | 19.7% | 72.7% | 4.5% | 3.0% |
| Awdur/Bardd Proffesiynol Rhyddgyfrannol | 24.2% | 74.2% | 0 | 1.6% |
| Cwmni Pypedau/Drama Proffesiynol Rhyddgyfrannol | 46.4% | 53.6% | 0 | 0 |
| Artist Gweledol, Cerddor, Clown neu Swynwr Proffesiynol Rhyddgyfrannol | 43.1% | 54.9% | 2% | 0 |

## 7. Pa grwpiau oedran mae eich gweithgareddau amser stori yn eu gwasanaethu?

| | Byth | Weithiau | Yn rheolaidd | Gan fwyaf |
|---|---|---|---|---|
| Dan bump oed | 6.3% | 9.4% | 37.5% | 46.9% |
| 5-7 oed | 6.1% | 31.3% | 44.4% | 18.2% |
| 8-11 oed | 6.3% | 45.8% | 37.5% | 10.4% |
| 11-15 oed | 47.1% | 44.1% | 8.6% | 0 |
| 16-18 oed | 77% | 19.7% | 3.3 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion (+18) | 56.3% | 28.1% | 12.5% | 3.1% |
| Pobl Hŷn (60+) | 54% | 30.2% | 14.3% | 1.6% |
| Pob oedran (grwpiau teuluol, grwpiau rhyng-genhedlaeth | 32.3% | 46.8% | 17.7% | 32% |

**8. Ar gyfartaledd, faint sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd amser stori fel rheol?**

| | |
|---|---|
| Tua deg neu lai | 24.3% |
| Rhwng deg ac ugain | 48.5% |
| Tua ugain i ddeg ar hugain | 24.3% |
| Tua deg ar hugain i hanner cant | 1.9% |
| Dros hanner cant | 1% |

**9. Pam rydych chi'n darparu gweithgareddau amser stori?**

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Gweddol bwysig | Pwysig iawn | Hanfodol |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo ein gwasanaethau. | 2.9% | 12.5% | 35.6% | 49% |
| Hyrwyddo ein casgliadau/arddangosfeydd | 7.7% | 27.% | 40.7% | 24.2% |
| Cynyddu nifer ein hymwelwyr/defnyddwyr | 1.0% | 13.7% | 471.% | 38.2% |
| Datblygu a/neu gefnogi llythrennedd | 7.8% | 8.7% | 28.2% | 55.3% |
| Hybu darllen ar gyfer pleser | 8.2% | 13.4% | 36.2% | 42.3% |
| Cynorthwyo i ddysgu ieithoedd | 8.2% | 13.4% | 36.1% | 42.3% |
| Fel gwasanaeth cymdeithasol | 15.7% | 27% | 41.6% | 15.7% |
| Cynorthwyo i ddeall a gwerthfawrogi arddangosion/casgliadau | 16.7% | 42.9% | 32.1% | 8.3% |
| Cefnogi mentrau traws-gymunedol/amlddiwylliannol | 17.9% | 35.7% | 38.1% | 8.3% |
| Oherwydd ein bod yn mwynhau cynnal gweithgareddau amser stori | 6.3% | 26% | 41.7% | 26% |

**10. Mae croeso i chi ychwanegu yma unrhyw sylwadau ynglŷn ag arferion amser stori nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cwestiynau blaenorol.**

*Mae'r sylwadau wedi eu cynnwys yn nodiadau ymylol y prif adroddiad ac yn Atodiad II*

**ATODIAD II (A) Awgrymiadau ac Argymhellion**

*Sylwadau, awgrymiadau, arsylwadau a beirniadaethau a gasglwyd o gyfweliadau gyda gwahanol storïwyr, awduron ac aelodau staff amgueddfeydd a llyfrgelloedd.*

***Datblygu Cynulleidfaoedd***

Mae angen i chi gynnal digwyddiadau a gwahodd grwpiau penodol i gychwyn. Gwahoddwch nhw er mwyn ennyn diddordeb. Nid ydynt yn gwybod beth rydych chi'n ei wneud. Nid ydynt yn mynd i ddod ar eu liwt eu hunain. Felly weithiau mae'n rhaid i chi sicrhau cynulleidfa, yn hytrach na chynllunio digwyddiad a gobeithio y bydd rhywun yn dod. Mae angen i chi wahodd rhywun penodol, trwy ddangos iddynt pa mor bwysig yw hi.

Gweithiwch gyda'r cyfryngau lleol. Mae rhwydweithio cymdeithasol yn un ffordd. Ond mae eich papur newydd lleol am ddim yn dal i fod yn ddefnyddiol, y taflenni newyddion am ddim. Wedi dweud hynny, mae'r dyddiau pan allai'r gangen leol gysylltu â'u papurau newydd lleol a hysbysebu digwyddiadau wedi hen ddiflannu. Y drefn bron bob amser bellach yw bod yn rhaid i'r mathau hyn o gyhoeddiadau fynd trwy swyddfa ganolog, rhywun sy'n gyfrifol yn benodol am gysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddiadau i'r wasg. Gall hyn weithio yn eu herbyn, oherwydd waeth pa mor dda yw'r unigolyn hwnnw, gall diffyg amser, diffyg gwybodaeth leol benodol, olygu y gellir colli llawer o ddarpar gynulleidfaoedd. Mae cysylltiadau lleol yn bwysig iawn.

Mae'n rhaid i orsafoedd radio lenwi oriau ac oriau gyda sgyrsiau. Os gall rhywun o'r llyfrgell, neu'r amgueddfa neu'r archif neu ble bynnag siarad, cynigwch ymddangos am ddim. Mae gorsafoedd radio eisiau cynnwys da. Ond er mwyn gwneud hynny fel rheol, mae'n rhaid mynd trwy swyddfa cysylltiadau cyhoeddus ganolog yn yr awdurdod lleol bellach. Felly dylid gwneud yn siŵr bod pobl yn yr adran honno yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod gan aelodau staff llyfrgell leol neu bwy bynnag y ddawn neu'r gallu i wneud hynny. Ni all aelodau staff y gangen fynd yn syth at y radio eu hunain.

***Hyfforddiant***

Rwy'n gwneud, neu wedi gwneud, llawer o waith i Lyfrgelloedd Casnewydd, diwrnod y llyfr, cynllun yr haf….i grwpiau ysgol a wahoddir, i grwpiau teuluol. Roedden nhw eisiau hyfforddiant i aelodau staff adrodd straeon, yn seiliedig ar y gweithdai ar adrodd straeon cymunedol a gynhaliais i'r cyhoedd a ddaeth i mewn.

Ceir llawer o botensial ar gyfer datblygu yn y dyfodol: hyfforddi aelodau staff, storïwyr i dywys pobl o amgylch amgueddfeydd, safleoedd Cadw….teithiau tywys, straeon yn canolbwyntio ar/wedi eu hysbrydoli gan wrthrychau penodol.

Pe bai storïwr yn gallu gweithio gyda grŵp bach o bobl – aelodau staff llyfrgell neu archif neu amgueddfa, neu athrawon neu gynorthwywyr dosbarth – a'u bod yn awyddus i wneud y math yna o stori a chael modelu'r stori honno ar eu cyfer, efallai

y gellir gloywi eu sgiliau, eu cefnogi trwy gyfarfod 2 neu 3 gwaith y flwyddyn, neu gael gweld perfformiadau fideo o'i gilydd neu adroddwyr eraill a recordiwyd yno. Hefyd, mae angen cydnabyddiaeth y gallai fod angen i lyfrgelloedd ac amgueddfeydd weithio yn unol â chylch gwaith addysgol. Daw'r broblem gyda'r ffaith nad yw athrawon yn dod â dosbarthiadau i lyfrgelloedd neu'n gwahodd llyfrgelloedd i ysgolion oherwydd eu bod yn dweud nad oes amser o fewn y cwricwlwm, ond nid yw athrawon yn gwybod beth mae llyfrgelloedd yn ei gynnig fel cefnogaeth ac weithiau nid yw'n cael ei gyfathrebu'n eglur iddynt oherwydd gwahanol derminoleg.

Canfuais bod angen gorchymyn strategol o'r brig i lawr arnoch er mwyn gwneud pethau, i gyflawni pethau. Oherwydd bydd pobl yn dod o hyd i resymau i beidio â'i wneud. 'Rwy'n rhy brysur, neu mae gen' i'r holl bethau pwysig eraill yma i'w gwneud.' Mae angen bywiogi pobl, ennyn eu brwdfrydedd. Dylid annog pobl sydd eisiau cael eu hyfforddi i adrodd straeon.

Ceir tueddiad yn Sain Ffagan, ymhlith y gŵyr hŷn, i sgwrsio â phobl mewn ffordd sy'n troi'n naratif. Efallai mai hwnnw yw'r lle – y  math yna o le lled-gymdeithasol y mae adrodd straeon yn digwydd, ond mae angen llawer o ddawn ar gyfer hynny. A hyder, yn bendant. A gwybodaeth: am yr arddangosfa, a darnau bach o wybodaeth naratif am yr arlunydd, y lle, y math yna o beth. Cynhaliais nifer o weithdai mewn amgueddfeydd ond roedden nhw ar gyfer athrawon a oedd yn defnyddio safle neu arddangosfa'r amgueddfa. Dylid wir annog a chefnogi aelodau staff amgueddfeydd sydd â'r ddawn yna, y diddordeb yna, mewn cyfathrebu. Eu hyfforddi os ydynt yn dymuno.

Datblygwch raglenni ar sail themâu. Er engraifft 'cŵn'—straeon fel 'The Diggin'-est Dog' a 'Hairy McLairy' ac ati. Ceir cymaint o becynnau sy'n seiliedig ar themâu a gellir eu paratoi a'u cyflwyno. Gellir gwneud aelodau eraill o'r staff yn ymwybodol ohonynt. Gellid cael pecynnau a fyddai'n rhwydd i unrhyw un gael gafael arnynt—felly bydd gan Mary sydd wrth ei bodd yn adrodd straeon ddigonedd ond gall Josephine nad yw'n hoffi amseroedd stori gymryd ei lle ar y funud olaf os bydd Mary yn sâl. Gallant godi'r llyfrau oddi ar y silff.

Dechreuais gyda braidd dim arian a llwyddo i wneud llawer, yna roedd gennym lawer o arian a gwnaethom fwy, a nawr mae'r arian wedi diflannu eto. Gallaf fynd yn ôl at yr hyn roeddem ni'n gweithio ag ef o'r blaen ac edrych ar y defnydd mwyaf effeithiol o arian. Mae angen crynhoi staff, cael tîm o bobl sy'n gallu mynd allan i gynorthwyo aelodau staff mewn canghennau lle nad oes ganddyn nhw rywun sy'n teimlo ei fod yn gallu cynnal amseroedd stori, neu nad oes amser i wneud hynny, neu lle maen nhw'n anghyfforddus neu heb eu hyfforddi. Allwch chi ddim gorfodi pobl i'w wneud, ond mae'n rhaid iddyn nhw weld bod gan bob un ohonynt swyddogaeth, pa un a yw'n gweithio ar y cownter er mwyn i rywun arall allu cynnal y gweithgaredd neu fod pobl eraill yn adrodd straeon neu'n helpu. Y peth mawr y mae'n rhaid i lyfrgelloedd fod yn wyliadwrus ohono, mewn rhai llyfrgelloedd lle mae gennych unigolyn gor-frwdfrydig neu hynod ddawnus yn enwedig, yw peidio â rhoi gormod o amser i'r gweithgareddau crefft ac anghofio beth yw gwir ddiben y llyfrgell. Y gweithgareddau craidd, hybu gweithgarwch yn seiliedig ar straeon. Gwaith dilynol yw gwaith celf.

Un broblem am hyfforddiant, mewn unrhyw grŵp o tua 15, bydd gennych un neu ddau sy'n storïwyr go iawn. Rwy'n credu y gallwch ddefnyddio gwirfoddolwyr i raddau ond mae angen i chi ddefnyddio eich gweithwyr proffesiynol. Nid bod rhaid i chi gael storïwyr proffesiynol, ond mae'n rhaid i chi gael pobl sy'n ymroddedig iawn i adrodd straeon ymhlith aelodau'r staff a chyda gwirfoddolwyr. Pobl sydd wedi datblygu arfer o adrodd straeon yn gydwybodol. Gadewch i ni ei rhoi hi felly. Rwy'n adnabod un neu ddau o athrawon yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi ymddeol ac wedi dechrau adrodd straeon ac ystyrir eu bod yn dda iawn. Pobl felly. Pe gallen nhw siarad ag aelodau staff amgueddfeydd am yr hyn rydym ni ei eisiau? Oherwydd nid yw plant yn edrych fel arall. Nid yw oedolion yn edrych. Gall adrodd straeon eu denu i edrych. Mae'n rhaid iddyn nhw weithio gyda phobl sydd â'r chwilfrydedd dwys yna am sut y maen nhw'n cael pobl i edrych a gwrando. Mae'n rhaid iddo fod yn ymarferol, ni all fod yn anhyblyg, mae'n rhaid iddo fod yn ymarferol, yn arbrofol a bwrw ymlaen.

***Effeithiolrwydd Digwyddiadau***

Yr hyn y mae angen i lyfrgellwyr ei wneud os ydynt yn trefnu neu'n ariannu digwyddiadau, neu'n eu hariannu'n rhannol. Un peth yw bod angen iddyn nhw fod yn eglur iawn ac yn benodol iawn am yr hyn maen nhw'n ei gael o hyn, a'r hyn maen nhw'n ei gyfrannu. Yn fy marn i, nid yw'n ddigon dim i gynnal rhywbeth yn y llyfrgell. Mae angen iddyn nhw wneud cysylltiadau â'r storïwr i feddwl am ba fath o stori maen nhw'n ei chael y tro yma a sut y bydd hyn yn cysylltu â'u gwaith neu gyda'r lle neu gyda diddordebau'r plant o'u hysgolion. Beth sy'n digwydd yma? Nid yw'n ddigon da dweud bod y llyfrgell yn eich croesawu i'r llyfrgell a'i fod yn cynnal y peth yma. Dylid paratoi, dim ond er mwyn dangos yn eglur beth mae'r grŵp ysgol neu gynulleidfa arall yn ei gael, felly efallai y byddai athrawon yn siarad gyda'r plant am y llyfrgell, pam maen nhw'n mynd, pwy maen nhw'n ei weld, beth maen nhw'n ei wneud. Fel bod pawb yn teimlo'n dda am y diwrnod.

Mae swyddogaeth adrodd straeon, o bwysleisio gwybodaeth leol, yn bwysig. Mae swyddogaeth adrodd straeon yn bwysig mewn gwybodaeth leol, rwy'n credu bod gan lyfrgelloedd ac amgueddfeydd swyddogaeth enfawr, y swyddogaeth fwyaf, i'w chyflawni. Gallant gysylltu â'r ysgolion, gallant gysylltu â'r gymuned, cysylltu â chynlluniau. Gallant fod yn ganolbwynt i hynny.

Rheswm arall am lwyddiant Lambeth Storytellers. Datblygodd y bobl a aeth o gwmpas berthynas â phobl. Nid dod i mewn a dweud stori yn unig oedden nhw, roedd hefyd yn golygu datblygu perthynas. Mae Cymru'n arbennig o dda yn hynny o beth. O safbwynt Cymru, cydnabod pwysigrwydd lle a phwysigrwydd rhwydweithiau cymdeithasol a manteisio ar y pethau hynny. Mae'r ddau beth yna'n mynd gyda'i gilydd.

Mae'r cysylltiadau personol yn bwysig. Ceir cydnabyddiaeth o bwysigrwydd pobl mewn mannau llai. Rwy'n credu bod llyfrgellwyr da yng Nghymru, ac mae llawer ohonynt, maen nhw'n wych o ran rhwydweithio. Os ydynt yn dda maen nhw'n dda

iawn am rwydweithio a dod â sefydliadau eraill i mewn. Pa un a fyddant yn cael eu hysbrydoli i wneud hyn mewn oes ddigalon…..

***Preswylfeydd a Phartneriaethau: Storïwyr a Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau.***

Prosiectau—rhai hirdymor. Maen nhw’n wych, ond erbyn y bydd un wedi dod i ben, dyna pan fyddwch yn gweld beth i’w wneud o’r diwedd. Wedyn mae cymaint o amser yn mynd heibio cyn cynnal preswylfa hirdymor arall eich bod yn treulio amser yn ail-ddysgu ac ail-feddwl. Byddai’n dda cael cefnogaeth ar gyfer datblygiad a gwaith ymchwil. Un peth da am y preswylfeydd, ar y llaw arall, yw eu bod yn gyfle da i ehangu repertoire, i archwilio archifau a chael syniadau newydd ar gyfer straeon a gweithgareddau.

Mae wir angen cyllid ar gyfer gwaith ymchwil arnom, ar gyfer datblygu deunydd. Pwynt arall: mae Llenyddiaeth Cymru angen i artistiaid preswyl ganolbwyntio ar/cynhyrchu ysgrifennu mewn ymweliadau ysgol….mae angen i ddefnyddwyr roi gwybod i Lenyddiaeth Cymru yn well beth maen nhw ei eisiau ac yn ei ddymuno. Gellir gwneud dadl dros werth gweithgareddau llafar, un sy’n seiliedig ar waith ymchwil yn dangos pwysigrwydd iaith lafar wedi ei chyfoethogi i ddatblygu’r ymennydd, hyder, ymwybyddiaeth, hunaniaeth, llenyddiaeth feirniadol cyn ysgrifennu. Y broses adrodd a’r broses ysgrifennu – mae’r camau cychwynnol yr un fath, mae’r ddau’n defnyddio’r un rhannau o’r ymennydd. A yw ymweliadau’n ymwneud â phroses neu gynnyrch? Canlyniad ysgrifennu – ydyn nhw’n ymwneud â chreadigrwydd neu sgiliau technegol (pwyslais ar lawysgrifen, sillafu, gramadeg, cystrawen, semanteg ac ati)?

Gwaith ymchwil penodol i fy ngwaith adrodd straeon mewn amgueddfeydd weithio. Mae’n rhaid i amgueddfeydd a llyfrgelloedd Cymru dalu pobl i wneud gwaith ymchwil da. Nid oes rhaid iddo fod yn wythnosau o waith, gall fod yn ddiwrnodau. Ond mae’n rhaid iddo ddigwydd. Mae’n rhaid ei gymryd o ddifrif mewn geiriau eraill. Gallwch gyflogi rhywun am ddiwrnod yn unig. Ond nid ydych chi’n mynd i gael y gorau o hynny. Felly meddyliwch am hynny, cyflogwch rywun am fwy o amser. Mae’n ymwneud â datblygiad. Deg gwahanol ddiwrnod dros flwyddyn a gadewch iddyn nhw gael eu talu am ychydig o waith ymchwil i gefnogi hynny. Fel bod ganddynt amser i edrych o gwmpas y lle, gweld beth sydd yno, gweld beth sy’n ddiddorol, gweld beth yw’r hanes. Rydym ni i gyd yn gwybod hyn ond mae’n rhaid ei ddweud.

Mae llyfrgelloedd yn dda iawn. Maen nhw’n dda oherwydd bod y llyfrgellydd yn bresennol bob amser. Nid ydych chi byth yn gweithio heb rywun. Mae’r sawl sydd wedi eich cyflogi’n bresennol fel rheol. Felly mae’n cymryd amser i ffwrdd o unrhyw ddyletswyddau llyfrgell sydd ganddo ef neu hi. Felly fy mhrofiad i yw bod llyfrgelloedd ymhell o flaen ysgolion o ran rhoi cynulleidfa, ardal a storïwr at ei gilydd yn y ffordd sy’n cael yr effaith fwyaf bosibl.

Rydw i wedi bod yn rhan o brosiectau eraill sydd ddim wedi gweithio. Maen nhw'n ofnadwy pan fydd gennych chi ddull aml-asiantaeth…nid oes neb yn arwain y gwaith. Yr hyn sy'n gwbl hanfodol am y defnydd o adrodd straeon i wneud unrhyw beth yw bod â ffydd yn y bobl sy'n gwrando arnynt, a'r weithred a'r broses o adrodd straeon, a'r straeon. Yr adegau pan rwyf wedi ei weld *ddim* yn gweithio a gweld hynny'n uniongyrchol yw, er enghraifft, gweithio gyda phlant, bechgyn, yr ystyrir eu bod yn tangyflawni neu'n wrthwynebol. Mae trefnwyr prosiect yn ei gael yn eu pennau nad oes unrhyw ffordd y bydd gan y plant hyn ddiddordeb mewn straeon. Anghofiwch hi. Felly beth maen nhw'n ceisio ei wneud wedyn yw ei gyflwyno fel rhywbeth arall rywsut. Ond fe WNÂNT wrando ar straeon, ac adrodd straeon. Roeddwn i'n rhan o brosiect lle gwnaethant geisio ei wneud gyda chwaraeon ac ysgrifennu newyddiaduriaeth chwaraeon, ac ni weithiodd a dweud y gwir. Drud dros ben, cymhleth dros ben, ni weithiodd mewn gwirionedd. Ar achlysur arall, ceisiwyd ei wneud gyda chomics Manga. Oherwydd nid yw bechgyn yn hoffi straeon, mae bechgyn yn hoffi Manga. Felly fe es i mewn y diwrnod ar ôl i arlunydd fod yno ac roedd gen' i lond y lle o luniau o freichiau a choesau wedi eu torri i ffwrdd, a phennau wedi eu torri i ffwrdd a gwaed yn tasgu i bob man. Ac roedd y plant hyn yn anodd. Eisteddais i nhw lawr ac adrodd straeon wrthyn nhw. Ac roedden nhw wedi eu swyno'n llwyr trwy'r holl amser roeddwn i'n adrodd straeon wrthyn nhw, y cwbl oedd ei angen arnynt oedd llawer iawn iawn o hynny. Rwy'n credu bod moment gritigol pan rydych chi'n cymryd rhan mewn prosiect pan mae'n rhaid i chi ddal yn dynn a chadw ffydd yn y gelfyddyd a chadw ffydd yn y bobl sy'n gwrando arno, pwy bynnag ydyn nhw. A pheidio â'i gyflwyno fel rhywbeth arall. Oherwydd mae'n anochel wedyn y byddwch yn cael eich hun rhwng dau gae.

Mae rhai prosiectau wedi bod yn dda iawn. Cafwyd cynnyrch, ond nid y cynnyrch yw'r pwynt, mae'r cynnyrch yn troi'n rhan o'r cadarnhad o'r prosiect. Felly mae gennych gylch rhinweddol. Yn hytrach na theimlo, 'Diolch byth ein bod wedi dod i ddiwedd y prosiect ac wedi llwyddo i gynhyrchu'r peth yma.' Na, nid dyna'r pwynt. Y pwynt yw y cynhyrchwyd y llyfr fel canlyniad naturiol, ac mae copi o'r llyfr ym mhob llyfrgell, ac mae'r bechgyn yn dweud, 'O, hwnna, iawn!' Maen nhw wedi eu cyhoeddi ac maen nhw yn y llyfrgell a gall bobl gael benthyg y llyfr. Dyna bwynt y cynnyrch.

Rwyf wedi gwneud llawer o waith amgueddfa. Mae'r gwaith amgueddfa gorau rwyf wedi ei wneud bob amser wedi bod yn gysylltiedig ag arddangosfa yn benodol. Arddangosfa, yn gyffredinol. Oherwydd mae gennych chi'r deialog braf yma rhwng y deunydd rydych chi'n gweithio arno a'r digwyddiad arbennig yma, ac mae yn ddigwyddiad arbennig fel rheol.

### *Defnyddio Gwirfoddolwyr ac Aelodau Staff Achlysurol*

Rwyf wedi cymryd rhan yn y gwaith o hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae gennych gytundeb, mae'n rhaid archwilio eu cefndir at ddibenion diogelu plant ac yn y blaen, mae'n rhaid i chi ddweud i bwy maen nhw'n atebol. Mae'n rhaid cael rhywbeth fel ein cynllun mentora, nid yw'n anodd ei reoli. Ysbytai hefyd, cofiwch ysbytai, lle i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr. Grwpiau rhianta a chanolfannau cyngor i rieni hefyd. Gallwn hyfforddi unrhyw un. Ond mae angen mwy o ddynion arnom i adrodd

straeon a dweud y gwir, i adrodd straeon i blant. Bu cymaint o raglenni i hyfforddi gofalwyr maeth i adrodd straeon, a rhaglenni i addysgu carcharorion i adrodd straeon i'w plant eu hunain pan fyddant yn ymweld. Ceir llawer o brofiad i fanteisio arno.

Roedd prosiect Kick into Reading gyda Chlwb Pêl-droed Caerdydd yn hynod boblogaidd gyda phawb, yn enwedig staff hyfforddi'r clwb. Llwyddodd llawer o'r hyfforddwyr hynny, bron pob un ohonynt, i integreiddio'r gwaith adrodd straeon i'w gwaith rheolaidd. Mae un ohonynt wedi adrodd straeon ynghyd â hyfforddi chwaraeon mewn canolfan i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Efallai y gellid hyfforddi mwy o hyfforddwyr chwaraeon sy'n gweithio i glybiau ledled Cymru—nid yn unig pêl-droed, ond rygbi a chriced hefyd—i gymryd rhan mewn rhywbeth fel prosiect Kick into Reading. Ond wedi eu hintegreiddio â sefydliadau awdurdod lleol fel llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, fel y gellid galw ar yr hyfforddwyr i fynd i'r lleoedd hynny i adrodd straeon hefyd.

## *ARFERION CYFREDOL MEWN AMGUEDDFEYDD AC ARGYMHELLION AR EU CYFER*

*Darparodd Ceri Black, o Adran Ddysgu Amgueddfa Cymru, adroddiad manwl ar arferion amser stori yn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru. Defnyddiwyd hwn wrth baratoi Adrannau 2 a 3 yr adroddiad, ond mae mor benodol a chynhwysfawr ein bod yn ei gynnwys yma, fel y gall y rhai sy'n chwilio am bwyntiau trafod pellach wrth gynllunio, neu syniadau ar gyfer datblygu, ei ddefnyddio.*

**Pa Mor Aml y Cynhelir Gweithgareddau Amser Stori:**

Rhannwyd yr ymatebion rhwng 'Aml', 'Rheolaidd' ac 'Anaml' – yn rhannol oherwydd ansicrwydd/dryswch ynglŷn â'r diffiniad o 'amser stori.' Er enghraifft, nododd Big Pit anaml – ond byddai eu glowyr tywys yn mynd ag ymwelwyr dan y ddaear ac yn darparu naratif yn feunyddiol.

**Arferion Amser Stori mewn Amgueddfeydd Cenedlaethol yng Nghymru:**

- **Adrodd straeon llafar traddodiadol** – byddai gan ein holl amgueddfeydd sesiynau adrodd straeon llafar, yn enwedig ar adegau arwyddocaol/perthnasol o'r flwyddyn.

- **Adrodd o'r cof** – **straeon llenyddol neu farddoniaeth** – rydym yn gweithio gyda beirdd – gan gynnwys mentrau yn ymwneud â rap.

- **Darllen ar lafar - llyfrau lluniau, nofelau a/neu gerddi** - yn ymddangos yn llai aml nag mewn Llyfrgelloedd. Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac weithiau Big Pit yn defnyddio lluniau a gomisiynwyd yn arbennig er mwyn helpu i ddarllen / adrodd straeon.

- **Amseroedd rhigwm a digwyddiadau i fabanod a rhieni** – cynhelir y rhain yn rheolaidd mewn nifer o'n hamgueddfeydd, yn enwedig Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Mae'r ddarpariaeth hon yn datblygu yn ein hamgueddfa – yn rhannol i gynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, ac yn rhannol mewn cydweithrediad â sefydliadau fel Twf a Menter, sy'n annog rhieni i fagu eu plant yn ddwyieithog.

- **Gweithgareddau bwrdd gwlanen, crefft neu bypedwaith sy'n deillio o stori a adroddir neu lyfr a ddarllenir ar lafar fel rheol –** Yn rhan o'n darpariaeth deuluol, mae gweithgaredd crefft yn aml yn gysylltiedig â digwyddiadau sy'n ymwneud â straeon fel diwrnod Santes Dwynwen neu'r Nadolig (ni ddefnyddir y bwrdd gwlanen).

- **Sgyrsiau llyfrau, ymweliadau gan awduron a chlybiau llyfrau lle y caiff naratifau eu rhannu a / neu eu trafod** – mae amgueddfeydd Amgueddfa Cymru yn cynnal ymweliadau gan awduron – a darlithoedd/sgyrsiau achlysurol yn seiliedig ar lyfrau yn rhan o raglen digwyddiadau'r sefydliad. Mae'r arddangosfa Anthony Browne ddiweddar yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn enghraifft gref o gyfranogiad awduron a rhannu / trafod naratif – gyda phlant ac oedolion.

- **Gweithgareddau neu brosiectau hanes llafar ac adrodd straeon digidol –** casgliadau hanes llafar yn Sain Ffagan; defnyddir hanes llafar/straeon digidol yn rhan o arddangosfeydd mewn amgueddfeydd – e.e. Sain Ffagan ac Amgueddfa Wlân Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru

- **Sgyrsiau neu deithiau tywys sy'n cynnwys hanesion personol a mathau eraill o naratif – cynigir y rhain yn aml neu'n rheolaidd yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru –** Byddai'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, teithiau tanddaearol yn Big Pit wedi eu harwain gan lowyr tywys, teithiau o amgylch y pentref yn Amgueddfa Wlân Cymru Dre-fach a sgyrsiau gan grefftwyr/gwehyddion sy'n arddangos; teithiau rheolaidd o amgylch yr orielau yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd; taith dywys gan saer yn Amgueddfa Lechi Cymru, yn

ogystal ag arddangosiadau hollti llechi.

- **Drama, ail-greu sefyllfaoedd hanesyddol neu berfformiadau pypedwaith yn ymwneud â chasgliadau neu arddangosion -** cynigir y rhain yn aml yn amgueddfeydd Amgueddfa Cymru. Byddai'r categori hwn yn cynnwys e.e. y tîm dehonglwyr hanes byw yn Sain Ffagan ac ail-greu sefyllfaoedd hanesyddol (e.e. sesiwn yn ysgol Sain Ffagan a fwynheir gan tua 18,000 o blant ac athrawon bob blwyddyn) yn ogystal â drama/perfformiadau hanesyddol gan gwmnïau sy'n ymweld, fel Viccus (Rhufeiniaid a Cheltiaid). Yn yr un modd, mae Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn cynnig perfformiadau yn rhan o raglen ysgolion, yn ogystal â'i darpariaeth i deuluoedd/ymwelwyr cyffredinol. Dim ond yn achlysurol y ceir pypedwaith, e.e. mae Sain Ffagan wedi cydweithredu â chyrsiau yng Ngholeg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, tra bod amgueddfeydd eraill wedi cyflwyno pypedwaith yn rhan o'u rhaglenni digwyddiadau yn achlysurol.

**Model o Arferion Cyfredol:**

***Defnydd o Adroddwyr Proffesiynol:***

| | |
|---|---|
| **Amgueddfa Lechi Cymru** | Cyflogir storïwyr rhyddgyfrannol amrywiol yn rhan o'r rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Er enghraifft, yn ystod wythnos adrodd straeon, ar wyliau banc ac yn rhan o ddigwyddiadau ar raddfa ganolig a mawr. |
| **Big PIt** | Defnyddir storïwyr fel Cath Little yn **Big Pit** ar adegau penodol ac amrywiol o'r flwyddyn fel digwyddiad Pythefnos y Glowyr. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, daethpwyd â storïwr i mewn i chwarae rhan 'Sian Corn' yn ystod mis Rhagfyr, gan gynnal sesiynau ysgol a digwyddiadau dysgu anffurfiol i'r cyhoedd. Y Nadolig diwethaf, fodd bynnag, datblygodd a darparodd y Swyddog Dysgu sesiynau adrodd straeon i ysgolion yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig, gan ddefnyddio gwaith celf a gomisiynwyd yn arbennig. Daeth Cyngor Tor-faen â storïwr i Big Pit ar gyfer Wythnos Addysg Oedolion ddiweddar yn rhan o weithgareddau'r Wythnos. |
| **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** | Cyflogir Mair Tomos Ifans bob Nadolig ar gyfer sesiynau adrodd straeon i gynulleidfaoedd amrywiol:<br>• Digwyddiad Ffair y Gaeaf – i deuluoedd<br>• Gweithdai 10 'Traddodiad y Nadolig' - i ddisgyblion CA1 a 2<br>• Sesiynau – i fabanod, plant cyn-ysgol a'u rhieni trwy TWF<br>Mae Mair hefyd yn cynnwys cerddoriaeth a chanu yn ei straeon, gan ddod â'i thelyn gyda hi yn aml.<br><br>HEFYD<br><br>Cyflogir storïwyr proffesiynol ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus o bryd i'w gilydd. Yn fwy cyffredin, mae aelodau staff yn adrodd straeon mewn orielau – fel rheol yn gysylltiedig â gwrthrychau neu gelf sy'n cael ei arddangos. Mae hynny hefyd yn gysylltiedig â rhyw fath o ddigwyddiad arbennig e.e. yr wythnos adrodd straeon genedlaethol. Mae un o'r sesiynau mwyaf poblogaidd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, *Sounds of the Dinosaurs*, yn cynnwys chwedl, sy'n hynod gyfranogol, a adroddir gan aelod o'r staff. |
| **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** | Mae **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** yn defnyddio storïwyr fel Megan Lloyd, yn enwedig yn ystod digwyddiadau diwylliannol, fel ffordd o ddathlu diwylliant pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol. |

***Adrodd Straeon Digidol***

Dywed pump o'r saith amgueddfa genedlaethol eu bod wedi creu straeon digidol neu wedi gweithio gydag arbenigwyr sy'n creu straeon digidol. Mae pob un o'n hamgueddfeydd yn defnyddio ffilm ddigidol mewn rhyw ffordd, fodd bynnag - ond nid ar ffurf buraf stori ddigidol o anghenraid**.** Yn ystod blynyddoedd blaenorol, bu Hyfforddwr TGCh Amgueddfa Cymru ar y pryd, Chris Bowler, yn hyfforddi aelodau staff amgueddfeydd yn ogystal ag athrawon mewn sgiliau straeon digidol. Rydym yn meddwl ei fod yn parhau i gynnig hyfforddiant ar sail ryddgyfrannol. Mae Amgueddfa Cymru yn dechrau defnyddio straeon digidol fel ffordd o roi adroddiadau i ymddiriedolwyr/aelodau staff - h.y. ar gyfer eiriolaeth. Mae nifer o'n safleoedd wedi creu animeiddiadau (â thystiolaeth lafar/naratif).

| | |
|---|---|
| **Amgueddfa Lechi Cymru** | Mae'r Amgueddfa wedi creu straeon digidol rhyng-genhedlaeth yn y gorffennol, gan ddefnyddio 2 arbenigwr fel hwyluswyr ar gyfer Casgliad y Werin Cymru. Defnyddiodd straeon digidol yn rhan o ddathliadau ei phen-blwydd yn 40 oed hefyd. |
| **Big Pit** | Yn ystod Wythnos Addysg Oedolion, defnyddiodd y grwpiau gamerâu Flip i greu eu straeon digidol eu hunain y bydd dysgwyr yn gweithio arnynt mewn dosbarthiadau TGCh. Cynhyrchwyd ffilm gryno am waith y gof yn ddiweddar. |
| **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** | Mae aelodau'r staff wedi defnyddio straeon digidol i werthuso prosiectau / casglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer gwerthuso. Daeth Dysgu Gydol Oes Cyngor Caerdydd â hyfforddwyr arbenigol i mewn ar gyfer diwrnodau Dysgu Gydol Oes. Ceir potensial cryf i ddatblygu hyfforddiant ym maes adrodd straeon digidol ar/o'r safle hwn – gan roi'r sgiliau i bobl greu straeon ar gyfer Casgliad y Werin a chysylltu â gwrthrychau yn ein casgliadau. Byddem yn croesawu'r cyfle i archwilio hyn gyda Chanolfan George Ewart Evans. |
| **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru** | Mae'r Amgueddfa yn creu ffilmiau digidol i'w defnyddio mewn arddangosfeydd dros dro a fyddai'n rhy gymhleth neu ddiflas i'w hadrodd ar ffurf testun. |
| **Amgueddfa Wlân Cymru** | Gwaith gyda Culturenet Cymru, ysgolion lleol a phartneriaid eraill ar straeon digidol gan ddefnyddio'r casgliad yn Amgueddfa Wlân Cymru a straeon hanesyddol lleol eraill. Astudiaeth achos ddiweddar ar gael. |
| **Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan** | Mae'r Amgueddfa wedi defnyddio straeon digidol yn y gorffennol, yn rhan o'r gwaith o ddatblygu arddangosfeydd wedi'u curadu gan y gymuned fel rheol, yn rhan o'r arddangosfa 'Dreseli' yn yr Oriel, er enghraifft. |
| **Gwaith Maes** | Gwnaeth prosiect ieuenctid Ar Dir Cyffredin, yn enwedig, ddefnydd helaeth o straeon digidol. Mae'r Swyddog Cydgysylltu Cymunedol yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Sarah Greenhalgh, ar fwrdd Breaking Barriers.<br><br>Nid yw'n ymddangos bod yr un o'r amgueddfeydd yn cymryd rhan mewn gwyliau ar hyn o bryd. |

***Bylchau Tybiedig yn y Ddarpariaeth, Meysydd ar gyfer Cymorth Ychwanegol a Rhaglenni Hyfforddi***

| | |
|---|---|
| **Amgueddfa Lechi Cymru** | Hoffai hwyluso mwy o straeon digidol yn y dyfodol.<br>Mae gan y Swyddog Dysgu gefndir Theatr mewn Addysg a diddordeb yn y maes hwn. |
| **Big Pit** | Mae o'r farn y gallai sesiynau adrodd straeon dargedu myfyrwyr Saesneg ar lefel uwchradd, yn enwedig os y'u cysylltir â'r cyfoeth o lenyddiaeth yn y maes hwn, megis cerddi gan Idris Davies neu nofelau fel 'Rape of the Fair Country' a 'These Poor Hands'. 'Gallai prosiect gynnwys storïwr ddwywaith; unwaith ar ddechrau'r prosiect i gynnig tiwtorial 'sut i fynd ati', ac unwaith ar y diwedd i gynnig adborth ar straeon y mae'r myfyrwyr wedi eu hysgrifennu, ar ôl ymweld â Big Pit a gweithio ar lenyddiaeth sy'n ymwneud â'r pyllau glo yn yr ysgol.' Byddai hyn yn cynnig y fantais o wella sgiliau llythrennedd. [3] |
| **Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd** | Dywed aelodau'r staff eu bod yn teimlo bod y gost o gyflogi yn rhy uchel yn aml – ac ni wnaiff Llenyddiaeth Cymru dalu am adrodd straeon yn unig – dim ond wedi ei gyfuno â mentrau eraill.<br>Mae ganddynt ddiddordeb mewn sgiliau adrodd straeon y gellir eu haddysgu i aelodau staff – trwy hyfforddiant efallai – i annog mwy o ddehongli trwy adrodd straeon. Mae'r safle hwn yn targedu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar yn gynyddol, ac yn gweithio mewn cydweithrediad â Dechrau Da a Dechrau'n Deg yn rhan o ymrwymiad Amgueddfa Cymru i fynd i'r afael â Thlodi Plant. |
| **Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru** | Hoffai'r Amgueddfa ymchwilio i'r defnydd o adrodd straeon mewn sesiynau addysgol. Maent yn defnyddio storïwr proffesiynol ar gyfer digwyddiad Nos Calan Gaeaf yn unig ar hyn o bryd. |
| **Amgueddfa Wlân Cymru** | Hoffai gael 'gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael a gwahanol ffyrdd y gallwn ddefnyddio gweithgareddau adrodd straeon, 'mae'r costau dan sylw yn hyn o beth yn ffactor hefyd'. |
| **Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan** | Byddai'n ddiddorol datblygu gŵyl ar gyfer adrodd straeon ag elfennau o rannu sgiliau ac arddangos arfer gorau. Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau yn tueddu i ganolbwyntio ar deuluoedd ar hyn o bryd, a gallai weithio'n dda i ddatblygu gŵyl i oedolion rannu eu profiad.[4] |
| **Amgueddfa Genedlaethol y Glannau** | Mae aelodau staff yn cynnal sesiynau cyn-ysgol a blynyddoedd cynnar rheolaidd. Mae'r staff Dysgu wedi dechrau partneriaethau cynhyrchiol iawn gyda Dechrau Da/Dechrau'n Deg yn Abertawe yn ddiweddar, ac wedi llwyddo'n arbennig o dda i gyrraedd rhieni a phlant ifanc o gymunedau difreintiedig. Mae'r Swyddog Dysgu yn rhagweld y bydd yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau adrodd straeon yn y dyfodol. Mae CyMAL wedi cysylltu ag Amgueddfa'r Glannau eisoes i gynnal hyfforddiant adrodd straeon i'r blynyddoedd cynnar ar gyfer y sector amgueddfeydd, fel cynllun peilot. |

[3] (O gofio pwyslais yr Adran Addysg a Sgiliau ar lythrennedd, mae'r cysylltiad rhwng adrodd straeon a llythrennedd yn rhywbeth sy'n debygol o ymddangos yn fwy aml yng ngwaith Amgueddfa Cymru yn y dyfodol.)

[4] (Efallai y gallai hyn weithio fel cydweithrediad â gŵyl Beyond the Border. Gallai'r ymateb uchod ddynodi nad yw aelodau staff Sain Ffagan yn ymwybodol o ddarpariaeth allgymorth/ gŵyl Beyond the Border – nac o fentrau yng Nghaerdydd, fel Cylch Adrodd Straeon Caerdydd.)

**Nodyn i Gloi**

Rydym yn gwerthfawrogi bod yr astudiaeth hon yn defnyddio diffiniad eang o adrodd straeon, i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau a all ddigwydd yn ystod amseroedd stori, ag elfen gyffredin ar **ddarparu naratif ar lafar**.

Hoffem ddatgan, fodd bynnag, bod ffurfiau eraill o adrodd straeon sy'n arbennig o arwyddocaol iddynt e.e. adrodd straeon trwy

- **Arddangosfeydd mewn orielau** (fel yr *Oriel Gwreiddiau* sy'n cynnwys casgliadau Archaeoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Daeth **100,542** o ymwelwyr i'r Oriel Gwreiddiau yn 2011/12, ac mae wedi cyrraedd **489,91** rhwng dyddiad agor yr oriel a diwedd mis Mehefin 2012

- **Arddangosfeydd teithio**, fel arddangosfa *Anthony Browne* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (ynglŷn â straeon, ond hefyd yn adrodd stori sut y mae gwaith Anthony Browne fel darlunydd wedi datblygu dros amser.)

- Arddangosfeydd dros dro fel yr arddangosfa *Tŷ Ffoaduriaid* yn Sain Ffagan, sydd wedi creu golygfa dan do mewn ymgynghoriad â ffoaduriaid, a chydag eitemau/dodrefn a fenthycwyd - gan gynnwys pentwr mawr o bost sothach. (Mae hyn yn gyffredin mae'n debyg, oherwydd pryder y gallai gohebiaeth swyddogol bwysig ynglŷn â statws/preswyliaeth ac ati gael ei cholli trwy daflu post.)

Mae ein hamgueddfeydd a'n harddangosfeydd yn adrodd straeon mewn amrywiaeth o ffyrdd, trwy ddethol, trefnu a chyfosod eitemau/gwaith celf, â labeli testun ategol, a chyda chefnogaeth glywedol – o 'orsafoedd sain', dolenni o wybodaeth wedi ei recordio/ffilmiau â sain amgylchynol, fel y lleisiau a'r seiniau cefndir yn y caban (y man lle'r oedd gweithwyr llechi yn ymlacio, yn trafod ac yn bwyta eu bwyd) yn Amgueddfa Lechi Cymru.

**ATODIAD II (B) Ffynonellau ac Adnoddau**

**MODELAU O ARFER DA:**

**1. Prosiect "12 Boys Tell" sy'n cael ei redeg gan Paul Doyle, Swyddog Datblygu Darllen, Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot**

Ariannwyd y cynllun hwn trwy Brosiect Darllenwch Filiwn o Eiriau Gyda'ch Gilydd yng Nghymru. Nod *12 Boys tell* oedd gweithio gyda bechgyn blwyddyn 7 ar brosiectau darllen ac ysgrifennu creadigol gydag awduron a storïwyr profiadol gan ddefnyddio gwahanol ffurfiau ar lenyddiaeth—barddoniaeth gyda Phil Bowen, adrodd straeon gyda Michael Harvey, ymsonau gyda Phil Carradice a straeon byrion gydag Alan Durant. Ymhlith y canlyniadau, cyflwynodd y bechgyn berfformiadau o straeon i blant ysgol gynradd lleol, cyhoeddwyd llyfr o'u gwaith ysgrifenedig, cynhyrchwyd CD o'r perfformiad. Addaswyd ac ailadroddwyd y prosiect mewn gwahanol ffyrdd.

**2. SPELLBINDERS** **http://www.spellbinders.org/**

Menter gan awdurdod addysg lleol oedd hon, ond gallai llyfrgelloedd ei haddasu neu gellid gweithio mewn partneriaeth â llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd ac ysgolion. Cafodd ei haddasu o raglen yn America (dolen i'r wefan). Hyfforddwyd pobl hŷn gan y storïwr a'r gantores, Cath Little, i adrodd a darllen straeon ar lafar i blant. Er bod y cyllid wedi dod i ben, mae'r gwirfoddolwyr yn parhau i ddarparu'r rhaglen ar eu pen eu hunain.

**3. CYNLLUNIAU ADRODD STRAEON YR HAF (yn seiliedig ar arferion yn Llyfrgelloedd Lambeth yn y 1970au a Llyfrgelloedd Belfast yn y 1970au a'r 1980au)**

Yn ei llyfr, *Children Are People, the Librarian in the Community*, arloesodd Janet Hill gynllun adrodd straeon lle'r aeth grŵp o oedolion o gwmpas lleoliadau amrywiol yn ystod gwyliau'r haf i adrodd straeon a'u darllen ar lafar. Roedd rhai yn aelodau o staff llyfrgelloedd, a recriwtiwyd llawer o'r gymuned, e.e. pobl wedi ymddeol, pobl sy'n gweithio'n rhan-amser neu ar sail ryddgyfrannol, myfyrwyr hŷn ac yn y blaen. Fe'u hyfforddwyd i ddarparu'r amseroedd stori. Yn ystod yr haf, gwnaethant ymweld â pharciau, canolfannau chwaraeon a hamdden, canolfannau celfyddydau, stadau tai, unrhyw le y gallent ddod o hyd i gynulleidfa. Trwy gynllunio, a rhywfaint o arbrofi, datblygwyd trefn ac amserlen. Disgrifir agweddau ymarferol ar ddatblygu rhaglen o'r fath yn y llyfr. Roedd y storïwr o Gymru, Mary Medlicott, yn un o aelodau gwreiddiol y timau adrodd straeon a gymerodd ran, a hyfforddodd lawer o storïwyr ac aelodau staff wedi hynny. Fel y dywedodd Mary mewn cyfweliad ar gyfer yr astudiaeth hon, roedd cynllun Lambeth mor boblogaidd fel y'i mabwysiadwyd yn llwyr gan yr holl systemau llyfrgell yn yr holl ardal o gwmpas Christchurch, Seland Newydd, lle bu'n rhedeg yn llwyddiannus am sawl degawd.

Atgynhyrchwyd cynllun adrodd straeon yr haf gan Liz Weir, fel llyfrgellydd plant Belfast, er mwyn bod yn siŵr yn ystod cyfnod gwaethaf 'Y Trafferthion', y byddai'r llyfrgelloedd cyhoeddus yn dal i wasanaethu plant o bob rhan o'r gymuned. Roedd y

cynllun yn hynod lwyddiannus yno, a gosododd y sylfeini ar gyfer llawer o'r gwaith heddwch a thraws-gymunedol rhagorol ym maes y celfyddydau ac addysg yng Ngogledd Iwerddon, yn ogystal â bod yn rhywbeth a adfywiodd boblogrwydd adrodd straeon i oedolion ledled Iwerddon.

## 4. ADNODDAU'R GRŴP LLYFRGELLOEDD IEUENCTID AR GYFER AMSEROEDD STORI

Llyfryn ar adrodd straeon oedd *Telling the Tale, a Storytelling Guide*, gan Liz Weir (gol.) y Grŵp Llyfrgelloedd Ieuenctid, 1988 a fideo oedd *Tell Me Another One, Storytelling Through Picture Books* gan Liz Weir a Grace Hallworth (1988). Cyhoeddwyd a chynhyrchwyd y ddau gan y Grŵp Llyfrgelloedd Ieuenctid. Mae'r ddau'n dal i gynnwys canllawiau dilys a defnyddiol ar ddatblygu amseroedd stori mewn llyfrgelloedd yn enwedig, ac mewn ysgolion, amgueddfeydd, archifau ac orielau'n gyffredinol. Byddai'n werth chweil dod o hyd i'r adnoddau hyn, a cheisio eu hatgynhyrchu neu ail-greu fersiynau modern o'r ddau. Mae Liz Weir ac aelodau staff y Grŵp /CILIP yn barod i helpu gyda hyn, ac mae gan Ganolfan George Ewart Evans, â'i mynediad at gyfleusterau yn Ysgol y Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol, y staff technegol a'r offer i atgynhyrchu'r fideo fel DVD, neu i gynhyrchu fersiwn fwy modern o'r ffilm.

**SEFYDLIADAU, ASIANTAETHAU A MUDIADAU**
**Mae'r rhain yn cefnogi gweithgareddau amser stori o bob math, neu gallent wneud hynny, a byddent yn ddarpar bartneriaid ag awdurdodau lleol, neu ag ymarferwyr yn y sectorau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau**

Gŵyl Adrodd Straeon Ryngwladol Beyond the Border
http://www.beyondtheborder.com/
Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans http://glam.ac.uk/storytelling
StoryWorks http://www.storyworksglam.co.uk/
Llenyddiaeth Cymru http://www.llenyddiaethcymru.org/
Y Fforwm ar gyfer Adrodd Straeon yng Nghymru
CILIP http://www.cilip.org.uk/
Y Grŵp Llyfrgelloedd Ieuenctid (YLG) http://www.cilip.org.uk/get-involved/special-interest-groups/youth/pages/default.aspx
Y Gymdeithas Llyfrgelloedd Ysgolion http://www.sla.org.uk/
Y Gymdeithas Adrodd Straeon http://www.sfs.org.uk/
Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol http://www.literacytrust.org.uk/
Booktrust http://www.booktrust.org.uk/
Yr Asiantaeth Ddarllen http://readingagency.org.uk/
Scottish Storytelling Centre http://www.scottishstorytellingcentre.co.uk/
Storytellers of Ireland http://www.storytellersofireland.org/
Poetry Ireland/Writers in Schools http://www.poetryireland.ie/education/writers-in-schools.html
Apples and Snakes http://www.applesandsnakes.org/
Just Imagine Story Centre http://www.justimaginestorycentre.co.uk/
The Story Museum http://www.storymuseum.org.uk/
Seven Stories http://www.sevenstories.org.uk/

Ministry of Stories http://www.ministryofstories.org/
National Storytelling Netowrk http://www.storynet.org/
Gŵyl Llenyddiaeth a Chelfyddydau'r Gelli http://www.hayfestival.com
Photobus http://www.photobus.co.uk
Adrodd Straeon Digidol Aberth http://www.aberth.com
NEMO—Rhwydwaith Sefydliadau Amgueddfa Ewrop http://www.ne-mo.org/
GEM Y Grŵp dros Addysg mewn Amgueddfeydd http://www.gem.org.uk/
NMDC Cyngor Cenedlaethol y Cyfarwyddwyr Amgueddfeydd
http://www.nationalmuseums.org.uk

**LLYFRYDDIAETH**

Artforms Leeds (Active Learning: Spoken & Written Word) www.artformsleeds.co.uk a http://www.artformsleeds.co.uk/shared/cms/interface/view.aspx?id=391

Brown, L.K. (1989). 'What Books Can Do That TV Can't and Vice Versa' *School Library Journal* (Ebrill) 38-39.

Chukovsky, K., cyfieithiad gan Miriam Morton (1963) *From Two to Five* Berkley a Los Angeles: Gwasg Prifysgol Califfornia.

Colwell, E. (1980) *Storytelling* Llundain, Sydney, Toronto: The Bodley Head

Cunningtham, Anne E. a Keith E. Stanovich, 'Early Reading Acquisition and its Relation to Reading Experience and Ability 10 Years Later' *Developmental Psychology*, 33:6, 934-945, Tach., 1997

Daniel, A. (2011) *Storytelling Across the Primary Curriculum*, Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.

Dudding, K. (2005) 'The Value of Storytelling in Education' http://www.katedudding.com/value-storytelling-education.htm

Fecica, A. ac O'Neill, D.K. (2010) 'A Step in Time: Preliterate children's simulation of narrative movement during story comprehension' *Cognition,* 116, 368-381.

Frank, A. (2010) *Letting Stories Breathe: A Socio-Narratology* Chicago: Gwasg Prifysgol Chicago.

Gottschall, J. (2012) *The Storytelling Animal, how stories make us human,* Boston, Efrog Newydd: Houghton Mifflin Harcourt.

Greene, E. a Del Negro, J. M. (2010) *Storytelling: Art and Technique* Santa Barbara, Califfornia; Denver, Colorado; Rhydychen, Lloegr: Libraries Unlimited.

Haley, G. E. (1975), 'A Story, A Story: Caldecott Award Acceptance' yn Kingman, Lee (gol.)*Newbery and Caldecott Medal Books 1966-1975* Boston:Horn Book, Incorporated.

Hardy, B. (1977) 'Narrative as a Primary Act of the Mind' yn Meek, M., *et al* (gol.) *The Cool Web, the Pattern of Children's Reading*. Llundain: The Bodley Head.

Haven, K. (2007) *Story Proof*, Westport, Connecticut a Llundain: Libraries Unlimited.

Hill, J. (1973) *Children are People, the Librarian in the Community* Llundain: Hamish Hamilton.

Horner, Sue (2009) *Magic Dust That Lasts, writers-in-schools, sustaining the momentum.* Llundain: Arts Council England

Ings (2009) *Writing is Primary, action research on the teaching of writing in schools* Llundain: Esmée Fairbairn Foundation

Konner, M. (2010) *The Evolution of Childhood: Relationships, Emotion, Mind*, Cambridge, MA: Gwasg Prifysgol Harvard.

Muddiman, D. (2002) 'Images of Exclusion: user and community perceptions of the public library' *Public Administration*, 80:3, 475-502

National Council of Teachers of English 'Guideline on Teaching Storytelling' http://www.ncte.org/positions/statements/teachingstorytelling

Owen, N. a Munden, P. (2010) *Class Writing, a Research Report into the Writers-in-Schools Ecology* Efrog: NAWE

Poe, M.(2011) *A History of Communications: Media and Society from the Evolution of Speech to the Internet* Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Popova, Maria (2012) 'The Neurochemistry of Empathy, Storytelling, and the Dramatic Arc, Animated.' *Brain Pickings* *http://www.brainpickings.org/index.php/2012/10/03/paul-zak-kirby-ferguson-storytelling/*

Rosenhouse, J., Feitelson, D., Kilta, B. a Goldstein, Z. (1997) 'Interactive Reading Aloud to Israeli First Grades: Its contribution to literacy development' *Reading Research Quarterly*, 32:2, 168-183.

Ryan, P. (1995) *Storytelling in Ireland: A Re-Awakening*, Derry/Londonderry: Verbal Arts Centre.

Ryan, P (1997) *Word in Action*, Derry/Londonderry: Verbal Arts Centre.

Ryan, P. (2012) 'Junior Reading Champions: Adolescent Storytellers as Role Models for Reading in Sports and Literacy Programmes' *English, Four to Eleven*, 44: Spring.

Solinger, R., Fox, M., Irani, K. (2008) *Telling Stories to Change the World: Global Voices on the Power of Narrative to Build Community and Make Social Justice Claims*, Efrog Newydd a Llundain: Routledge.

Thorne-Thomsen, G. (1901) 'Reading in the Third Grade' *The Elementary School Teacher and Course of Study*, Cyfrol 1, Rhif 3 (Tach., 1901), 227-235

Thorne-Thomsen, G. (1903) 'The Educational Value of Fairy-Stories and Myths' *The Elementary School Teacher*, Cyfrol 4, Rhif 3 (Tach., 1903), 161-167

Tomasello, M. (1999) *The Cultural Origins of Human Cognition,* Cambridge, MA a Llundain: Gwasg Prifysgol Harvard.

Verbal Arts Centre, Nerve Centre, and the Western Education and Library Board (2001, 2002) *Listen Up!* a *Listen Up! 2.* [*fidoes yn cofnodi natur ac effaith preswylfeydd adrodd straeon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd*]

Wenner, J. A., Burch, M.M., Lynch, J.S. a Bauer, P.J. (2008) 'Becoming a Teller of Tales: Associations between children's fictional narratives and parent-child reminiscence narratives' *Journal of Experimental Child Psychology*. 101, 1-19.

Wolf, M. (2007) *Proust and the Squid, the story and science of the reading brain*, Efrog Newydd a Llundain: HarperCollins Publishers.

*Llun ar y clawr blaen: wikimediacommons (http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Door_opening.jpg?uselang=en-gb)*